

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

47/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

29/07/2020

Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru: Adroddiad Terfynol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Teitl: Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r
Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru
Isdeitl: Adroddiad Terfynol

Awdur(on): Jane Aston, Jane Aston Research Associates, Zoe
Charlesworth, Policy in Practice, Dr Ben Fell, Policy in Practice, Dr
Rod Hick, Prifysgol Caerdydd, Paul Howarth, Policy in Practice, Dr
Sion Jones, Prifysgol Caerdydd, Fabiana Macor, Policy in Practice,
Sam Tims, Policy in Practice, Claudia Varney, Policy in Practice

Adroddiad Ymchwil Llawn: Aston, J; Charlesworth, Z; Fell, B; Hick, R; Howarth, P; Jones, S;
Macor, F; Tims, F; Varney, C (2020). Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth
Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth xx/201x.>
Ar gael yn: <hyperlink: <http://gov.wales/statistics-and-research/...> >

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid
ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr John Broomfield

Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: LocalTaxationPolicy@gov.wales

Diolchiadau

Hoffai Policy in Practice ddiolch i'r canlynol:

Holl awdurdodau lleol a Chymdeithasau Tai Cymru a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn. Ni fyddai'r ymchwil hwn wedi bod yn bosibl heb y cyfranogiad hwn.

Y landlordiaid a'r bobl sy'n derbyn budd-daliadau a gymerodd ran yn garedig yn ein harolwg a'n cyfweiliadau.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru a roddodd adborth gwerthfawr yn ystod amrywiol gamau'r ymchwil hwn.

Matthew Evans, Pennaeth Gwasanaeth, Refeniw a Budd-daliadau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, am ddarparu cyngor drwy gydol y prosiect a chyflenwi'r data a oedd yn ofynnol ar gyfer modelu ychwanegol.

Bla translation (<https://bla-translation.co.uk/>) am eu gwaith ardderchog yn cyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg.

Janet Harkin, Pennaeth Marchnata yn Policy in Practice, am ei holl gyngor a gwaith ar gyfathrebu a chyflwyno.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	34
	Yr Adroddiad Interim	35
	Yr Adroddiad Terfynol 2020.....	36
2.	Cefndir.....	37
	Credyd Cynhwysol	37
	Tlodi yng Nghymru	38
3.	Methodoleg	41
	Dadansoddiad Data Gweinyddol	41
	Data Arolygon a Chyfweliadau	43
4.	Rhan Un: Gostyngiad yn y Dreth Gyngor	45
	Cyflwyniad	45
	Llwyth Achosion Gostyngiad yn y Dreth Gyngor	48
	Llwyth Achosion Cyfredol a Chyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.....	53
	Dadansoddiad Demograffig o Gyfanswm Gwerth Cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Lefelau Dyfarnu yng Nghymru (Aelwydydd Oedran Gweithio)	57
	Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2021-22	62
	Effeithiau Cynnal y Cynllun Cyfredol yn 2021-22	66
	Diwygiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	72
	Diwygio'r Tapr	74
	Atal Ailasesu am Newidiadau Bychain i Incwm o dan Gredyd Cynhwysol	82
5.	Rhan Dau: Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor.....	88

	Cyflwyniad	88
	Dadansoddiad Data Gweinyddol	90
	Arolygon a Chyfweliadau	105
	Cymharu Data Arolwg a Gweinyddol	108
	Casgliad	110
6.	Rhan Tri: Ôl-ddyledion Rhent	113
	Cyflwyniad	113
	Dadansoddiad Data Gweinyddol	119
	Arolygon a Chyfweliadau	133
	Cymharu Data Arolwg a Gweinyddol	138
	Casgliad	139
7.	Rhan Pedwar: Profiad o Gredyd Cynhwysol	143
	Cyflwyniad	143
	Cyngor Cyllidebu a Chymorth Ceisiadau	149
	Casgliad	167
8.	Casgliad	170
	Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	170
	Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor	171
	Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru	172
	Profiad o Gredyd Cynhwysol	172
9.	Atodiadau	174
	Atodiad 1: Demograffeg Ymatebwyr Arolwg	174

Atodiad 2: Methodoleg	176
Atodiad 3: Codiadau yn y Dreth Gyngor.....	180
Atodiad 4: Crynodeb o Opsiynau yn yr Adroddiad Interim.....	182
Atodiad 5: Opsiwn Cyfradd Tapr yn ôl Awdurdod Lleol	184

Rhestr Tablau

Tabl 1.1: Newid mewn llwyth achosion Gostyngiad yn y Dreth Gyngor 2013 – 2020	49
Tabl 1.2: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Llwyth Achosion: Cynllun Cyfredol yng Nghymru yn ôl Grŵp Oedran.....	56
Tabl 1.3: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Cyfanswm Blyneddol Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	64
Tabl 1.4: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Lefelau Gostyngiad Wythnosol	65
Tabl 1.5: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor y Model (£ y flwyddyn) gyda'r Tapr wedi'i Ostwng i 10%	76
Tabl 1.6: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar gyfartaledd, £ yr wythnos, gyda'r Tapr ar 10% (Aelwydydd yr Effeithir arnynt yn Unig)	78
Tabl 2.1 Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion yng Nghymru 2014-2019	89
Tabl A6.1: Codiadau yn y Dreth Gyngor a Ddefnyddiwyd wrth Fodelu	180

Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1 Cyfraddau tlodi incwm cymharol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon	39
Ffigwr 1.1: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru yn ôl Grŵp Oedran	54
Ffigwr 1.2: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Cyfansoddiad Aelwydydd	58
Ffigwr 1.3: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Cyfansoddiad Aelwydydd	58
Ffigwr 1.4: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Statws Economaidd ..	59
Ffigwr 1.5: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Statws Economaidd	59
Ffigwr 1.6: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Band y Dreth Gyngor	60
Ffigwr 1.7: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Band y Dreth Gyngor.....	60
Ffigwr 1.8: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Deiliadaeth.....	61
Ffigwr 1.9: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Deiliadaeth	61
Ffigwr 1.10: Cyfran Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018-19 ar gyfer Aelwydydd Bregus, yn ôl Math o Aelwyd Fregus	62
Ffigwr 1.11: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Math o Aelwyd sy'n Agored i Niwed	62
Ffigwr 1.12: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Statws Economaidd ar gyfer Aelwydydd Oedran Gweithio	69
Ffigwr 1.13: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Math o Aelwyd	70
Ffigwr 1.14: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Statws Anabledd.....	72
Ffigwr 2.1 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Grŵp Agored i Niwed	93

Ffigwr 2.2 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Math o Ddeiliadaeth	94
Ffigwr 2.3 Cyfran o Gofnodion Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Lefel o Ôl-ddyledion a Math o Fudd-dal	96
Ffigwr 2.4 Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion i Gofnodion Aelwydydd sy'n Dangos Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Ton Casglu Data.....	97
Ffigwr 2.5 Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor i Gredyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol yn ôl Grŵp sy'n Agored i Niwed	98
Ffigwr 2.6 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol	100
Ffigwr 2.7 Cyfran o Aelwydydd sy'n Agored i Niwed mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol.....	102
Ffigwr 2.8 Newid Cyfartalog mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor rhwng Tonnau Dilynol o Gasglu Data, yn ôl Statws Budd-daliadau yn ystod Symud.....	104
Ffigwr 2.9 Canfyddiadau'r Arolwg: Faint o'r Dreth Gyngor Sydd Arnoch?.....	106
Ffigwr 2.10 Canfyddiadau'r Arolwg: A yw Eich Lefel o Ddyledion y Dreth Gyngor wedi Newid o Ganlyniad i Symud i Gredyd Cynhwysol?	107
Ffigwr 3.1 Cyfran yr Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Grŵp Agored i Niwed	122
Ffigwr 3.2 Cyfran yr Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Daliadaeth.....	123
Ffigwr 3.3 Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion i Gofnodion Aelwydydd sy'n Dangos Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Ton Casglu Data	125
Ffigwr 3.4: Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion Rhent i Gredyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol yn ôl Grŵp sy'n Agored i Niwed.....	126
Ffigwr 3.5: Cyfran o Gofnodion Aelwydydd sydd ag Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Lefel o Ôl-ddyledion.....	127
Ffigwr 3.6: Cyfran o Gofnodion Aelwydydd sydd ag Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Lefel o Ôl-ddyledion a Math o Fudd-dal.....	128
Ffigwr 3.7 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion Rhent sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion Rhent ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol	130
Ffigwr 3.8 Cyfran o Aelwydydd sy'n Agored i Niwed mewn Ôl-ddyledion Rhent sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion Rhent ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol.....	131

Ffigwr 3.9 Newid Cyfartalog mewn Ôl-ddyledion Rhent rhwng Tonnau Dilynol o Gasglu Data, yn ôl Statws Budd-dal yn ystod Symud.....	133
Ffigwr 3.10 Arolwg: Faint o Ôl-ddyledion Rhent Sydd Arnoch?	134
Ffigwr 4.1 Arolwg: Ffynhonnell Cymorth gyda Hawlio	150
Ffigwr 4.2 Arolwg: Pa Mor Ddefnyddiol Oedd y Cymorth?	151
Ffigwr 4.3 Arolwg: Mynediad at Ffynonellau Cymorth i'r Rheiny Nad Ydynt ar Gredyd Cynhwysol.....	152
Ffigwr A2.1: Mae'r Gyfrifiannell Budd-daliadau a Chyllidebu yn Cynhyrchu Hawliadau Budd- daliadau Cywir ar Lefel Aelwyd, Dan Senarios Polisi Gwahanol	178

Geirfa

Gair allweddol	Diffiniad
Trefniadau Talu Amgen (APAs)	Term cyffredinol am dri dull ansafonol ar gyfer talu Credyd Cynhwysol i hawliwr: • Talu elfen tai Credyd Cynhwysol yn syth i'r landlord • Talu Credyd Cynhwysol bob pythefnos (neu weithiau bob wythnos) yn lle bob mis • Rhannu taliadau Credyd Cynhwysol rhwng cwpl, yn hytrach na thalu i un ohonynt.
Swm Cymwys	Fe'i hadwaenir hefyd fel 'Ochr Anghenion' neu 'Asesiad o Angen', neu mewn Credyd Cynhwysol fel 'Uchafswm Credyd Cynhwysol'. Dyma'r swm a ganiateir ar gyfer costau byw wrth gyfrifo hawl i fudd-dal. O'r herwydd, dyma'r dyfarniad mwyaf posib y gall person ei dderbyn o ystyried ei amgylchiadau, cyn rhoi cyfrif am unrhyw incwm y bydd ganddo. Mae gwahanol amgylchiadau personol - fel plentyn, anabledd, neu os yw'r hawliwr yn ofalwr - yn ychwanegu symiau gwahanol at y cyfanswm cymwys. Y swm cymwys yw hanner cyfrifiad yr hawl i fudd-dal: gweler 'Incwm', ar gyfer y llall.
Asesiad o Angen	Gweler 'Swm Cymwys'.
Cyfrifiannell Budd-daliadau a Chyllidebu	Peiriant cyfrifo a ddefnyddir gan Policy in Practice ar gyfer ei waith modelu dadansoddol.
Cynyddu Budd-daliadau	Y broses lle caiff dyfarniadau budd-daliadau eu cynyddu'n flynyddol, fel arfer drwy fesur o chwyddiant. Yn ddiweddar, mae cynyddu

	budd-daliadau wedi cael ei atal gan y rhewi budd-daliadau, ond mae bellach wedi cael ei ailgyflwyno.
Elfen Plant	Rhan o gyfrifiad swm cymwys Credyd Cynhwysol. Fe'i rhoddir i deuluoedd sydd â phlentyn. Y gwerth ar gyfer 2020-21 yw £2,830 y flwyddyn y plentyn. Mae yna derfynau i'r cymorth hwn, gweler 'Terfyn dau blentyn'.
Amodoldeb	Egwyddor lle mae talu budd-daliadau'n amodol ar yr hawliwr yn bodloni rhwymedigaethau penodol. Er enghraifft, ceisio am nifer penodol o swyddi er mwyn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith. Mae amodoldeb hefyd yn gosod nifer yr oriau y mae disgwyl i berson weithio o ystyried ei amgylchiadau.
Budd-dal y Dreth Gyngor	Budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd a oedd yn helpu i dalu'r dreth gyngor cyn iddo gael ei ddiddymu yn 2013. Fe'i disodlwyd yng Nghymru a'r Alban gan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a ddyluniwyd gan y gweinyddiaethau datganoledig, a chan Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol a ddyluniwyd gan awdurdodau lleol unigol yn Lloegr.
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Fe'i gelwir hefyd yn ostyngiad y dreth gyngor neu gymorth y dreth gyngor, mae hwn yn fath o gymorth sy'n darparu ar gyfer gostwng y dreth gyngor mewn rhai amgylchiadau diffiniedig. Fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol ar wahân i'r system fudd-daliadau, ond mae'r gwaith cyfrifo'n dibynnu ar p'un a yw ymgeiswyr yn derbyn budd-daliadau etifeddol (gweler isod) neu Gredyd Cynhwysol (gweler isod).
Band y Dreth Gyngor	Mae pob eiddo domestig ym Mhrydain Fawr (mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio system wahanol) yn cael ei roi mewn braced

	gwerth, neu fand, sy'n pennu atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor am yr eiddo hwnnw.
Echdyniad Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Set ddata a ddefnyddir gan Policy in Practice ar gyfer y prosiect dadansoddol hwn.
Dibynnydd	Aelod o'r aelwyd yw hwn sy'n dibynnu ar berson arall, aelod o'r teulu fel arfer, am gymorth ariannol ac felly ni ddisgwylir iddo gyfrannu at incwm yr aelwyd. Yn y system fudd-daliadau, plentyn neu berson ifanc mewn addysg neu hyfforddiant yw dibynnydd fel arfer.
Budd-dal Anabledd	At ddibenion yr adroddiad hwn, mae hwn yn derm ar y cyd ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP), a Lwfans Gweini (AA).
Premiwm Anabledd	Elfen budd-dal ychwanegol y gellir ei hychwanegu at rai budd-daliadau etifeddol (gweler isod), ond dim ond os yw'r hawliwr dan oedran pensiwn a naill ai'n ddall neu'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (gweler isod), Taliad Annibyniaeth Personol (gweler uchod), Lwfans Gweini neu fudd-dal anabledd penodol arall.
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	Lwfans Byw i'r Anabl. Budd-dal nad yw'n dibynnu ar brawf modd ac nad yw'n drethadwy ac fe'i telir i bobl y mae angen eu goruchwyllo neu eu helpu gyda'u gofal yn ystod y dydd neu'r nos, neu i bobl sydd â phroblemau symudedd. Mae bellach wedi'i ddisodli gan Daliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y mwyafrif o bobl o oedran gweithio ond mae'n dal i gael ei dalu ar gyfer plant.

Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	Adran o Lywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am y mwyafrif o'r budd-daliadau etifeddol yn y DU ac sy'n arwain ar ddarparu Credyd Cynhwysol.
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)	Budd-dal a delir i bobl o oedran gweithio sydd â salwch, cyflwr iechyd neu anabledl sy'n ei gwneud hi'n anodd neu'n amhosib iddynt weithio. Nid yw'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Gyfraniadau (a adwaenir hefyd fel 'Arddull Newydd' y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) yn dibynnu ar brawf modd ond, yn hytrach, mae'n seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Gysylltiedig ag Incwm (a adwaenir hefyd fel 'Arddull Hen' y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) yn dibynnu ar brawf modd ac yn un o'r budd-daliadau sy'n cael ei ddisodli gan Credyd Cynhwysol.
Elfen Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith yr ESA	A elwir hefyd yn 'Premiwm Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith' (Premiwm WRAG). Roedd hwn yn rhan o'r swm cymwys (gweler isod) mewn budd-daliadau etifeddol a dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor. Roedd yn elfen atodol o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (gweler isod), gyda'r bwriad o gefnogi'r rhai sy'n paratoi i ddychwelyd i'r gwaith. Fe'i diddymwyd ar gyfer hawlwr newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Ebrill 2017. Er nad yw'r budd-dal hwn bellach yn cael ei ychwanegu at y swm cymwys mewn budd-daliadau etifeddol, yng Nghymru mae cymhwysedd aelwyd ar gyfer Premiwm WRAG yn dal i gael ei gynnwys yn y cyfrifiad swm cymwys ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor yn achos ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, ni chaiff ei gynnwys os yw'r ymgeiswyr sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yn derbyn Credyd Cynhwysol. Canlyniad hyn yw bod ymgeiswyr gostyngiad yn y dreth gyngor sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn cael eu trin yn fwy hael na'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

Premiwm Anabledd Uwch (EDA)	Elfen budd-dal ychwanegol y gellir ei hychwanegu at rai budd-daliadau etifeddol, ond dim ond os yw'r hawliwr dan oedran pensiwn a naill ai'n ddall neu'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (gweler uchod), Taliad Annibyniaeth Personol (gweler uchod), neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.
Taliadau Estynedig	Adwaenir hefyd fel 'rhedeg ymlaen', mae'r rhain yn daliadau ychwanegol o'r dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor. Pan fydd hawliwr yn dechrau gweithio neu'n cynyddu oriau gwaith uwchlaw 16 awr yr wythnos, yn ddarostyngedig i rai amodau cymhwyso, telir budd-dal ar y gyfradd allan o waith am gyfnod o bedair wythnos. Caniataodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol Cymru ymestyn y cyfnod gras hwn ar gyfer dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor pe byddent yn dewis gwneud hynny, ond nid oes yr un ohonynt wedi dewis hynny.
Premiwm Teulu	Roedd hon yn elfen ychwanegol i deuluoedd â phlant yn y swm cymwys ar gyfer budd-daliadau etifeddol a gostyngiad yn y dreth gyngor. Fe'i dyfarnwyd i deuluoedd ar enedigaeth eu plentyn cyntaf (dim ond un Premiwm Teulu y gallai pob teulu ei dderbyn; nid oedd plant ychwanegol yn gwneud unrhyw wahaniaeth). Diddymwyd hwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2016 ar gyfer pob hawliad newydd. O.N. Er nad yw'r premiwm bellach yn cael ei hychwanegu at y swm cymwys mewn budd-daliadau etifeddol, yng Nghymru mae cymhwysedd aelwyd ar gyfer Premiwm Teulu yn dal i gael ei gynnwys yng nghyfrifiadau swm cymwys Gostyngiad yn y Dreth Gyngor os yw'r aelwyd honno'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, ni chaiff ei gynnwys os yw'r ymgeisydd sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yn derbyn Credyd Cynhwysol. Canlyniad hyn yw bod ymgeiswyr gostyngiad yn y dreth gyngor sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn cael eu trin yn fwy hael na'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

Didyniad Cyfradd Safonol i'r Rhai Nad Ydynt yn Ddibynyddion	Mae hwn yn fath o ddidyniad i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion. Gweler 'didyniad i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion' isod am fanylion.
Dyfarniad Gwarantedig	Isafswm dyfarniad ydyw wedi'i warantu ar gyfer pob aelwyd sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd ac sydd ag incwm islaw trothwy penodol. Mae hwn yn fodd i gyfleu cymhwysedd yn hawdd: 'os ydych yn ennill dan hyn, byddwch yn derbyn o leiaf gymaint â hyn'.
Cymdeithas Dai	Sefydliadau dielw sy'n berchen ar aelwydydd rhent ac yn eu rhentu a'u rheoli. Mae aelwydydd sy'n cael eu rhentu gan gymdeithasau tai'n cael eu galw yn 'dai cymdeithasol', ynghyd ag eiddo sy'n eiddo i'r cyngor. Er bod y ddau fath o dai cymdeithasol yn cynnig llety sy'n is na chyfraddau'r farchnad, mae rhenti cymdeithasau tai'n tueddu i fod yn uwch na rhenti tai cyngor.
Budd-dal Tai	Budd-dal cysylltiedig ag incwm (prawf modd) a delir i denantiaid ar incwm isel (naill ai mewn gwaith neu allan o waith) i helpu i dalu eu rhent. Gweinyddir y cynllun gan awdurdodau lleol yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a chaiff ei ddisodli gan yr elfen tai mewn Credyd Cynhwysol.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)	Adran llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am gyfrifo a chasglu trethi. Mae CThEM yn olrhain gwybodaeth am enillion drwy'r system 'talw wrth ennill' a defnyddir y data hwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (gweler isod) wrth gyfrifo Credyd Cynhwysol.
Incwm	Wrth gyfrifo Credyd Cynhwysol, mae holl fathau'r incwm y mae hawliwr yn eu derbyn yn cael eu hystyried a'u tynnu o'r swm cymwys (gweler uchod). Y gweddill yn dilyn y cyfrifiad hwn yw'r hyn

	y mae'r hawliwr yn ei dderbyn fel ei ddyfarniad Credyd Cynhwysol. Y syniad yw y dylid tynnu incwm y gellid ei ddefnyddio i dalu costau byw o'r swm cymwys.
Cynlluniau â Band Incwm	Ffordd arall o gyfrifo gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd; ac mae'n fwyfwy poblogaidd gydag awdurdodau lleol yn Lloegr oherwydd heriau gyda'r broses asesu gyfredol (gweler 'Cyfnod Asesu Credyd Cynhwysol'). Mae cynlluniau'n amrywio ond, yn eu hanfod, maent yn cynnwys gosod ymgeiswyr mewn un o sawl band incwm er mwyn cyfrifo'u dyfarniad, yn lle gwneud cyfrifiadau pwrpasol gan ddefnyddio union incwm pob unigolyn. Mae hyn yn gwneud symiau dyfarnu'n fwy sefydlog i'r ymgeisydd o fis i fis, ac mae'n golygu bod angen ailasesu'n llai aml, sy'n gwneud y gwaith gweinyddu'n haws ac yn llai costus.
Cymhorthdal Incwm (IS)	Budd-dal cysylltiedig ag incwm (prawf modd) a delir i bobl o oed gweithio ar incwm isel fel gofalmwr ac unig rieni. Nid yw fel arfer yn cael ei dalu i rywun sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'n un o'r budd-daliadau sy'n cael ei ddisodli gan Gredyd Cynhwysol.
Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)	Budd-dal cysylltiedig ag incwm a delir i bobl o oedran gweithio ar incwm isel sydd allan o waith ac wrthi'n chwilio am waith. Nid yw Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar Gyfraniadau'n dibynnu ar brawf modd ond mae'n seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar Incwm yn dibynnu ar brawf modd, ac mae'n un o'r budd-daliadau sy'n cael ei ddisodli gan Gredyd Cynhwysol.
System/Budd-daliadau Etifeddol	Mae hwn yn derm cyffredinol am fudd-daliadau a chredydau sydd wedi'u disodli gan Gredyd Cynhwysol neu a fydd yn cael eu disodli ganddo.

Gallu Cyfyngedig i Weithio	Canlyniad posibl Asesiad Gallu i Weithio (gweler uchod) lle bernir bod hawlydd yn rhy sâl neu anabl i weithio, ond sy'n gallu ymgymryd â 'gweithgaredd cysylltiedig â gwaith'. Yna rhoddir yr hawlwr hyn mewn Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith (WRAG) (gweler isod).
Gallu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith (LCWRA)	Canlyniad posibl asesiad gallu i weithio (gweler uchod) lle bernir bod hawlydd nid yn unig yn rhy sâl neu anabl i weithio, ond hefyd yn rhy sâl neu anabl i berfformio 'gweithgaredd cysylltiedig â gwaith', megis paratoi i symud i waith yn y dyfodol. Mae hawlwr yr ystyrir bod ganddynt Allu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn cael mwy o fudd-daliadau o ganlyniad, ac nid oes amodoldeb ar y buddion hyn (gweler uchod).
Lwfans Tai Lleol (LHA)	Ffordd o gyfrifo Budd-dal Tai neu elfen tai Credyd Cynhwysol i hawliwr sy'n rhentu eiddo gan landlord preifat. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn seiliedig ar nifer y bobl ar aelwyd yr hawliwr, a'r ardal lle maent yn byw. Roedd symiau Lwfans Tai Lleol yn seiliedig ar 30 ^{ain} canradd o renti yn yr ardal leol cyn cael eu cyfyngu i godiadau sy'n gysylltiedig â chwyddiant o 2013, a'u rhewi yn 2016 fel rhan o'r trefniant rhewi budd-daliadau. O 1 Ebrill 2020, fel rhan o'r mesurau i gefnogi pobl drwy'r pandemig COVID-19, mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi cael eu talu eto ar 30 ^{ain} canradd o renti lleol. Os yw'r hawliwr yn dewis rhentu eiddo sy'n costio llai na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol briodol, caiff y swm y mae'n ei dderbyn ei gyfyngu i'r rhent gwirioneddol y mae'n ei dalu.
Ymfudo a Reolir neu 'Symud i Gredyd Cynhwysol'	Dyma'r broses o symud hawlwr yn weithredol o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol, er nad oes dim wedi newid yn amgylchiadau'r hawliwr. Dechreuodd Ymfudo a Reolir, sydd bellach yn cael ei adnabod fel 'Symud i Gredyd Cynhwysol' gydag arbrawf fis Gorffennaf 2019 ac ar hyn o bryd mae disgwyl iddo ddechrau'n

	llawn ddiwedd 2020. Mae hwn yn wahanol i 'Ymfudo Naturiol' (gweler isod).
Swm Uchaf Posib (Credyd Cymhwysol)	Swm a ddefnyddir mewn cyfrifiadau gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Dyma'r uchafswm damcaniaethol y gallai person ei dderbyn dan Gredyd Cynhwysol pe na bai ganddo incwm arall ac fe'i defnyddir fel rhan o gyfrifiad gostyngiad yn y dreth gyngor.
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Adran Llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Unedig, a elwid gynt yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.
Isafswm Dyfarniad	Gweler 'Dyfarniad Gwarantedig'.
Llawr Isafswm Incwm	Ffordd a ddefnyddir wrth gyfrifo Credyd Cynhwysol i hawlwr hunangyflogedig a hefyd wrth gyfrifo gostyngiad yn y dreth gyngor i hawlwr Credyd Cynhwysol. Mae'n gweithio drwy dybio lefel benodol o incwm ar ôl cyfnod gras o flwyddyn. Cyfrifir lefel yr incwm gan ddefnyddio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer grŵp oedran yr ymgeisydd, wedi'i luosi â nifer yr oriau y mae disgwyl iddo chwilio am waith a bod ar gael i weithio.
Ymfudo Naturiol	Dyma pryd mae hawliwr budd-dal yn symud o fudd-daliadau etifeddol (gweler uchod) i Gredyd Cynhwysol (gweler uchod), wedi'i sbarduno gan newid yn ei amgylchiadau (e.e. genedigaeth plentyn). Mae hwn yn wahanol i 'Ymfudo a Reolir' (gweler isod).
Pobl nad ydynt yn ddibynyddion	Person sy'n byw fel aelod o aelwyd yr hawliwr, ond nad yw'n bartner i'r hawliwr, yn blentyn iddo, nac yn berson ifanc y mae'r hawliwr yn gyfrifol amdano. Mae yna rai eithriadau, fel cyd-ddeiliaid, lletywyr a gofalwyr a delir.

Didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion	Didyniad a wneir i daliadau budd-dal yn seiliedig ar y cyfraniad a ddisgwylir gan oedolion eraill (h.y. pobl nad ydynt yn ddibynyddion) yn yr aelwyd. Fel arfer, mae cyfradd y didyniad yn seiliedig ar incwm ac amgylchiadau'r bobl nad ydynt yn ddibynyddion, ond dull arall yw'r didyniad 'cyfradd safonol' person nad yw'n ddibynnydd, lle mae'r gyfradd didynnu'r un peth i bawb y bernir bod disgwyl iddynt dderbyn un.
Budd-daliadau allan o waith	Mae hwn yn derm cyffredinol ar gyfer budd-daliadau sy'n berthnasol yn unig pan fo'r hawliwr allan o waith. Mae hyn yn cynnwys Lwfans Ceisio Gwaith (gweler isod), Lwfans Cefnogaeth a Chymorth (gweler isod), a rhannau o Gredyd Cynhwysol (gweler isod).
Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)	Mae hwn yn fudd-dal newydd ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl (gweler uchod), wedi'i gynllunio i roi help i bobl dros 16 oed y mae angen gofal arnynt neu sydd ag anghenion symudedd. Nid yw'n dibynnu ar brawf modd nac yn drethadwy.
Rhedeg Ymlaen	Gweler 'Taliadau Estynedig'.
Premiwm Anabledd Difrifol (SDP)	Mae hon yn elfen budd-dal ychwanegol y gellir ei hychwanegu at rai mathau o fudd-daliadau, ond dim ond os yw'r hawlydd yn derbyn naill ai Lwfans Byw i'r Anabl (gweler uchod), PIP (gweler isod), neu Lwfans Gweini. Gellir cymhwyso'r Premiwm Anabledd Difrifol i'r Cymhorthdal Incwm (gweler uchod), y Lwfans Ceisio Gwaith (gweler uchod), y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (gweler uchod), Budd-dal Tai (gweler uchod), neu Gredyd Pensiwn. Caiff ei dalu fel arfer lle nad oes gan hawlydd unrhyw un arall yn byw gyda nhw.
Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE)	Set ddata Budd-dal Tai a gesglir gan awdurdodau lleol ac a ddefnyddir gan Policy in Practice ar gyfer y prosiect dadansoddol hwn.

Cyfradd Tapr	Ar y gyfradd hon y mae budd-daliadau'n cael eu tynnu'n ôl pan fydd hawliwr wedi ennill incwm uwchlaw lefel y swm cymwys. Os yw cyfradd tapr yn 20%, am bob £1 ychwanegol o incwm a enillir, mae'r cymorth yn gostwng 20c. Po isaf yw'r gyfradd ganrannol, y mwyaf hael yw'r cynllun. Mae cyfraddau tapr yn cael eu defnyddio fel bod pobl yn teimlo budd gwaith ac yn osgoi'r risg o fod yn waeth eu byd wrth ddechrau gweithio. Gallai fod yn wir pe na bai tapr ac y câi budd-daliadau eu tynnu'n ôl bunt am bunt. Mae cyfradd tapr yn berthnasol ar gyfer yr incwm mwyaf a enillir, ond mae eithriad mewn rhai achosion lle mae 'Lwfans Gwaith' yn berthnasol (gweler isod).
Terfyn Dau Blentyn	Mae hwn yn derfyn ar y cymorth a roddir gan Elfen Plant Credyd Cynhwysol (a chredydau treth). Mae'r terfyn yn golygu bod y swm sy'n gymwys i Gredyd Cynhwysol yn cydnabod y ddau blentyn hynaf yn unig ar aelwyd. Golyga hyn mai'r ddau blentyn cyntaf yn unig mewn aelwyd sy'n derbyn yr elfen plentyn. Mae hyn yn cael sgil-effaith ar y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor i hawlwr Credyd Cynhwysol. Mae'r terfyn hwn yn berthnasol i drydydd plentyn (neu blant dilynol) a anwyd ar ôl 6 Ebrill 2017 yn unig. Ni chaiff y terfyn hwn ei ddefnyddio gyda gostyngiad yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, ond mae wedi'i ymgorffori yng nghyfrifiadau gostyngiad yn y dreth gyngor i hawlwr Credyd Cynhwysol.
Credyd Cynhwysol (UC)	Budd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm (prawf modd) ar gyfer pobl o oedran gweithio sydd ar incwm isel. Mae'n disodli pedwar budd-dal prawf modd presennol, gan gynnwys Budd-dal Tai a dau gredyd treth.
Asesiad Credyd Cynhwysol	Y broses sy'n penderfynu faint y bydd hawlwr Credyd Cynhwysol yn ei gael. Mae hyn yn cymryd swm cymwys aelwyd ac yn tynnu eu hincwm o'r swm hwnnw. Y swm sy'n weddill yw dyfarniad Credyd

	Cynhwysol yr hawlydd. Mae dyfarniadau Credyd Cynhwysol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio union symiau incwm. Gall hyn fod yn gostus yn weinyddol i geisiadau gostyngiad yn y dreth gyngor ac mae'n gofyn am ailasesiadau rheolaidd.
Cynyddu	Gweler 'Cynyddu Budd-daliadau'.
Pensiwn Anabledd Rhyfel (WDP)	Mae'r rhain yn fathau o fudd-daliadau sydd ar gael i'r rhai a anafwyd neu a anablwyd yn ystod gwasanaeth yn Lluoedd Arfog Prydain. Mae Llywodraeth Cymru'n caniatáu i awdurdodau lleol Cymru fod yn fwy hael na'r diystyriad safonol o £10 o arian Pensiynau Anabledd Rhyfel a dderbynnir gan yr hawlwr hyn wrth gyfrifo eu hincwm at ddibenion gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi dewis bod mor hael â phosib; gan ddiystyru 100% o'r pensiynau hyn.
Pensiynau Gweddwon Rhyfel	Mae'r rhain yn fathau o fudd-daliadau sydd ar gael i weddwon, gwŷr gweddw neu blant rhywun a laddwyd yn ystod gwasanaeth yn Lluoedd Arfog Prydain, neu oherwydd anafiadau wedi hynny. Mae Llywodraeth Cymru'n caniatáu i awdurdodau lleol fod yn fwy hael na'r diystyriad safonol o £10 o arian Pensiynau Anabledd Rhyfel a dderbynnir gan yr hawlwr hyn wrth gyfrifo eu hincwm at ddibenion gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi dewis bod mor hael â phosib, gan ddiystyru 100% o'r pensiynau hyn.
Lwfans Gweithio	Y swm y gall aelwydydd ei ennill mewn rhai amgylchiadau heb iddo beri i'w dyfarniad Credyd Cynhwysol ostwng. Y prif amgylchiadau yw aelwyd sydd â phlant neu bobl sydd â gallu cyfyngedig i weithio.
Asesiad Gallu i Weithio	Mae hon yn broses lle mae hawlwr sy'n sâl neu'n anabl yn cael eu hasesu'n ôl eu gallu i weithio. Mae yna dri chanlyniad posib: gellid barnu bod hawlwr yn ffit i weithio, gellid barnu bod ganddyn nhw

	'allu cyfyngedig i weithio' (gweler isod), neu gellid barnu bod ganddyn nhw 'allu cyfyngedig ar gyfer gweithgaredd cysylltiedig â gwaith' (gweler isod).
Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith	Mae'r Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith yn categori lle mae rhywun yn cael ei leoli ar ôl ymgymryd ag Asesiad Gallu i Weithio ac y bernir bod ganddo Allu Cyfyngedig i Weithio (gweler uchod). Hyd at 2016, derbyniodd hawlwyr yn y Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith bremiwm Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith (gweler isod).
Premiwm Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith	Gweler 'Elfen Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth'.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu canlyniad prosiect ymchwil blwyddyn o hyd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019, gyda'r nod o ddeall mwy am effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru.

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r mwyafrif o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth sy'n gysylltiedig ag incwm i bobl o oedran gweithio ac mae bellach yn cael ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig. Roedd dros 120,000 o aelwydydd yng Nghymru ar Gredyd Cynhwysol ym mis Tachwedd 2019 ac mae niferoedd wedi bod yn cynyddu ers mis Ionawr 2019 ar gyfradd o oddeutu 4,800 y mis.¹ Disgwylir i oddeutu 400,000 o aelwydydd yng Nghymru fod yn derbyn Credyd Cynhwysol wedi iddo gael ei gyflwyno'n llawn, gyda chyfradd gynnydd uwch wrth i'r ymarfer 'Symud i Gredyd Cynhwysol' ('ymfudo a reolir' gynt) gael ei roi ar waith.² Mae'r ymarfer hwn yn cynnwys symud yr holl rai sy'n dal i dderbyn budd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol ac mae wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2020 ar ôl cwblhau cynllun peilot. (Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cymryd i ystyriaeth hawliadau cynyddol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.)

Mae'r prosiect a gwblheir gan Policy in Practice yn cynnwys adolygiad llenyddol, arolygon gyda rhanddeiliaid a hawlwy'r budd-daliadau, dadansoddiad o ddata gweinyddol a gedwir gan awdurdodau lleol, a dadansoddiad o'r data a roddir gan gymdeithasau tai. Mae'r ymchwil yn eang: mae holl awdurdodau lleol Cymru, pymtheng cymdeithas dai, a sawl cynrychiolydd y sector rhentu preifat wedi cymryd rhan.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad interim ym mis Ionawr 2020.³ Roedd hwn yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru ac yn modelu sawl diwygiad i'r cynllun a ddyluniwyd i liniaru effaith Credyd Cynhwysol a helpu i gynnal y niferoedd o aelwydydd a gefnogir. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn

¹ Dadansoddiad Policy in Practice o ystadegau Credyd Cynhwysol ar gyfer mis Tachwedd 2019 ar Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau

² [Dadansoddiad o effaith diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru](#) (Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019)

³ [Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru: adroddiad interim](#) (Llywodraeth Cymru, 9 Ionawr 2020)

diweddarau'r dadansoddiad hwn ac yn archwilio ymhellach diwygiadau i'r cynllun y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried.

Mae'r adroddiad terfynol hefyd yn darparu dadansoddiad newydd sy'n canolbwyntio ar:

- Effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor;
- Effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent;
- Profiad hawlwr Credyd Cynhwysol; a
- Phrofiad rhanddeiliaid megis cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol Cymru.

Roedd yr ymchwiliad hwn ar y berthynas rhwng Credyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion yn cynnwys olrhain data awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar incwm ac ôl-ddyledion aelwydydd dros amser. Nid oes gan landlordiaid y sector rhentu preifat yr wybodaeth am yr aelwydydd, rhywbeth sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn yr agwedd hon ar yr ymchwiliad - ond gwnaethant gymryd rhan mewn arolwg i gasglu eu barn am effaith Credyd Cynhwysol.

Casglwyd barn hawlwr a rhanddeiliaid ynghylch Credyd Cynhwysol drwy arolwg helaeth a chyfweliadau dilynol. Gweler Atodiad 1 (Demograffeg ymatebwyr arolwg) a 2 (Methodoleg) am ragor o fanylion.

Credyd Cynhwysol a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru

- Roedd 25% o ymatebwyr (83 allan o 310) yn credu bod gostyngiad yn y dreth gyngor yn rhan o Credyd Cynhwysol
- Nid oedd 29% o ymatebwyr Credyd Cynhwysol (52 allan o 182) yn gwybod a oeddent yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor (mae hyn o'i gymharu â 14% o ymatebwyr sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol)
- Dywedodd 62% o ymatebwyr sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (54 allan o 87) y byddent yn ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor pe baent yn symud i Credyd Cynhwysol
- Ni wnaeth 16% o hawlwr budd-daliadau etifeddol (13 allan o 80) ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd eu bod yn ofni dyledion cynyddol a achosir gan adennill gordaliad

(Canfyddiadau'r arolwg)

Bydd symud i Gredyd Cynhwysol yn cael effaith sylweddol ar rai dyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau wrth asesu cymorth dan Gredyd Cynhwysol a than y systemau budd-daliadau etifeddol. Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn cael effaith ar y rhai sy'n derbyn uchafswm dyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor nad oes ganddynt incwm - mae'r rhain yn parhau i dderbyn dyfarniadau'n seiliedig ar 100% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, i aelwydydd eraill, gall symud i Gredyd Cynhwysol arwain at ostyngiadau sylweddol yn eu dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor.

Caiff y gwahaniaeth hwn mewn cymorth rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau ei ddwysáu yng Nghymru gan nad yw cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol Cymru ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn cynnwys mesurau diweddar diwygio lles, megis cyflwyno'r terfyn dau blentyn neu gael gwared â'r premiwm teulu. Fodd bynnag, mae'r mesurau hyn wedi'u cynnwys yn yr asesiad o ostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Golyga hyn nad oes gan rai aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hawl i gymaint o gymorth gyda'r dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried diwygiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fydd yn cynyddu cydraddoldeb rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau.

Pryder arall i Lywodraeth Cymru yw bod y nifer o aelwydydd a gefnogir gan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi bod yn gostwng dros amser (ac eithrio unrhyw gynnydd diweddar o ganlyniad i effeithiau'r pandemig COVID-19 ar amgylchiadau aelwydydd). Dechreuodd y duedd hon cyn i nifer sylweddol o drigolion symud i Gredyd Cynhwysol ac felly mae'n gysylltiedig â ffactorau eraill, megis newidiadau mewn amodau economaidd. Serch hynny, mae pryder y bydd llwyth achosion yn gostwng hyd yn oed ymhellach wrth i fwy o aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol, yn bennaf oherwydd gwahanu'r prosesau hawlio cymorth tai a gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried mesurau i gynnal, neu gynyddu, llwyth achosion i sicrhau bod gostyngiad y dreth gyngor yn cyrraedd mwy o'r rhai hynny sy'n gymwys.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ddarpariaeth gyfredol o ostyngiad yn y dreth gyngor ledled Cymru, a'r cynllun cyfredol a gaiff ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol 2021-22 pan fydd mwy o boblogaeth Cymru wedi symud i Gredyd Cynhwysol. Mae'r

adroddiad hwn yn diweddarau'r adroddiad interim ⁴ ac yn darparu dadansoddiad o gyfanswm cost y cynllun ac effaith diwygiad i'r cynllun i leihau'r gyfradd y tynnir gostyngiad yn y dreth gyngor yn ôl wrth i enillion gynyddu (y gyfradd tapr). Mae patrymau gostyngiad yn y dreth gyngor yn amrywio fymryn o'r adroddiad interim, gan fod yr adroddiad terfynol yn cynnwys data o bob un o'r 22 cyngor yng Nghymru (o'i gymharu â 16 ar gyfer yr adroddiad interim) ac mae'n darparu canlyniadau dadansoddiad ar sail data o 2019 o'i gymharu â data o 2018 ar gyfer yr adroddiad interim.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Canfyddiadau Allweddol

Dengys dadansoddiad yn yr astudiaeth hon mai'r dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor, ar gyfartaledd, ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd yw £2.60 yn llai'r wythnos nag ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

Pe câi'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw hyd 2021-22, bydd y gwahaniaeth hwn yn y cymorth o ran gostyngiad yn y dreth gyngor yn parhau. Mae'r cynnydd cyfartalog yn y gostyngiad yn y dreth gyngor o 9% ledled Cymru rhwng nawr a 2021-22 yn unol â'r cynnydd yn y dreth gyngor a ddisgwylir. Fodd bynnag, mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd sylweddol is o 5% yn y dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor dros yr un cyfnod. Ar gyfer cyfran o'r aelwydydd hyn, mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r ffaith bod modelu wedi tybio eu bod wedi ymfudo i Gredyd Cynhwysol. Ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, mae'r cynnydd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor yn llai na'r cynnydd disgwyliedig mewn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, felly mae hyn yn ei hanfod yn arwain at golled mewn gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd Credyd Cynhwysol rhwng nawr a 2021-22.

I helpu i liniaru'r effaith ar gyfer y rheiny sydd ar eu colled o dan Gredyd Cynhwysol, gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno diwygiad i'r cynllun i leihau'r gyfradd tapr o 20% ar hyn o bryd i 10%.

⁴ [Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru: adroddiad interim](#) (Llywodraeth Cymru, 9 Ionawr 2020)

Byddai aelwydydd yr effeithir arnynt gan y newid yn y tapr, sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor o 60% o'i gymharu â chynnydd o 41% i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Ar gost o £8m (yn 2021-22), byddai'r newid hwn yn adfer yr annhegwch mewn dyfarniadau rhwng y rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Byddai hefyd yn gwella cymhellion gwaith.

Costau gweinyddol

Mae Credyd Cynhwysol yn cynyddu costau gweinyddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o ganlyniad i ailasesiadau mwy aml o ddyfarniadau mewn ymateb i'r asesiadau misol o Gredyd Cynhwysol. Gall yr ailasesu mwy aml hwn arwain at hawlwr yn derbyn cyfres o hysbysiadau dyfarnu a biliau diwygiedig. Dengys y dadansoddiad yn yr ymchwil hwn, yn seiliedig ar ddata gan un awdurdod lleol yng Nghymru, fod aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld pedair gwaith cymaint o newidiadau yn eu hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor dros flwyddyn o'i gymharu ag aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

Gallai Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ymgorffori mesurau i leihau'r angen am ailasesu, er enghraifft mabwysiadu trothwy de minimis. Mae hyn yn cynnwys anwybyddu newidiadau mewn incwm islaw'r trothwy at ddibenion ailasesu. Dengys y dadansoddiad fod hwn yn debygol o fod yn fesur niwtral o ran cost gan fod tandaliadau a gordaliadau yn gwrthbwysu ei gilydd. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno trothwy de minimis, byddai modelu yn ofynnol i ddod o hyd i'r lefel lle y byddai'r trothwy yn cael effaith sylweddol.

Llwyth achosion

Gallai Credyd Cynhwysol gael effaith uniongyrchol ar lwyth achosion gostyngiad yn y dreth gyngor hefyd. Dangosodd yr arolwg hawlwr fod yna ddryswch ymysg hawlwr ynglŷn â'r berthynas rhwng Credyd Cynhwysol a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Credai chwarter o'r holl ymatebwyr sy'n hawlwr fod cais am ostyngiad yn y dreth gyngor yn cael ei gynnwys fel rhan o Gredyd Cynhwysol. Nid oeddent yn ymwybodol bod proses ar wahân ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor, neu ei fod yn cael ei weinyddu ar wahân. Yn ogystal, nid oedd 29% o ymatebwyr sy'n hawlio Credyd Cynhwysol (52 allan o 182) yn gwybod a oeddent yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor, o'i gymharu â dim ond 14% o ymatebwyr

sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Dengys hyn efallai fod angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru ystyried datblygu'r ystod o gymhellion ymhellach i godi ymwybyddiaeth o ostyngiad yn y dreth gyngor. Mae hefyd werth nodi nad oedd 16% o ymatebwyr budd-daliadau etifeddol (13 allan o 80) yn dymuno ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd eu bod yn ofni dyledion yn sgil gordaliadau. Mae'n bosib y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru yn dymuno archwilio ymhellach p'un a yw arferion adennill dyledion y dreth gyngor wedi cael unrhyw effaith ar y ffordd mae rhai pobl yn dirnad y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru

"O ganlyniad i fy enillion a'r swm o Gredyd Cynhwysol rwy'n ei dderbyn, mae'r cymorth rwy'n ei dderbyn drwy ostyngiad yn y dreth gyngor wedi lleihau ac rwyf bellach yn gorfod talu swm mawr o'r Dreth Gyngor bob mis."

"Nid oes gennyf unrhyw beth ar ôl ar ddiwedd y mis... Rwy'n gweithio erbyn hyn, felly mae pethau'n well o lawer, ond ar y dechrau roedd yn hunllef... Dim arian ar gyfer rhent, dim ar arian ar gyfer y dreth gyngor, dim arian ar gyfer nwy a thrydan, dim arian ar gyfer bwyd. Roedd gennyf oddeutu £50 yn weddill."

(Hawlwy'r Credyd Cynhwysol a Holwyd)

Yng Nghymru, mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn darparu cymorth yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ac felly nid oes yr un aelwyd sy'n wynebu bil y dreth gyngor am y tro cyntaf yn uniongyrchol o ganlyniad i doriadau yn lefel y cymorth gan Lywodraeth y DU yn 2012. Dengys ystadegau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru⁵ bob blwyddyn fod ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi aros yn sefydlog fel canran o gyfanswm y dreth gyngor sy'n ddyledus. Ymddengys fod y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i wneud iawn am y diffyg sy'n gysylltiedig â'r toriad o 10% mewn cyllid (yn hytrach na mentro bod awdurdodau lleol am ei drosglwyddo i aelwydydd incwm isel) wedi bod â goblygiadau

⁵ [Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor: Mis Ebrill 2018 i Fis Mawrth 2019](#) (Llywodraeth Cymru, 11 Mehefin 2019)

cadarnhaol eraill, o leiaf yn y tymor byr. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth sy'n dod i'r golwg o'r astudiaeth hon fod ôl-ddyledion y dreth gyngor cynyddol o dan Gredyd Cynhwysol.

Mae'r dadansoddiad cyfredol yn dangos bod ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin, ac yn fwy difrifol o dan Gredyd Cynhwysol nag o dan y budd-daliadau etifeddol, ac roedd y canlyniad hwn yn gymharol gyson, i bob golwg, ar draws demograffeg a grwpiau bregus gwahanol.

Dengys y dadansoddiad cyfredol yn yr astudiaeth hon y gall symud i Gredyd Cynhwysol a derbyn Credyd Cynhwysol yn barhaus arwain at ôl-ddyledion y dreth gyngor i rai aelwydydd, yn benodol y rheiny sydd ag ôl-ddyledion i ddechrau arni. Mae'n debygol bod elfennau o symud (megis yr aros am bum wythnos) a ffactorau parhaus (cyllidebu misol, lefelau dyfarnu) yn cyfrannu at ôl-ddyledion y dreth gyngor. Ategir hyn gan yr arolwg hawlwyrr lle mae hawlwyrr sy'n ymateb yn priodoli cynnydd mewn ôl-ddyledion i newidiadau mewn lefelau dyfarnu o dan y system fudd-daliadau newydd, dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos, a thrafferthion i gyllidebu gyda thaliadau misol.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor: Canfyddiadau Allweddol

- Roedd ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.
- Ymhlith y rheiny ag ôl-ddyledion, mae Credyd Cynhwysol yn gysylltiedig â lefel uwch o ôl-ddyledion y dreth gyngor o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol.
- Arhosodd y rhan fwyaf o aelwydydd nad ydynt mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor o dan fudd-daliadau etifeddol yn glir o ddyled o dan Gredyd Cynhwysol.
- Roedd ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy tebygol o gynyddu o dan Gredyd Cynhwysol na budd-daliadau etifeddol.
- Roedd y patrwm o ôl-ddyledion y dreth gyngor i grwpiau bregus yn debyg i'r boblogaeth gyffredinol ond dangosodd gwahaniaethau rhwng grwpiau bregus fod rhai ffactorau eraill yn effeithio ar lefelau ôl-ddyledion.
- Roedd cynnydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor wrth symud i Gredyd Cynhwysol yn bennaf o ganlyniad i'r canlynol:
 - bod yn gymwys am lai o gymorth (56%, 58 allan o 104 o ymatebwyr);

- dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos (55%, 57 allan o 104); ac
- anawsterau cyllidebu gyda thaliadau misol (43%, 45 allan o 104).

Effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yng Nghymru

"Ni chawsom wybod gan ein swyddog tai na'r Ganolfan Waith fod rhaid i ni nodi ein bod eisiau ôl-daliad ar gyfer rhent. Tybiom gan fod ein hawliad wedi dechrau deufis cyn ein taliad cyntaf, y byddai'n defnyddio'r dyddiadau a roddwyd yn awtomatig. Cawsom ein gadael i lawr gan ein swyddog tai, ynghyd â staff amhrofiadol yn y Ganolfan Waith."

"Telir Credyd Cynhwysol bob 4 wythnos fel ôl-daliad gyda "chyfnod aros" o 2 wythnos. Rwyf bob amser 6 wythnos ar ei hôl hi. Yn ogystal, cyfrifir Credyd Cynhwysol yn fisol ac mae fy rhent yn ddyledus wythnos ymlaen llaw. Pan mae yna 5 wythnos mewn mis, rwy'n mynd i fwy o ôl-ddyled."

"Oherwydd gyda Chredyd Cynhwysol, rydym eisoes mis ar ei hôl hi o'r dechrau. Felly, achosodd hyn i mi fod deufis ar ei hôl hi a chefais fy mygwth gyda throi allan. Cysylltais â Cyngor ar Bopeth, cysylltais â'r cyngor. Ni allai'r cyngor helpu gyda'r cynllun talu sydd ganddynt oherwydd cyn belled ag yr oeddent yn y cwestiwn, roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn talu fy rhent yn llawn."

(Hawlwr Credyd Cynhwysol a Holwyd)

"Nid yw rhai ohonynt yn talu. Mae ganddynt yr agwedd yna... Ie, mae wedi bod yn gynnydd mawr [mewn ôl-ddyledion]. Yn syml, mae'n risg mawr pan rwy'n cymryd tenant, ni fyddwn yn wynebu'r risg hwnnw pe bawn yn cael yr arian yn uniongyrchol."

(Rhanddeiliad a holwyd, landlord preifat)

Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, canfu'r dadansoddiad fod ôl-ddyledion rhent yn tueddu i fod yn uwch o dan Gredyd Cynhwysol o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth yn *nifer yr achosion* o ôl-ddyledion rhent mor amlwg gyda chanlyniadau gwahanol yn ymddangos drwy'r arolygon a'r astudiaeth hydredol o'r data gweinyddol.

Dangosodd data arolwg (gan randdeiliaid a hawlwr) fod mwy o ôl-ddyledion rhent o dan Gredyd Cynhwysol, gyda bron pob rhanddeiliad yn adrodd bod lefelau ôl-ddyledion rhent ac

achosion o ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu o ganlyniad i symud i Gredyd Cynhwysol (oddeutu 90% o randdeiliaid yn y ddau achos). O'i gymharu, dangosodd yr astudiaeth hydredol o ddata gweinyddol fod ôl-ddyledion rhent yn fwy cyffredin o dan fudd-daliadau etifeddol na Chredyd Cynhwysol (roedd 20% o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol mewn ôl-ddyledion rhent o'i gymharu â 13% o'r rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol).

Roedd effaith Credyd Cynhwysol ar y lefel o ôl-ddyledion rhent yn fwy amlwg. O'r dadansoddiad o ddata gweinyddol, roedd ôl-ddyledion rhent ar gyfartaledd o dan fudd-daliadau etifeddol yn £206 o'i gymharu â £495 o dan Gredyd Cynhwysol. Mewn geiriau eraill, roedd ôl-ddyledion rhent is yn fwy cyffredin mewn aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol ac roedd ôl-ddyledion rhent uwch yn fwy cyffredin mewn aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

I'r rhan fwyaf o ymatebwyr arolwg, nid oedd y symud i Gredyd Cynhwysol yn gysylltiedig â chynnydd mewn ôl-ddyledion rhent (51%, 193 allan o 381 o ymatebwyr). Pan newidiai ôl-ddyledion rhent wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol, roeddent yn fwyaf tebygol o gynyddu (neu gael eu hadrodd fel cynyddu).

Ymhlith ymatebwyr i'r arolwg hawlwr, yr esboniadau mwyaf cyffredin dros gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent a achoswyd gan ymfudo i Gredyd Cynhwysol oedd:

- Newidiadau mewn lefelau dyfarnu (46%, 74 allan o 162 o ymatebwyr);
- Dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos (53%, 86 allan o 162); ac
- Anawsterau cyllidebu o ganlyniad i daliadau misol (44%, 71 allan o 162).

Adroddodd 73% o ymatebwyr sy'n rhanddeiliaid (152 allan o 237) hefyd fod taliadau uniongyrchol o'r elfen tai i hawlwr yn ffactor yn y twf mewn ôl-ddyledion rhent. Yn ogystal, nododd 66% o ymatebwyr sy'n rhanddeiliaid (138 allan o 237) oedi gyda thaliadau a nododd 43% o randdeiliaid (89 allan o 237) anawsterau gyda hawliadau ar-lein fel rhesymau dros ôl-ddyledion rhent cynyddol.

Mae'r ymchwil yn nodi'n glir ôl-ddyledion rhent uwch o dan Gredyd Cynhwysol o'i gymharu ag o dan fudd-daliadau etifeddol, ond mae hyn o ganlyniad i'r swm o ôl-ddyledion yn uwch yn hytrach na'r cyfanswm o bobl gydag ôl-ddyledion rhent. Awgryma hyn fod y rheiny nad

ydynt mewn ôl-ddyledion rhent wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol yn dal gafael ar eu gallu i dalu eu rhent. Fodd bynnag, mae'r rheiny sy'n symud i Gredyd Cynhwysol gydag ôl-ddyledion rhent eisoes yn bodoli yn gweld yr ôl-ddyledion hynny'n cynyddu'n sylweddol. Y rheswm a nodwyd amlaf dros ôl-ddyledion gan hawlwy'r oedd y cyfnod aros o bum wythnos. Un argymhelliad o'r ymchwil yw y gallai fod yn ddoeth i landlordiaid ddarparu cymorth ychwanegol i'r rheiny sydd eisoes mewn ôl-ddyledion rhent yn y cyfnod hwn. Un argymhelliad o'r ymchwil yw y gallai fod yn ddoeth i landlordiaid ddarparu cymorth ychwanegol i'r rheiny sydd eisoes mewn ôl-ddyledion rhent yn y cyfnod hwn.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion Rhent: Canfyddiadau Allweddol

- Roedd ôl-ddyledion rhent yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol o fewn y sampl data gweinyddol.
- Ymhlith yr aelwydydd yn y data gweinyddol gydag ôl-ddyledion rhent, roedd Credyd Cynhwysol yn gysylltiedig â lefel gyfartalog sylweddol uwch o ôl-ddyledion o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol.
- Roedd aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn y data gweinyddol yn fwy tebygol o gael peth lefel o ôl-ddyledion rhent, ond roedd yr ôl-ddyledion hyn yn tueddu i fod yn is (rhwng £1 a £100). Er bod gan lai o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ôl-ddyledion rhent, roedd eu hól-ddyledion yn tueddu i fod yn gymharol fawr (mwy na £100).
- Roedd ôl-ddyledion rhent yn fwy tebygol o gynyddu o dan Gredyd Cynhwysol nag o dan fudd-daliadau etifeddol.
- Roedd y patrwm o ôl-ddyledion rhent i grwpiau bregus yn debyg i'r boblogaeth gyffredinol ond dangosodd gwahaniaethau rhwng grwpiau bregus fod rhai ffactorau eraill yn effeithio ar lefelau ôl-ddyledion.

Profiad o Gredyd Cynhwysol

Awgryma'r dystiolaeth o'r astudiaethau amrywiol y dyfynnir yn yr adroddiad hwn ac o'n harolygon a'n cyfweiliadau ein hunain fod nifer o dderbynwyr Credyd Cynhwysol yn ei chael hi'n anodd dod i delerau â rhai o nodweddion dylunio Credyd Cynhwysol (megis y cyfnod aros o bum wythnos, taliadau misol, a gorfod cyllidebu ar gyfer, a thalu, rhent). Dwyseir y problemau hyn lle mae'r hawliad Credyd Cynhwysol yn llai na'r hawliadau o dan fudd-

daliadau etifeddol. Mae tystiolaeth hefyd fod lleiafrif sylweddol o'r hawlwyd a holwyd yn derbyn a gwerthfawrogi'r cyfrifoldeb ychwanegol a ddaw gyda'r trefniadau hyn.

Mae taliadau ymlaen llaw o Gredyd Cynhwysol yn fendith gymysg. Maent yn amhrisiadwy yn helpu pobl i ymdopi â'r cyfnod aros o bum wythnos, ond gall adennill yn fisol y taliad ymlaen llaw beri ei broblemau ei hun. Er enghraifft, dengys yr astudiaeth hon nad yw lleiafrif sylweddol o hawlwyd yn deall bod y taliad ymlaen llaw yn cael ei adennill o daliadau dilynol.

Mae ymwybyddiaeth o Drefniadau Talu Amgen (APAs) yn isel iawn. Cred yr Adran Gwaith a Phensiynau y dylid eu hadolygu'n rheolaidd a chael gwared â nhw os yw'n bosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng annog cyfrifoldeb personol ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag gorddyled a digartrefedd. Mae'r dystiolaeth sydd gennym yn dangos y gallai mwy o bobl elwa o Drefniadau Talu Amgen pe baent ar gael yn fwy rhwydd, efallai law yn llaw â mwy o gymorth gyda chyllidebu. Yn sicr, dengys canlyniadau ein harolwg y byddent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan fwy o dderbynwyr Credyd Cynhwysol ac y gallent fod yn allweddol wrth atal pobl rhag wynebu argyfwng.

Casgliad

Mae Credyd Cynhwysol yn newid sylweddol i'r system les i aelwydydd incwm isel. Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth bod y symud i Gredyd Cynhwysol yn cael effaith ar wytnwch aelwydydd a lefel dyled preswylwyr incwm isel yng Nghymru. Mae tystiolaeth o ddyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor is, ôl-ddyledion y dreth gyngor uwch, ac ôl-ddyledion rhent uwch, wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol. Mae tystiolaeth hefyd y gallai pob ffurf ar ôl-ddyledion gynyddu unwaith y mae aelwydydd wedi symud i Gredyd Cynhwysol.

Mae agweddau ar Gredyd Cynhwysol, megis y cyfnod aros o bum wythnos, taliadau misol a lefelau cymorth, mewn perygl o achosi anawsterau ariannol a dyledion i rai hawlwyd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod lleiafrif o'r aelwydydd a gymerodd ran yn ffafrio'r rheolaeth dros eu hawliad a gynigir gan Gredyd Cynhwysol.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar gefnogi preswylwyr incwm isel yng Nghymru wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Bydd y canfyddiadau o'r ymchwil hwn yn cael eu

defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ddeall mwy am effaith Credyd Cynhwysol a phenderfynu lle y gellid darparu mwy o gymorth yn ddefnyddiol.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn adlewyrchu canlyniad prosiect ymchwil blwyddyn o hyd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddeall mwy am effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghymru.
- 1.2 Mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r mwyafrif o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth sy'n gysylltiedig ag incwm i bobl o oedran gweithio ac mae bellach yn cael ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig. Mae gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol wedi bod ar gael ym mhob ardal yng Nghymru er mis Ionawr 2019, sy'n golygu bod yn rhaid i bob hawliwr budd-dal newydd sy'n gysylltiedig ag incwm a'r rheiny ar fudd-daliadau etifeddol y mae eu hamgylchiadau'n newid yn sylweddol, hawlio Credyd Cynhwysol yn unig. Bydd y niferoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cynyddu'n sylweddol wrth i'r ymarfer 'Symud i Gredyd Cynhwysol' ('ymfudo a reolir' gynt) ddechrau (a ddechreuodd gydag arbrawf ym mis Gorffennaf 2019, ond sydd bellach wedi cael ei ohirio oherwydd effaith y pandemig COVID-19). Mae hyn yn cynnwys symud yr holl rai sy'n dal i dderbyn budd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol ac sydd bellach yn annhebygol o ddechrau cyn diwedd 2020, ar ôl cwblhau'r cam peilot.
- 1.3 Nid yw cymorth ar gyfer y dreth gyngor wedi'i gynnwys yn y Credyd Cynhwysol ac, er 2013, mae Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru wedi rhoi cymorth i'r rhai mewn angen ariannol. Fodd bynnag, gall Credyd Cynhwysol gael effaith sylweddol ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor, ac o bosibl llwyth achosion, ac mae angen deall yr effaith hon yn llawn. Dymuna Llywodraeth Cymru hefyd ystyried diwygiadau i'w Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac mae angen modelau effaith o wahanol fodelau amgen er mwyn dod i benderfyniad ar sail gwybodaeth.

- 1.4 At hyn, mae adroddiadau amrywiol ledled y DU⁶ yn nodi bod dyluniad Credyd Cynhwysol hefyd yn cael effaith andwyol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor a rhent, ac mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i'r sefyllfa yng Nghymru.
- 1.5 Dymuna Llywodraeth Cymru hefyd gael gwell dealltwriaeth o effaith Credyd Cynhwysol ar drigolion a pha un a allai Trefniadau Talu Amgen (APAs) gynorthwyo preswylwyr wrth iddynt symud i'r budd-dal newydd.
- 1.6 Er mwyn deall y materion hyn, ym mis Ionawr 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru Policy in Practice i gynnal astudiaeth gynhwysfawr blwyddyn o hyd ar effeithiau. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad llenyddol, arolygon gyda rhanddeiliaid a hawlwr budd-daliadau, dadansoddiad o ddata gweinyddol a gedwir gan awdurdodau lleol, a dadansoddiad o'r data a roddir gan gymdeithasau tai. Ymhlith y cyfranogwyr yn yr ymchwiliad mae awdurdodau lleol Cymru, ynghyd â chymdeithasau tai, cynrychiolwyr y sector rhentu preifat, a hawlwr Credyd Cynhwysol/budd-daliadau etifeddol, ledled Cymru.

Yr Adroddiad Interim

- 1.7 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad interim⁷ ar 9 Ionawr 2020: 'Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru: Canfyddiadau Interim'. Mae hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar un elfen o'r gwaith ymchwiliad: effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, yn cynnwys diwygiadau posibl i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fel bod lefel y gostyngiad yn y dreth gyngor a gynigir i ddinasyddion yng Nghymru, a'r niferoedd sy'n cael cymorth, yn cael eu cynnal yn gyffredinol wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol.

⁶ Er enghraifft: [Credyd Cynhwysol: Assumptions, Contradictions and Virtual reality](#), J Millar a F Bennett (Cambridge Core: Social Policy and Society, 16(2), 169-182, 2017) a [Intended and unintended consequences? A case study survey of housing associations and welfare reforms](#), P Williams, A Clarke a C Whitehead (Cambridge: Cambridge Centre for Housing & Planning Research, 2013)

⁷ [Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru: adroddiad interim](#) (Llywodraeth Cymru, 9 Ionawr 2020)

- 1.8 Mae'r adroddiad interim yn edrych ar y ddarpariaeth gyfredol o ostyngiadau'r dreth gyngor ledled Cymru, y cynllun cyfredol fel y bydd yn 2021-22 pan fydd mwy o boblogaeth Cymru wedi symud i Gredyd Cynhwysol, ac effaith cyflwyno chwe diwygiad gwahanol i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rhoddodd yr adroddiad interim wybodaeth i Lywodraeth Cymru ar effaith amcangyfrifedig diwygiadau ar gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor a goblygiadau cymdeithasol newid y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ac roedd wedi'i ddylunio i lywio penderfyniadau ar fodolau pellach, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Yr Adroddiad Terfynol 2020

- 1.9 Yr hyn y mae'r prosiect yn canolbwyntio arno fwyaf yw dadansoddiad hydredol o effaith Credyd Cynhwysol dros gyfnod y prosiect. Mae hyn yn cynnwys olrhain data awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar incwm ac ôl-ddyledion aelwydydd dros amser. Mae'r adroddiad terfynol yn cyflwyno canlyniadau'r holl ymchwil, yn cynnwys:

- Dealltwriaeth o gyfraddau ymfudo i Gredyd Cynhwysol.
- Effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent a'r dreth gyngor.
- Effaith Credyd Cynhwysol ar lwyth achosion gostyngiad yn y dreth gyngor a newidiadau posib i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- Golwg ar effaith Credyd Cynhwysol ar hawl wyr a rhanddeiliaid, yn seiliedig ar arolygon ansoddol a chyfweliadau, gan ganolbwyntio ar ôl-ddyledion, cael at gymorth, a threfniadau talu amgen.

2. Cefndir

Credyd Cynhwysol

- 2.1 Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal newydd sy'n disodli ystod o fudd-daliadau a chredydau treth cysylltiedig ag incwm ar gyfer aelwydydd oedran gweithio. Mae Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at y budd-daliadau a'r credydau treth y mae Credyd Cynhwysol yn eu disodli fel 'budd-daliadau etifeddol'. Rhagfynegodd y Revolution Foundation mewn adroddiad yn 2020⁸ pan gaiff ei roi ar waith yn llawn, y bydd tua 6.2 miliwn o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig yn derbyn Credyd Cynhwysol a bydd y taliadau'n dod i gyfanswm o oddeutu £60 biliwn y flwyddyn. Rhagfynegwyd hyn cyn y pandemig COVID-19 ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth yr effeithiau economaidd yn sgil hynny. Mae'r niferoedd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, a'r gost, yn debygol o fod yn sylweddol uwch erbyn hyn.
- 2.2 Hyd at fis Tachwedd 2019, roedd 120,648 o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru. Ers i wasanaeth llawn Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno i bob Canolfan Waith ym mis Rhagfyr 2018, mae nifer yr aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yng Nghymru wedi cynyddu ar gyfartaledd o 4,792 y mis.⁹ Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried bod llai o aelwydydd yn ymfudo'n naturiol (drwy newidiadau mewn amgylchiadau) nag yr amcangyfrifwyd yn wreiddiol, rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu i 400,000 o aelwydydd erbyn diwedd y cyfnod ymfudo a reolir, y mae disgwyl iddo gael ei gwblhau ar hyn o bryd ym mis Medi 2024.¹⁰ Golyga hyn, ar adeg ysgrifennu, fod llai na thraean yr aelwydydd a allai fod yn gymwys yng Nghymru yn derbyn Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd.

⁸ Laura Gardiner a David Finch, [The long and winding road](#): the introduction and impact of Universal Credit in Liverpool City Region and the UK (Resolution Foundation, Ionawr 2020)

⁹ Dadansoddiad Policy in Practice o ystadegau Credyd Cynhwysol ar gyfer mis Tachwedd 2019 ar Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau

¹⁰ [Dadansoddiad o effaith diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru](#) (Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019)

- 2.3 Mae'r prosiect hwn wedi archwilio sut mae'r broses o roi Credyd Cynhwysol ar waith yn cael effaith ar drigolion Cymru. Mae'r effaith yn eang, gan gael effaith ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor, lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor, llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor, ac ôl-ddyledion rhent.


Tlodi yng Nghymru

- 2.4 Er mwyn rhoi cyd-destun, mae'n ddefnyddiol amlinellu'n fras y data pennawd allweddol mewn perthynas â tlodi a chyflogaeth yng Nghymru. Dengys data o arolwg 'Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog' yr Adran Gwaith a Phensiynau¹¹, y brif ffynhonnell ddata ar incymau isel a budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn y DU, fod gan Gymru gyfradd dlodi sy'n debyg i Loegr ac sy'n uwch na'r gyfradd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, a bod hyn wedi bod yn gymharol gyson dros y ddau ddegawd a hanner diwethaf. Yn ystod y cyfnod 2016-17 i 2018-19, roedd 23% o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi, lle mesurwyd tlodi cymharol ar sail 'Cost Ar Ôl Tai' (AHC). Dengys yr amcangyfrifon diweddaraf fod gan Gymru gyfradd dlodi sy'n debyg i Loegr ac yn uwch na'r gyfradd yn yr Alban ar draws y tri phrif gylch bywyd sef plant, oedolion o oedran gweithio, a phensiynwyr.¹²

¹¹ Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog: Dadansoddiad o ddosbarthiad incwm y DU: 1994-95 i 2018-19 (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 26 Mawrth 2020)

¹² Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Policy in Practice. Gweler hefyd [Poverty in Wales](#), Helen Barnard, (Joseph Rowntree Foundation, Mawrth 2018) am gefndir

Ffigwr 1 Cyfraddau tlodi incwm cymharol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (AHC)¹³



- 2.5 Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r gyfran o aelwydydd heb waith wedi disgyn ledled y DU, ond mae wedi disgyn yn arbennig o sydyn yng Nghymru (nid yw'r duedd hon yn cymryd i ystyriaeth effaith COVID-19 ar gyflogaeth yng Nghymru). Mae'r lleihad hwn mewn diweithdra, ar lefel aelwydydd, yn cael ei adlewyrchu yn yr un modd mewn cynnydd yn y gyfradd gyflogaeth, lle mae Cymru, sydd wedi arddangos cyfraddau cyflogaeth is yn draddodiadol o'i gymharu â'r Alban a Lloegr dros y cyfnod a ddangosir yma, wedi profi'r cynnydd cyflymaf, gyda'r gyfradd gyflogaeth yr un fath â chyfradd Lloegr a'r Alban yn 2018. Felly, mae tlodi yn parhau'n uchel yng Nghymru er gwaethaf cyfradd gyflogaeth sy'n cynyddu a lleihad yn y gyfran o aelwydydd oedran gweithio lle nad yw rhywun yn gweithio.
- 2.6 Mae'r blynyddoedd nesaf yn debygol o ddarparu amgylchedd anodd mewn perthynas â thueddiadau tlodi. Mae Ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid¹⁴ yn rhagweld y bydd lefel tlodi cymharol, a fesurir ar ôl costau tai, yn cynyddu dros y cyfnod 2013-2015 i 2019-2021, gyda'r cynnydd disgwyledig yng Nghymru yn uwch

¹³ [Poverty levels and trends in England, Wales, Scotland and Northern Ireland](#) (Joseph Rowntree Foundation - heb ddyddiad)

¹⁴ [Living standards, poverty and inequality in the UK: 2017-18 to 2021-22](#), Andrew Hood and Tom Waters, (Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Tachwedd 2017). Mae'r rhagolygon yn berthnasol i flynyddoedd a fu oherwydd mae oedi cyn cyhoeddi ffigurau swyddogol.

nag mewn nifer o rannau eraill o'r DU. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhagweld y bydd tlodi incwm absoliwt (neu 'wedi'i angori'), sydd hefyd yn cael ei fesur ar ôl costau tai, yn cynyddu yng Nghymru dros yr un cyfnod, ar adeg pan ragwelir y bydd yn lleihau ar gyfer y DU yn gyffredinol. Rhagwelir y bydd Cymru yn profi cynnydd arbennig o fawr mewn tlodi plant dros yr un cyfnod. Mae adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol¹⁵ sy'n amcangyfrif effaith gronol diwygiadau lles a threthiant hefyd yn rhagweld cynnydd sylweddol mewn tlodi plant yng Nghymru (o 8 pwynt canran), gyda chynnydd tebyg wedi'i ragweld ar gyfer yr Alban a hyd yn oed cynnydd uwch wedi'i ragweld yn Lloegr (lle rhagwelir i dlodi plant gynyddu 11 pwynt canran). Mae'r amcangyfrifon yn yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22.

- 2.7 Yn amlwg, rhaid darllen rhagfynegiadau a gynhyrchwyd cyn y pandemig COVID-19 cyfredol gyda pheth gofal. Fodd bynnag, mae'r tueddiadau tlodi hyn yn golygu ei bod hi'n deall effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Gallai dealltwriaeth well alluogi targedu adnoddau yn fwy cywir i'r rheiny sydd eu hangen fwyaf.

¹⁵ [The cumulative impact of tax and welfare reform](#) (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 14 Mawrth 2018)

3. Methodoleg

Dadansoddiad Data Gweinyddol

- 3.1 Cynhaliwyd y dadansoddiad data yn yr adroddiad hwn ar lefel aelwydydd. Mae data aelwydydd ar hawlwyr Budd-dal Tai a gostyngiadau'r dreth gyngor cyfredol wedi'i roi i Policy in Practice ar ffurf y Detholiad Budd-dal Tai Sengl (SHBE)¹⁶ a'r detholiad Data Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR)¹⁷ gan bob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Cynrychiolir data ar aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn y detholiad CTR yn unig¹⁸. Mae data personol wedi'i eithrio. Mae Policy in Practice yn trosi'r data hwn i fformat y gellir ei ddefnyddio gan eu meddalwedd, y Gyfrifiannell Budd-daliadau a Chyllidebu. Mae'r peiriant cyfrifo'n ei gwneud yn bosib cael newidiadau byd-eang mewn fformwleiddiadau budd-daliadau, a newidiadau wedi'u modelu ar gyfer pob aelwyd yn y set ddata. Yna crynhoir y rhain i ddod i werthoedd cyfanredol.
- 3.2 Mae data ôl-ddyledion rhent ac ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi cael ei gyflenwi hefyd i Policy in Practice gan rai o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, bob chwarter¹⁹. Mae'r data hwn yn cyd-fynd â'r data budd-daliadau ar lefel aelwydydd drwy adnabyddwr achosion unigryw; mae'r data yn darparu darlun cyflawn o amgylchiadau aelwyd yn cynnwys incwm budd-daliadau, ôl-ddyledion rhent a'r dreth gyngor, bob chwarter. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer dadansoddi ar adeg benodol a dadansoddi effaith dros amser.
- 3.3 At ddibenion dadansoddiad hydredol, mae cynnydd blynyddol cytunedig yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys. Mae cyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor a ddefnyddir yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer pob cyngor dros y tair blynedd diwethaf. Caiff y

¹⁶ Mae'r Detholiad Budd-dal Tai Sengl (SHBE) yn sgan electronig misol o ddata lefel hawlwyr yn uniongyrchol o systemau cyfrifiadurol awdurdodau lleol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau.

¹⁷ Mae'r Detholiad Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) yn sgan electronig o ddata gostyngiadau'r dreth gyngor a roddir i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

¹⁸ Noder yr adnabyddir aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar sail swm y dyfarniad a gofnodir ganddynt. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'n bosib y bydd yna aelwydydd sy'n derbyn fflag am Gredyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau rai wythnosau cyn derbyn eu taliad cyntaf. Mae'r holl ddadansoddiadau yn yr adroddiad hwn yn ystyried aelwyd fel un 'sy'n derbyn Credyd Cynhwysol' unwaith y mae wedi derbyn ei thaliad cyntaf yn unig.

¹⁹ Darparodd 18 awdurdod lleol setiau data ôl-ddyledion y dreth gyngor, yr oedd posib cysylltu 9 ohonynt â'r data SHBE - gweler Rhan 2 o'r adroddiad hwn am fanylion. Darparodd 13 awdurdod lleol setiau data ôl-ddyledion rhent, yr oedd posib cysylltu 8 ohonynt â'r data SHBE - gweler Rhan 3 am fanylion.

rhagdybiaeth hon ei chymhwyso, ar wahân, i dâl treth gyngor pob cyngor cyn dadansoddi data. Nodir yn Atodiad 3 y codiadau yn y dreth gyngor a ddefnyddir yn y gwaith modelu.

- 3.4 Cynhwysir lefel o ymfudo y cytunwyd arni i Gredyd Cynhwysol hefyd. Bydd y gwaith modelu yn cynnwys ymfudiad disgwylledig o 15.5% ychwanegol o hawlwr i Gredyd Cynhwysol erbyn 2021-22. Cytunwyd ar y lefel ragdybiedig hon (cyn COVID-19) gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar y lefelau cyfredol a arsylwyd o 10% y flwyddyn yn cael eu cario drwodd i 2020-21, a rhagdybiaeth o lefelau ymfudo yn gostwng i 5% y flwyddyn erbyn 2021-22.
- 3.5 Mae modelu ar gyfer 2021-22 yn cynnwys newidiadau tebygol i gyfraddau cymorth lles, yr isafswm cyflog cenedlaethol, lwfansau treth, cyfraddau Lwfans Tai Lleol, costau rhent, a newid rheoliadol hysbys. Mae cyfraddau budd-daliadau'n unol â'r mesur chwyddiant a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynyddu budd-daliadau (y codiad blyneddol a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU gyda chyfraddau budd-daliadau, ym mis Ebrill fel arfer). Mae newidiadau eraill yn cael eu llywio gan ragfynegiadau o gyfradd chwyddiant a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.²⁰ Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi'u modelu gan dybio y daw unrhyw uwchraddio o'r lefel sylfaen gyfredol yn hytrach nag o ddychwelyd i gyd-fynd â'r drydydd ddegradd o daliadau rhent.
- 3.6 Mae'n werth nodi na all modelu blyneddol i ddod ystyried amodau macro-economaidd na newidiadau mewn polisi sy'n deillio o newid Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn benodol, nid yw'r gwaith modelu'n ystyried unrhyw effeithiau economaidd o adael yr Undeb Ewropeaidd nac unrhyw newidiadau polisi a allai ddeillio o newid Llywodraeth rhwng 2019 a 2022.
- 3.7 Nid yw'r modelu ychwaith yn cymryd i ystyriaeth newidiadau i ddarpariaeth lles a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth mewn ymateb i feirws COVID-19, y cynnydd a ddisgwylir mewn hawliadau o ganlyniad, na'r effeithiau economaidd posibl.

²⁰ [Economic and fiscal outlook – March 2020](#) (Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 11 Mawrth 2020)

- 3.8 At hyn, dim ond yr aelwydydd a gynrychiolir ar hyn o bryd yn y setiau data y gall y gwaith modelu eu hystyried. O'r herwydd, ni all ragweld newid ymddygiad mewn ymateb i addasu'r cynllun. Ni all mesurau penodol sy'n arwain at gymhwysedd ehangach fodelu cynnydd mewn llwyth achosion na'r cynnydd yn sgil hyn yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor. Lle digwydd hyn, gallai modelu arwain at roi amcangyfrif rhy isel ar y gost. Fodd bynnag, lle gall addasu arwain at fwy o faich achosion, nodir hyn yn nhestun yr adroddiad hwn.
- 3.9 Mae mwy o wybodaeth am ffynonellau data, prosesu data, rhagdybiaethau modelu a phrosesu dadansoddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Data Arolygon a Chyfweliadau

- 3.10 Dadansoddwyd data cynradd meintiol ac ansoddol a gasglwyd drwy arolygon ar-lein a chyfweliadau wyneb yn wyneb. Roedd y casglu data hwn yn targedu ystod o boblogaethau sampl; hawlwyd budd-daliadau gwirioneddol a phosibl; landlordiaid cymdeithasol a phreifat; swyddogion awdurdodau lleol; a rhanddeiliaid y trydydd sector. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, roedd dau brif nod: ateb cwestiynau ymchwil²¹ na ellid eu hateb o ganlyniad i gyfyngiadau strwythur safonol data budd-daliadau ar lefel aelwydydd; a darparu amcangyfrifon ansoddol o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a bwriadau ymddygiadol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Credyd Cynhwysol.
- 3.11 Roedd 490 o ymatebwyr i'r arolwg hawlwyd, a 433 o ymatebwyr i'r arolwg rhanddeiliaid. Cymerai'r arolygon oddeutu 20 munud i'w cwblhau, ac roeddent yn wahanol i rhanddeiliaid a hawlwyd, gyda chwestiynau ynglŷn â demograffeg, amgylchiadau ariannol, dealltwriaeth a disgwyliadau o ran Credyd Cynhwysol, a gostyngiad yn y dreth gyngor, a systemau cymorth.
- 3.12 Roedd yr arolwg ar-lein yn gweithredu fel sail ar gyfer recriwtio dilynol i'r segment cyfweliadau ansoddol o'r ymchwil. Ar ôl cwblhau'r arolwg, câi ymatebwyr yr opsiwn i

²¹ Gweler Atodiad 5 am restr o'r cwestiynau ymchwil a sut y maent wedi cael eu hateb.

ddatgan p'un a oeddent yn fodlon i ni ailgysylltu â nhw am gyfweiliad wyneb yn wyneb.

- 3.13 Cynhaliwyd cyfweiliad gyda 23 o hawlwr, roedd pedwar ar bymtheg ohonynt yn ymatebwyr i'r arolwg, yn ogystal â phedwar hawlwr o gronfa ddata ailgysylltu 'Arolwg Cenedlaethol Cymru'. Roeddent o oedran, cefndiroedd ethnig, statws gweithio a mathau o aelwydydd gwahanol - ar fudd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol am gyfnodau amrywiol. Holwyd tri rhanddeiliad ar ddeg, a oedd yn cynrychioli ystod o randdeiliaid, o weithwyr cymdeithasau tai i weithwyr elusennol i landlordiaid y sector rhentu preifat a oedd gan denantiaid ar Gredyd Cynhwysol.
- 3.14 Cynhaliwyd y cyfweiliadau gyda hawlwr a rhanddeiliaid gan un o ddau gyfwelydd hyfforddedig. Dilynai'r cyfweiliadau fformat lled-strwythurol ac fe'u cynhaliwyd mewn lleoliad canolog ar safleoedd awdurdod lleol. Roeddent wedi'u strwythuro i ganiatáu i'r rhai a holwyd gadarnhau eu hatebion a darparu rhagor o fanylion ar gyfer yr elfennau rheiny o'r arolwg lle na fyddai opsiynau ymateb caeedig wedi caffael y manylion yn llawn am bynciau penodol.
- 3.15 Nod y cyfweiliadau gyda hawlwr budd-daliadau etifeddol oedd darganfod beth oeddent yn ei wybod am Gredyd Cynhwysol a beth oedd eu teimladau am y budd-dal newydd.
- 3.16 Parhaodd y cyfweiliadau gyda hawlwr rhwng 15 a 45 munud. Roedd y cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid yn archwilio rhai o'r pynciau yn yr arolwg mewn mwy o fanylder. Parhaodd y rheiny rhwng 15 a 50 munud.
- 3.17 Darparodd yr arolygon a'r cyfweiliadau fraslun disgrifiadol o'r data ar ymwybyddiaeth, profiad o, ac effaith, Credyd Cynhwysol. Defnyddiwyd data'r arolwg i archwilio'r perthnasoedd rhwng rhagfynegyddion a chanlyniadau ar gyfer y sampl hawlwr. Roedd y cyfweiliadau yn ddefnyddiol yn archwilio pynciau'r arolwg hawlwr mewn mwy o fanylder ac yn canfod safbwyntiau unigryw na ellid eu casglu drwy'r arolwg.

4. Rhan Un: Gostyngiad yn y Dreth Gyngor

Cyflwyniad

- 4.1 Yn 2012, penderfynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ac, yn lle hynny, hwyluso Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol i roi cymorth i'r aelwydydd hynny sydd ag angen ariannol yn Lloegr. Esboniodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig mai'r rhesymeg dros leoleiddio cymorth gyda'r Dreth Gyngor yn Lloegr, oedd, rhoi i awdurdodau lleol Lloegr fwy o ran yn nyfodol economaidd eu hardal leol. Gwnaed toriad o 10% yn y gyllideb yr un pryd, fel cyfraniad at y diffyg yng nghyllideb y DU. Nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd i awdurdodau lleol weithio ar dyfu eu heconomiâu lleol fel bod angen i lai o breswylwyr ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor. Defnyddiwyd y diffyg o 10% yn y cyllid hefyd i drosglwyddo cyllid i Lywodraethau Cymru a'r Alban a arweiniodd at drosglwyddo £222 miliwn i Gymru yn hytrach na chwrdd â'r swm llawn o dalu Budd-dal y Dreth Gyngor ar y pwynt trosglwyddo, sef £244 miliwn y flwyddyn.
- 4.2 Rhoddwyd pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru fabwysiadu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cynllun neu beidio. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rhan o'r system fudd-daliadau - mae'n rhan annatod o system y dreth gyngor.
- 4.3 Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi nodi eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Yr egwyddorion allweddol yw:
- Cysondeb a thegwch mewn triniaeth ledled Cymru.
 - Fforddiadwyedd.
 - Lleihau i'r eithaf y risg o beidio â chael cynllun newydd mewn pryd.
 - Osgoi newidiadau sydyn yn lefel y cymorth a ddarperir.
 - Symleiddio a gwella system flaenorol Budd-dal y Dreth Gyngor lle bo hynny'n bosib.

- 4.4 Mae dyluniad y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yng Nghymru'n dilyn yr egwyddorion hyn mewn sawl ffordd.
- 4.5 Yn gyntaf, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yng Nghymru'n cyd-fynd yn agos â hen Fudd-dal y Dreth Gyngor. Felly, mae'r rheoliadau'n dilyn yn agos y rhai hynny sy'n llywodraethu hen Fudd-dal y Dreth Gyngor, ac mae'r diwygiadau, er 2013, wedi bod yn dechnegol yn bennaf neu'n gysylltiedig â chynyddu cyfraddau budd-daliadau.
- 4.6 Yn ail, rhoddodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn yn ychwanegol yn 2013-14 "i gefnogi awdurdodau lleol i roi i bob aelwyd cymwys ei hawl lawn i gymorth, er gwaethaf y diffyg cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU." Cyfrifwyd y cyllid ychwanegol hwn i gwrdd â swm llawn system Budd-dal y Dreth Gyngor ar adeg ei diddymu (£244 miliwn) ac mae'r un lefel o gymorth i gynghorau wedi'i chynnal ers hynny. Mae disgwyl i awdurdodau lleol yng Nghymru gynllunio ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n deillio o godiadau lleol yn y dreth gyngor. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r trefniant hwn yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb a rennir am y cynlluniau.
- 4.7 Yn drydydd, symleiddiodd Llywodraeth Cymru'r cynllun drwy ddiddymu'r Ad-daliad Ail Oedolyn ar gyfer pob ymgeisydd gan gynnwys pensiynwyr (yn wahanol i awdurdodau lleol Lloegr, mae gan Weinidogion Cymru'r awdurdod i benderfynu sut mae ei gynllun, a bennir yn ganolog, yn gweithredu ar gyfer pensiynwyr yn ogystal ag ar gyfer aelwydydd oedran gweithio).
- 4.8 Yn olaf, penderfynodd Llywodraeth Cymru greu cynllun fframwaith cenedlaethol gyda'r disgresiwn lleiaf posib. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu ei gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ei hun yn seiliedig ar reoliadau'r gofynion rhagnodedig, gyda dim ond meysydd disgresiwn cyfyngedig i'w galluogi i "ystyried yr anghenion a'r blaenoriaethau yn eu hardaloedd lleol". Mae'r meysydd disgresiwn fel a ganlyn:
- Taliadau estynedig - cynyddu'r cyfnod y mae gan ymgeiswyr hawl i barhau i dderbyn gostyngiad mewn rhai amgylchiadau (rhedeg ymlaen) y tu hwnt i'r cyfnod safonol o bedair wythnos.

- Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel - diystyru mwy na'r £10 a ragnodir yn statudol o'r arian a dderbynnir mewn perthynas â'r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm.
- Ôl-ddyddio ceisiadau - ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod safonol o dri mis.
- Rhoi gwybod am benderfyniad - rhoi mwy na'r wybodaeth sylfaenol a ragnodir fel rhan o'u gwaith o roi gwybod am weithdrefnau penderfynu.

- 4.9 Yn 2018-19, diystyrododd pob awdurdod yng Nghymru 100% o bensiynau rhyfel (megis Pensiwn Gweddwon Rhyfel a Phensiwn Anabledd Rhyfel), ni newidiodd unrhyw awdurdod daliadau estynedig, a chynyddodd un awdurdod (Bro Morgannwg) ôl-ddyddio o 3 i 6 mis.
- 4.10 Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi darparu ar gyfer cynllun diofyn a fyddai'n berthnasol pe bai awdurdod lleol yn methu â gosod ei gynllun ei hun, ond nid yw hyn wedi bod yn angenrheidiol hyd yn hyn. Mae rheoliadau'r cynllun diofyn hefyd yn dilyn hen reoliadau Budd-dal y Dreth Gyngor yn agos.
- 4.11 Dan gynllun cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru, mae'r asesiad i ddarganfod lefel y gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn wahanol i'r broses asesu ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Golyga hyn fod symud i Gredyd Cynhwysol yn aml yn sbarduno newid yn swm y gostyngiad yn y dreth gyngor. Er bod hyn yn wir am y mwyafrif o'r cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn y Deyrnas Unedig, gall y gwahaniaeth yn lefel y gostyngiad yn y dreth gyngor rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau fod yn fwy yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Y rheswm am hyn yw nad yw cynllun Cymru ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn ymgorffori diwygiadau lles ehangach Llywodraeth y Deyrnas Unedig megis y terfyn dau blentyn, diddymu elfen ychwanegol Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA WRAG), a diddymu'r premiwm teulu. I aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, mae'r newidiadau hyn wedi'u hymgorffori yn ochr "anghenion" ac incwm yr asesiad ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

4.12 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried addasu'r cynllun cyfredol i sicrhau tegwch rhwng aelwydydd dan y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau. Amcan ychwanegol yw sicrhau bod unrhyw gynllun newydd yn cynnal, neu'n cynyddu, nifer yr aelwydydd sy'n derbyn cymorth. Mae hyn yn peri pryder arbennig o ystyried effaith bosibl Credyd Cynhwysol ar lwyth achosion. Darparodd yr adroddiad interim²² ar gyfer Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020) ddadansoddiad o effaith chwe diwygiad gwahanol i'r cynllun. Ceir canlyniadau'r modelau hyn yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn. Yn dilyn gwerthuso'r adroddiad interim, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno deall effaith y diwygiadau pellach canlynol i'r cynllun:

- Diwygio'r tapr
- Cyflwyno rheol "de minimis"

4.13 Roedd yr adroddiad interim hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r cymorth cyfredol yng Nghymru a chymorth yn 2021-22, pan fydd mwy o aelwydydd wedi ymfudo drosodd i Gredyd Cynhwysol. Diweddarir y dadansoddiad hwn yn y bennod hon, isod.

Llwyth Achosion Gostyngiad yn y Dreth Gyngor

Cefndir

4.14 Mae tystiolaeth bod llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor yn syrthio ledled Prydain Fawr, gan gyd-fynd â chyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (yr IFS) yn nodi bod llwyth achosion ledled Prydain Fawr wedi syrthio 17% rhwng 2012-13 a 2017-18.²³ Mae'r gostyngiadau hyn yn cynrychioli tuedd ehangach cyn unrhyw gynnydd mewn llwyth achosion a allai fod wedi deillio o effeithiau economaidd y pandemig COVID-19.

4.15 Yng Nghymru, mae llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor hefyd wedi bod yn lleihau, er o ystyried y niferoedd cymharol fach sy'n derbyn Credyd

²² [Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru – adroddiad interim](#) (Llywodraeth Cymru, 9 Ionawr 2020)

²³ [The impacts of localised council tax support schemes](#), Stuart Adam, Robert Joyce a Thomas Pope (Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 29 Ionawr 2019, tudalen 35)

Cynhwysol hyd yn hyn, gall y duedd hon fod am resymau eraill (e.e. amodau economaidd). Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am llwyth achosion a chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae'r adroddiad diweddaraf²⁴, ar gyfer 2019-20, yn dangos bod 275,042 o aelwydydd yng Nghymru wedi cael gostyngiad yn y dreth gyngor yn 2019-20, o'i gymharu â 277,989 yn 2018-19, cwmp o 2,947 o achosion (1.1%).

Tabl 1.1: Newid mewn llwyth achosion Gostyngiad yn y Dreth Gyngor 2013 – 2020

Llwyth Achosion CTRS	Mawrth 2013	Mawrth 2014	Mawrth 2015	Mawrth 2016	Mawrth 2017	Mawrth 2018	Mawrth 2019	Mawrth 2020	% gostyngiad 2014-20
Cyfanswm	329,000*	316,732	307,137	299,185	291,891	284,581	277,989	275,042	13.2%
Pensiynwyr	-	133,000	127,098	124,065	119,930	116,823	113,966	110,744	16.7%
Oedran Gweithio	-	183,732	180,039	175,120	171,961	167,758	165,118	165,643	9.8%

*Llwyth achosion ym Mawrth 2013 pan gafodd Budd-dal y Dreth Gyngor ei ddiddymu.

Ffynhonnell: Adroddiadau blynyddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru

4.16 Awgryma Adroddiad Blynyddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2018-19²⁵ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru bod llwyth achosion oedran gweithio wedi gostwng oherwydd bod pobl yn gadael y system fudd-daliadau'n gyfan gwbl o ganlyniad i welliant yn y sefyllfa economaidd gyffredinol a/neu effeithiau cronus diwygiadau lles. Mae'n awgrymu yr achosir gostyngiadau mewn llwyth achosion pensiynwyr gan gyfuniad o newidiadau diweddar i oedran pensiwn y wladwriaeth i

²⁴ [Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: adroddiadau blynyddol](#) (Llywodraeth Cymru)

²⁵ [Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Adroddiad Blynyddol 2018-9](#) (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2019, tudalen 10-11 paragraff 3.3)

fenywod, a'r ffaith bod carfanau newydd o bensiynwyr yn tueddu i fod ag incwm uwch, yn fwy tebygol o fod yn berchnogion-feddianwyr, ac yn llai tebygol o dderbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Dadansoddodd Policy in Practice ddata gweinyddol 2019-20 gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i roi dadansoddiad pellach o'r llwyth gwaith cyfredol ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn ddiweddarach yn yr adran hon o'r adroddiad.

Cyfradd Hawlio Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor ac Ymwybyddiaeth o'r Cynllun yng Nghymru

- 4.17 Mae Adroddiad²⁶ diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dyfynnu asesiad Llywodraeth Cymru o'i chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n awgrymu y gallai nifer yr aelwydydd incwm isel yng Nghymru a dderbyniodd ostyngiad yn y dreth gyngor fod rhwng 55% a 65% yn 2018. Mae hyn yn gyson â thueddiadau hanesyddol mewn cyfraddau hawlio²⁷ Budd-daliadau'r Dreth Gyngor ac mae'n golygu nad yw nifer sylweddol o aelwydydd incwm isel yn derbyn y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.
- 4.18 Gallai Credyd Cynhwysol ostwng y gyfradd hawlio gymharol isel hon ymhellach. Yn gyntaf, roedd Budd-dal y Dreth Gyngor yn aml yn cael ei hawlio ar yr un pryd â'r Budd-dal Tai, ond mae'n rhaid gwneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor ar wahân o dan symudiadau i Gredyd Cynhwysol. Felly, efallai na fydd rhai aelwydydd yn gwneud cais. Yn ail, gallai darpar hawlwr Credyd Cynhwysol fynd ar goll yn y broses. Y rheswm dros hyn yw bod awdurdodau lleol yn dibynnu'n llwyr ar dderbyn data am Gredyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cyfrifo hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor. Fel rhan o'r hawliad am Gredyd Cynhwysol, lle nodir atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, gofynnir i'r hawliwr a ydyw eisoes yn hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor gan ei awdurdod lleol, yn bwriadu hawlio, neu ddim eisiau hawlio. Os yw hawliwr Credyd Cynhwysol yn nodi ei fod yn hawlio, neu'n

²⁶ [Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus](#) (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2019)

²⁷ [Budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm: Amcangyfrif o'r gyfradd hawlio yn 2009-10: Datganiad Cyntaf Ystadegau Gwladol](#), Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Ystadegau Gwladol), Mehefin 2013, tudalen 2 (amcangyfrifir bod y nifer sy'n hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor fesul llwyth achos rhwng 62% a 69%)

bwriadu hawlio cymorth gyda'r dreth gyngor, gosodir marciwr diddordeb sy'n sbarduno'r gwaith o drosglwyddo data o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Os bydd unrhyw un o'r trefniadau hyn yn torri i lawr, efallai na fydd rhai aelwydydd yn cael gwybod bod angen iddynt wneud cais ar wahân am ostyngiad yn y dreth gyngor.

- 4.19 Er mwyn mynd i'r afael â'r gyfradd hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor isel, mae Llywodraeth Cymru wedi codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol gymorth a gostyngiadau'r dreth gyngor sydd ar gael i aelwydydd - ymgyrch barhaus sy'n cynnwys posteri, cynnwys drwy sianeli digidol Llywodraeth Cymru a chyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu. Un o nodau'r ymgyrch yw annog aelwydydd i droi at wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwiriwr cymhwysedd am ostyngiad yn y dreth gyngor. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru²⁸ yn dadlau bod cyswllt personol wedi'i dargedu yn gweithio'n well na hysbysebu heb ei dargedu (megis taflenni neu hysbysebion radio), a bod gweithio mewn partneriaeth yn lleol (e.e. awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol a meddygon teulu) yn hanfodol bwysig.
- 4.20 Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru²⁹ fod 'ei thudalennau gwe Cymorth y Dreth Gyngor a'i hymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol eisoes wedi helpu dros 60,000 o bobl i gael mynediad at yr wybodaeth hanfodol sydd ei hagen arnynt ar y sawl math o gymorth y dreth gyngor sydd ar gael', ers lansio yn 2018.
- 4.21 Nododd y datganiad i'r wasg y byddai cam nesaf yr ymgyrch yn targedu'n benodol aelwydydd incwm isel, a'r rheiny sy'n derbyn neu'n ymfudo i Gredyd Cynhwysol, drwy godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru. Ers mis Tachwedd 2019, mae 15,000 o drawiadau eraill wedi'u cofnodi ar dudalennau gwe Cymorth y Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru.

²⁸ [Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus](#) (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2019)

²⁹ [A ydych yn gymwys am ostyngiad yn y dreth gyngor?](#) (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019)

Canfyddiadau'r Arolwg

- 4.22 Roedd yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys arolwg o randdeiliaid a hawlwr yn cynnwys cwestiynau penodol wedi'u dylunio i lywio dealltwriaeth o'r ymwybyddiaeth o, a chyfraddau hawlio, gostyngiad yn y dreth gyngor a'i berthynas â Chredyd Cynhwysol.
- 4.23 Dangosodd ymatebion i'r arolwg fod yna ddryswch i rai hawlwr ynglŷn â'r berthynas rhwng Credyd Cynhwysol a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Credai chwarter o'r holl ymatebwyr sy'n hawlwr (83 allan o 310) fod cais am ostyngiad yn y dreth gyngor yn cael ei gynnwys fel rhan o Gredyd Cynhwysol. Nid oeddent yn ymwybodol o'r broses hawlio ar wahân na bod gostyngiad yn y dreth gyngor yn cael ei weinyddu ar wahân.
- 4.24 Dangosodd cyfran sylweddol o ymatebwyr sy'n hawlwr ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o ostyngiad yn y dreth gyngor. O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cael Credyd Cynhwysol, nid oedd 29% (52 allan o 182) yn gwybod a oeddent yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r 14% (13 allan o 90%) o'r rheiny sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol nad oeddent yn sicr a oeddent yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. I'r aelwydydd a oedd yn ymwybodol o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ond nad oeddent wedi ymgeisio, y prif reswm dros hynny oedd diffyg dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwysedd (50% o ymatebwyr).
- 4.25 Dengys y canlyniadau hyn ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut mae gostyngiad yn y dreth gyngor yn eistedd â Chredyd Cynhwysol, a sut y gallai hyn effeithio ar lwyth achosion gostyngiad yn y dreth gyngor, ac y gallai unrhyw gwmp mewn llwyth achosion gynyddu wrth i fwy o aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol. Dengys canlyniadau'r arolwg y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymgyrch ymwybyddiaeth a'i wella, yn benodol y berthynas rhwng gostyngiad yn y dreth gyngor a Chredyd Cynhwysol, er mwyn cynnal llwyth achosion ac uchafu incwm i breswylwyr Cymru.
- 4.26 Rhwystir arall i ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor yw ofni mwy o ddyled. Dywedodd 16% o ymatebwyr nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol (13 allan o

80) a oedd yn ymwybodol o ostyngiad yn y dreth gyngor ond heb ymgeisio, fod hyn o ganlyniad i'r risg o syrthio i ddyled yn sgil adennill gordaliadau. Dengys hyn na fydd codi ymwybyddiaeth yn ddigon, o bosib, i adfer llwyth achosion gostyngiad yn y dreth gyngor yn llawn.

Canfyddiadau'r Arolwg

- Roedd 25% o'r holl ymatebwyr sy'n hawlwr (83 allan o 310) yn credu bod gostyngiad yn y dreth gyngor yn rhan o Gredyd Cynhwysol.
- Nid oedd 29% o hawlwr Credyd Cynhwysol (52 allan o 182) yn gwybod a oeddent yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor (o'i gymharu â 14% o ymatebwyr sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol).
- Dywedodd 62% o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (54 allan o 87) y byddent yn hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor pe baent yn symud i Gredyd Cynhwysol.
- Ni wnaeth 16% o hawlwr budd-daliadau etifeddol (13 allan o 80) ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd eu bod yn ofni dyledion cynyddol a achosir gan adennill gordaliad.


Llwyth Achosion Cyfredol a Chyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

- 4.27 Mae'r llwyth achosion a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad hwn yn cynnwys data gostyngiad yn y dreth gyngor 2019-20 a gafwyd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Adroddiad Interim (Ionawr 2020) yn cynnwys dadansoddiad yn seiliedig ar ddata 2018-19 gan 16 awdurdod lleol a allosodwyd i ddarparu effaith gyfanredol ledled Cymru. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn diweddarau canfyddiadau'r adroddiad interim gyda'r data 2019-20 i bob awdurdod lleol yng Nghymru.
- 4.28 Yn 2019-20, derbyniodd 275,000 o aelwydydd ostyngiad yn y dreth gyngor yng Nghymru, sy'n dangos gostyngiad pellach mewn llwyth achosion ers 2018-19. Dim ond i'r 166,000 o aelwydydd o oedran gweithio y mae diwygiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwil hon yn cael eu cymhwyso gan fod ffocws yr ymchwil ar yr aelwydydd

hynny y mae Credyd Cynhwysol yn effeithio arnynt.³⁰ Nid yw'r 109,000 o aelwydydd oedran pensiwn yn gweld effaith y Credyd Cynhwysol ac, felly, cânt eu modelu drwy'r adroddiad hwn dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol.

- 4.29 O'r aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn cymorth ar hyn o bryd, mae 40,000 yn derbyn Credyd Cynhwysol ac mae 126,000 yn derbyn budd-daliadau etifeddol.

Ffigwr 1.1: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru yn ôl Grŵp Oedran³¹



- 4.30 £269m oedd cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2019-20. Mae £109m o'r swm hwn ar gyfer cymorth i'r rhai o oedran pensiwn a £160m ar gyfer cymorth i'r rhai o oedran gweithio. Y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfartaledd ar gyfer aelwydydd oedran gweithio yn 2019-20 yw £18.60 yr wythnos.

³⁰ Mae cyplau sy'n cynnwys un person o oedran pensiwn ac un o oedran gweithio (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel Cyplau Oedran Cymysg) yn parhau i dderbyn budd-daliadau etifeddol nes bydd newid mewn amgylchiadau ac felly byddant yn cael eu cynnwys yn bennaf fel o oedran pensiwn ar gyfer yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae unrhyw hawliadau gan gyplau oedran cymysg a wneir ar ôl 15 Mai yn cael eu cyfrif fel oedran gweithio yn unol â'r rheoliadau Credyd Cynhwysol.

³¹ Ffigwr 1.1 gwerthoedd crai: budd-daliadau etifeddol oedran gweithio - 125,855; Credyd Cynhwysol oedran gweithio - 40,183; oedran pensiwn - 108,735

Mae aelwydydd oedran pensiwn yn derbyn dyfarniad cyfartalog ychydig yn uwch o £19.30 yr wythnos.

4.31 Mae aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn derbyn cymorth wythnosol is ar £16.70 yr wythnos nac aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (£19.10 yr wythnos). Mae dau brif ffactor yn gyfrifol am hyn:

- Y gyfradd tapro a lwfansau gwaith: Dan Gredyd Cynhwysol mae aelwydydd sy'n gweithio yn cadw, yn gyffredinol, gyfran uwch o'r incwm a enillir. Y rheswm dros hyn yw bod cymorth yn cael ei dynnu ar 63c am bob punt a enillir. Dan fudd-daliadau etifeddol, caiff cymorth ei dynnu ar gyfradd gyflymach (mae'r gyfradd yn dibynnu ar y budd-dal a dderbynnir). At hyn, mae Credyd Cynhwysol yn cynnwys lwfansau gweithio ar gyfer aelwydydd â phlant ac ar gyfer y rhai sy'n rhy sâl i weithio. Mae'r rhain yn symiau y gall yr aelwyd eu hennill heb unrhyw ostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a ddyfernir. Mae cadw'r incwm uwch a enillir dan Gredyd Cynhwysol oherwydd y gyfradd tapr a'r lwfansau gweithio yn golygu bod incwm aelwyd rhai enillwyr yn uwch, sy'n arwain at lai o ostyngiad yn y dreth gyngor. Ni wneir iawn am hyn gan y rhai sydd ag incwm aelwyd is oherwydd terfyn y cymorth sy'n 100% o'r atebolrwydd.
- Gwahaniaethau Demograffig: Dangosodd y dadansoddiad data a wnaed fel rhan o'r prosiect hwn fod demograffeg aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor ac yn derbyn Credyd Cynhwysol yn wahanol i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Mae'r olaf yn cynnwys cyfran uwch amlwg o'r rhai sydd yn y grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) neu y bernir bod ganddynt allu cyfyngedig ar gyfer gweithgaredd cysylltiedig â gwaith (LCWRA). Mae 14% o aelwydydd sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor ac sy'n derbyn budd-dal etifeddol yn ofalwyr ac mae 60% yn y grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (neu gyfwerth). Mae hyn yn cymharu â 6% a 15% yn y drefn honno dan Gredyd Cynhwysol. Y rheswm dros hyn yw natur cyflwyno'r Credyd Cynhwysol gan ganolbwyntio ar ei gyflwyno'n gynnar i ystod gul o hawllyr. Ers hynny, mae symud i Gredyd

Cynhwysol yn dibynnu ar newid mewn amgylchiadau ac mae hyn yn cael effaith anghymesur ar geiswyr gwaith sengl.

Tabl 1.2: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Llwyth Achosion: Cynllun Cyfredol yng Nghymru yn ôl Grŵp Oedran

Grŵp oedran	Nifer yr aelwydydd	Gostyngiad yn y dreth gyngor £ yr wythnos	Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor £ y flwyddyn
Pawb o oedran gweithio	166,000	£18.60	£160m
Aelwydydd Credyd Cynhwysol	40,000	£16.70	£35m
Aelwydydd nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol	126,000	£19.10	£125m
Oedran pensiwn	109,000	£19.30	£109m
Cyfanswm	275,000	£18.90	£269m


Dadansoddiad Demograffig o Gyfanswm Gwerth Cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Lefelau Dyfarnu yng Nghymru (Aelwydydd Oedran Gweithio)³²

Cyfansoddiad aelwydydd


- 4.32 Mae aelwydydd person sengl yn cyfrif am 49% o aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor, tra bod 42% â phlant ar yr aelwyd. Mae'r 9% sy'n weddill yn gyplau heb blant. Rhennir cyfran yr aelwydydd â phlant yn aelwydydd unig riant (30%) ac aelwydydd â dau riant (12%) (Ffigwr 1.2). Mae'r ffigyrau ar gyfer cyfran o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfernir i'r is-setiau hyn yn debyg, er ei bod yn naturiol yn amrywio ychydig, gan y bydd gwerth ariannol y cymorth yn amrywio rhwng aelwydydd (Ffigwr 1.3).
- 4.33 Mae'r gostyngiad cyfartalog wythnosol yn y dreth gyngor ar ei uchaf i gyplau heb blant, sef £22.80 yr wythnos, gydag unig rieni'n derbyn y lefel isaf o ostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor (Ffigwr 1.3). Mae modd esbonio'r gwahaniaethau hyn gydag amgylchiadau'r aelwydydd hyn. Ymhlith yr aelwydydd incwm isel a gynrychiolir yn y set ddata, mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o fod mewn gwaith. Felly, mae unig rieni'n fwy tebygol o fod mewn gwaith nac aelwydydd un person ac, o ganlyniad, yn derbyn llai o ostyngiad yn y dreth gyngor. Rhoddir mwy o ostyngiad yn y Dreth Gyngor i gyplau heb blant oherwydd bod llawer o'r aelwydydd hyn yn cynnwys rhywun sy'n rhy sâl i weithio, gyda'r partner yn ofalwr.

³² Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar setiau data SHBE a CTR awdurdodau lleol gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Mehefin 2019.

Ffigwr 1.2: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Cyfansoddiad Aelwydydd³³



Ffigwr 1.3: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Cyfansoddiad Aelwydydd




Statws economaidd

- 4.34 Mae'r mwyafrif o'r gostyngiadau yn y dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio yn cynorthwyo'r rhai nad ydynt mewn gwaith. Mae 81% o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i bobl oedran gweithio yn mynd i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith. Mae 17% o'r cymorth ar gyfer aelwydydd cyflogedig incwm isel a 2% ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig incwm isel (Ffigwr 1.4).
- 4.35 Mae'r gostyngiad wythnosol cyfartalog ar gyfer aelwydydd oedran gweithio ar ei uchaf i aelwydydd hunangyflogedig, sef £20.30 yr wythnos. Mae hyn yn cymharu â


³³ Ffigwr 1.2 gwerthoedd crai: Person sengl - 81,238; Unig riant - 49,195; Cwpl heb blant - 15,021; Cwpl gyda phlant - 20,594

£13.40 yr wythnos i aelwydydd cyflogedig (Ffigwr 1.5). Y rheswm pennaf am hyn yw llai o enillion aelwydydd hunangyflogedig nag aelwydydd cyflogedig.

Ffigwr 1.4: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Statws Economaidd ³⁴



Ffigwr 1.5: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Statws Economaidd




Band y Dreth Gyngor

- 4.36 Mae'r mwyafrif o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor oedran gweithio yn cael ei dderbyn gan aelwydydd sy'n byw mewn eiddo yn y bandiau treth gyngor is, gyda 67% o gymorth yn mynd i aelwydydd ym mand A a B (Ffigwr 1.6). Er hynny, er bod y mwyafrif o gymorth gostyngiadau'r dreth gyngor yn mynd i aelwydydd band is, mae lefel y dyfarniad wythnosol cyfartalog i aelwydydd unigol yn cynyddu gyda'r band treth gyngor (Ffigwr 1.7). Y rheswm dros hyn yw bod dyfarniadau'n seiliedig ar atebolrwydd i dalu felly mae'r rhai mewn bandiau uwch sydd ag atebolrwydd i dalu treth gyngor uwch, yn derbyn mwy o gymorth wythnosol.

³⁴ Ffigwr 1.4 gwerthoedd crai: Cyflogedig - 28,356; Budd-daliadau allan o waith - 133,672; Hunangyflogedig - 4,010

Ffigwr 1.6: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Band y Dreth Gyngor ³⁵



Ffigwr 1.7: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Band y Dreth Gyngor




Deiliadaeth


- 4.37 Mae'r gyfran fwyaf o ostyngiadau'r dreth gyngor oedran gweithio yn cefnogi aelwydydd sy'n rhentu eu heiddo. Yn y grŵp hwn, mae aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol yn derbyn 49% o'r holl gymorth ac mae'r rhai yn y sector rhentu preifat yn derbyn 22% o'r holl gymorth.
- 4.38 Mae 29% o'r holl gymorth yn mynd i berchnogion-feddianwyr ac aelwydydd nad yw eu deiliadaeth yn hysbys. Serch hynny, mae dyfarniadau wythnosol cyfartalog ychydig yn uwch i berchnogion-feddianwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r tebygolrwydd mwy o berchnogion-feddianwyr yn byw mewn eiddo ym mandiau uwch y dreth gyngor (Ffigwr 1.8 a Ffigwr 1.9).

³⁵ Ffigwr 1.6 gwerthoedd crai: A 55,827; B 55,075; C 34,881; D 12,715; E+ 7,540

Ffigwr 1.8: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru, yn ôl Deiliadaeth³⁶



Ffigwr 1.9: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Deiliadaeth




Aelwydydd sy'n agored i niwed

- 4.39 Mae aelwydydd lle mae person o oedran gweithio'n byw ag anabledd neu salwch, neu lle mae person yn gofalu am blentyn bach dan bum mlwydd oed yn cael eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith aelwydydd incwm isel. Y rheswm tebygol am hyn yw heriau a dewisiadau personol wrth geisio cael gwaith, neu'r tebygolrwydd uwch o waith rhan-amser. Mae 66% o werth cymorth gostyngiadau'r dreth gyngor cyngor cyfredol ar gyfer aelwydydd oedran gweithio yn cael ei dderbyn gan aelwydydd sy'n dod o fewn y categorïau hyn (Ffigwr 1.10).
- 4.40 Mae unig rieni sydd â phlentyn dan 5 mlwydd oed yn derbyn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor wythnosol is na'r cyfartaledd ar draws pob grŵp oedran gweithio, gyda dyfarniad cyfartalog o £17.40 yr wythnos (Ffigwr 1.11). Mae hyn yn is na dyfarniadau treth gyngor i'r rhai sy'n sâl, sy'n byw ag anabledd, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Y rheswm dros hyn yw'r tebygolrwydd uwch bod unig rieni mewn gwaith na grwpiau bregus eraill. At hyn, mae'r asesiad o anghenion

³⁶ Ffigwr 1.8 gwerthoedd crai: Rhentu cymdeithasol 80,878; Rhentu preifat 37,099; Y gweddill: Perchen-feddianwyr a'r ddeiliadaeth yn anhysbys 48,061

grwpiau bregus eraill yn uwch nag ar gyfer unig rieni gan ei fod yn ymgorffori symiau ychwanegol penodol oherwydd salwch neu ofalu.

Ffigwr 1.10: Cyfran Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018-19 ar gyfer Aelwydydd Bregus, yn ôl Math o Aelwyd Fregus³⁷



Ffigwr 1.11: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2019-20, yn ôl Math o Aelwyd sy'n Agored i Niwed



Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2021-22

- 4.41 Mae rhagfynegiadau ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar lwyth achosion cyfredol. Mae'n werth nodi bod cynnydd mawr mewn llwyth achosion yn ddisgwyliedig o ganlyniad i effeithiau economaidd y pandemig COVID-19. Mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar lwyth achosion (ac felly, cost). Rhwng 1 Mawrth 2020 a 5 Mai 2020, roedd dwy filiwn o hawliadau newydd am Gredyd Cynhwysol ledled y Deyrnas

³⁷ Noder gall yr aelwyd berthyn i sawl categori sy'n agored i niwed. I'r perwyl hwn, mae Ffigwr 1.10 yn cynrychioli cyfran cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor a gynrychiolir o fewn pob categori yn hytrach na llwyth achosion. Pe bai ffigyrau llwyth achosion yn cael eu defnyddio byddai'n goramcangyfrif y nifer o aelwydydd sy'n agored i niwed yn llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru.

Unedig.³⁸ Nid yw'n bosib rhagfynegi faint o'r hawliadau hyn fydd yn parhau unwaith y mae effeithiau economaidd COVID-19 yn dechrau lleddfu. Yng ngoleuni hyn, mae modelu 2020-21 yn seiliedig ar y llwyth achosion cyn i effeithiau economaidd y pandemig ddechrau ymddangos. Nid yw mesurau i gynyddu haelioni Credyd Cynhwysol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2020 mewn ymateb i COVID-19 wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae hyn oherwydd bod trefniadau i ddod â'r rhain i ben cyn Ebrill 2021, gyda budd-daliadau yn dychwelyd i'r lefelau blaenorol.

- 4.42 Yn seiliedig ar lefel llwyth achosion cyn COVID-19, byddai cynnal y cynllun cyfredol yn 2021-22 yn cynyddu cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn o £269m yn 2019-20 i £294m yn 2021-22 oherwydd codiadau mewn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Mae hyn yn gynydd o £25m neu 9% yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor (Tabl 1.3).
- 4.43 Pe bai Llywodraeth Cymru yn cadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22, byddai nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yn lleihau ychydig o'i gymharu â 2019-20, gyda 1,660 o aelwydydd amcangyfrifedig yn colli'r cymorth hwn yn gyfan gwbl. Daw colli cymorth yn sgil cyfuniad o ffactorau, yn cynnwys cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol a'r gostyngiad mewn cymorth i aelwydydd wrth iddynt ymfudo i Gredyd Cynhwysol.

³⁸ [Universal Credit management information tables: 1 March to 5 May 2020](#) (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 12 Mai 2020)

Tabl 1.3: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Cyfanswm Blynyddol Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor pe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw yn 2021-22 <i>Noder: mae'n bosib na fydd y cyfansymiau yn adio o ganlyniad i dalgrynnu</i>		Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol <i>Noder: mae'n bosib na fydd y cyfansymiau yn adio o ganlyniad i dalgrynnu</i>	
Grŵp	£ y flwyddyn	Newid (£ y flwyddyn)	Newid (%)
Pawb o oedran gweithio	£173m	£13m	8%
Oedran pensiwn	£120m	£11m	10%
Cyfanswm	£294m	£25m	9%

- 4.44 Byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor yn cynyddu 8% yn 2021-22 i aelwydydd oedran gweithio o'i gymharu â 10% i aelwydydd oedran pensiwn. Mae'r gwahaniaeth mewn cynnydd rhwng aelwydydd o oedran gweithio ac aelwydydd oedran pensiwn yn bennaf oherwydd y gostyngiad llai yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio o dan Gredyd Cynhwysol, gan adlewyrchu'r ffaith bod mwy o'r incwm a enillir yn cael ei gadw yn y system Credyd Cynhwysol. At hyn, bydd y codiadau arfaethedig yn yr isafswm cyflog cenedlaethol a'r lwfans treth personol erbyn 2021-22 yn cynyddu enillion ac felly'n gostwng nifer yr aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor (Tabl 1.3).
- 4.45 Y gostyngiad yn y dreth gyngor wythnosol ar gyfartaledd ar gyfer aelwydydd oedran gweithio yn 2021-22 yw £1.70 yr wythnos yn fwy na lefelau 2019-20 (Tabl 1.4). Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd aelwydydd ar eu hennill o ran y gostyngiad yn y dreth gyngor, yn bennaf oherwydd codiadau yn y dreth gyngor (edrychir ar hyn isod).

Tabl 1.4: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Lefelau Gostyngiad Wythnosol

Grŵp	Gostyngiad yn y dreth gyngor o dan y cynllun cyfredol yn 2021-22 (£ yr wythnos)	Newid o'i gymharu â 2019-20 (£ yr wythnos)	Newid (%)
Pawb o oedran gweithio	£20.00	£1.40	8%
Credyd Cynhwysol	£18.40	£0.90	5%
Budd-daliadau etifeddol	£21.00	£1.90	10%
Oedran pensiwn	£21.40	£2.10	11%
Cyfanswm	£21.00	£1.70	9%

- 4.46 Mae aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o 10% ar gyfartaledd yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor (£1.90 yr wythnos). Mewn cymhariaeth, mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu 5% (£0.90 yr wythnos) ar gyfartaledd. Mae'r cynnydd i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn unol â'r cynnydd yng nghodiad y dreth gyngor rhwng 2019-20 a 2020-21 (10% ar gyfartaledd ar draws yr holl awdurdodau lleol). Fodd bynnag, mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd o 5% yn is na'r codiad yn y dreth gyngor. Y rheswm dros y gwahaniaeth hwn yw bod llawer o'r aelwydydd hyn wedi'u modelu fel rhai sy'n ymfudo i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau etifeddol ac, felly, yn cael eu hasesu dan ddarpariaethau'r Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf.
- 4.47 Disgwylir gostyngiad ar gyfartaledd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd:

- Cadw mwy o enillion a lwfans gwaith mwy hael dan Gredyd Cynhwysol, sy'n arwain at ostwng mwy ar swm y dyfarniad oherwydd y gyfradd tapro.
- Gwahaniaethau yn elfen "anghenion" yr asesiad dan Gredyd Cynhwysol. Cafwyd gwared â phremiymau anabled a chyflwynwyd darpariaethau diwygio lles eraill, megis y terfyn dau blentyn, cael gwared ar bremiwm Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, a chael gwared ar yr hyn sy'n cyfateb i'r premiwm teulu.
- Cyflwyno Terfyn Isaf yr Isafswm Incwm ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig. Cafwyd gwared ar y mesur hwn ar gyfer 2020-21 mewn ymateb i COVID-19 ond mae disgwyl iddo gael ei ailgyflwyno erbyn 2021-22.
- Dileu diystyru enillion ar gyfer asesu gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

4.48 Mae'n werth nodi, i rai aelwydydd, yn enwedig y rhai sy'n ennill a hefyd nad ydynt yn cael eu heffeithio gan ddiwygiadau lles eraill, mae cadw mwy o enillion o dan Gredyd Cynhwysol yn golygu efallai na fyddant yn waeth eu byd yn gyffredinol.

Effeithiau Cynnal y Cynllun Cyfredol yn 2021-22

4.49 Pe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gynnal hyd 2021-22, ar gyfartaledd, byddai aelwydydd oedran gweithio'n gweld cynnydd o 8% yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae hyn yn ystyried y codiadau y mae eu disgwyl yn y dreth gyngor ym mhob awdurdod lleol erbyn 2021/22.³⁹ Y cynnydd cyfartalog cyffredinol yn y dreth gyngor ledled Cymru yw 5% y flwyddyn ac 10% dros y tair blynedd.⁴⁰ O'i gymharu â'r cynnydd cyfartalog hwn yn y dreth gyngor o 10%, mae'r cynnydd cyfartalog yn y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor o 8% i bobl o oedran gweithio yn cynrychioli gostyngiad bach mewn gwirionedd yn y gefnogaeth gyfartalog.

³⁹ Mae codiadau yn y dreth gyngor ar gyfer 2019 i 2021 yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob awdurdod lleol yn seiliedig ar y codiad yn y dreth gyngor yn y 3 blynedd flaenorol

⁴⁰ Noder yn yr adroddiad interim mai 16% oedd y cynnydd cyfartalog mewn atebolrwydd. Roedd hyn o ganlyniad i ragamcanu cynnydd yn y dreth gyngor dros dair blynedd (2018 i 2021) lle mae'r modelu yn yr adroddiad hwn yn rhagamcanu dwy flynedd i'r dyfodol yn unig (2019 i 2021) wrth fod data ychwanegol wedi'i gynnwys.

4.50 Mae'r gwahaniaeth rhwng y codiadau y mae eu disgwyl mewn gostyngiadau yn y dreth gyngor ac atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor yn ymylol (<1%) i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r rhai sydd eisoes yn derbyn Credyd Cynhwysol yn 2019-20. Fodd bynnag, bydd aelwydydd sy'n ymfudo i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau etifeddol rhwng 2019-20 a 2021-22 yn gweld cynnydd yn y cymorth, sef 4% yn is na chyfradd y cynnydd mewn atebolrwydd. Mae'r gwahaniaeth hwn oherwydd y bydd y rheiny sy'n symud i Gredyd Cynhwysol am y tro cyntaf, ar gyfartaledd, yn derbyn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor is. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau yn yr asesiad o ostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol a chadw mwy o incwm a enillir.

Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl statws economaidd


- 4.51 Byddai aelwydydd oedran gweithio ledled Cymru sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn gweld cynnydd o 1% ar gyfartaledd yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor, sy'n sylweddol is na'r cynnydd cyfartalog o 10% a ddisgwylir yn y dreth gyngor. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gostwng o'i gymharu â lefelau cyfredol. Byddai aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld gostyngiad o £1.40 yr wythnos, neu 13%. Mewn cymhariaeth, byddai aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o £1.50 yr wythnos neu 10%. Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw'r asesiad gwahanol o'r swm ar gyfer costau byw ac incwm rhwng y ddwy drefn fudd-daliadau.
- 4.52 Mae'r cyfartaledd cyffredinol ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio yng Nghymru yn dangos cynnydd bach a'r rheswm am hynny yw bod y rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn llawer uwch na'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.
- 4.53 Mae aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld gostyngiad o £14.00 yr wythnos neu 69% yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfartaledd (Ffigwr 1.12).⁴¹ Y rheswm am hyn yw bod 82% o aelwydydd

⁴¹ Canfu'r adroddiad interim y byddai aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld gostyngiad yn eu dyfarniad o 79%. Mae hyn yn bennaf oherwydd enillion uwch ymhlith y rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn y

hunangyflogedig sydd wedi'u modelu fel rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn 2021-22 wedi ymfudo ar draws i'r budd-dal rhwng 2019-20 a 2021-22. O ganlyniad, mae'r aelwydydd hunangyflogedig hyn yn ddarostyngedig i'r Llawr Isafswm Incwm am y tro cyntaf. I'r aelwydydd hyn, mae incwm yn seiliedig ar swm tybiannol a ddaw o'r isafswm cyflog cenedlaethol sy'n uwch na'r enillion hunangyflogedig y rhoddir gwybod amdanynt ac a ddefnyddir i asesu budd-daliadau etifeddol. Bydd aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol ac, felly, nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Llawr Isafswm Incwm, yn gweld cynnydd o £2.10 yr wythnos neu 11% yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor.

- 4.54 Bydd aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith, p'un a ydynt yn derbyn budd-daliadau etifeddol neu Gredyd Cynhwysol, yn gweld cynnydd yn eu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor sydd yn fras yn unol â'r cynnydd mewn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor (Ffigwr 1.12). Bydd yr aelwydydd hyn yn parhau i gael gostyngiad yn y dreth gyngor ar sail 100% o'u hatebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor, namyn unrhyw ddiidyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion.
- 4.55 Bydd y gyfran fawr o aelwydydd sydd allan o waith ac yn y set ddata oedran gweithio yn golygu bod aelwydydd oedran gweithio, ar gyfartaledd, yn gweld cynnydd yn eu dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor erbyn 2021-22, er gwaethaf y gostyngiad a brofir gan y rhai sy'n gyflogedig ac yn hunangyflogedig ac ar Gredyd Cynhwysol, fel y trafodir uchod.

Ffigwr 1.12: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Statws Economaidd ar gyfer Aelwydydd Oedran Gweithio




Gwahaniaethau yn ôl cyfansoddiad aelwydydd

- 4.56 Bydd aelwydydd oedran gweithio sydd mewn gwaith (mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gyflogedig ac yn hunangyflogedig gyda'i gilydd) yn gweld y golled fwyaf mewn cymorth wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol (Ffigwr 1.13). Ymhlith yr aelwydydd incwm isel sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor ac a gynrychiolir yn y data sydd ar gael, mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o weithio nac aelwydydd heb blant. Felly, mae cyplau â phlant yn fwy tebygol o weld colli cymorth cyfartalog wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. I lawer o'r aelwydydd hyn, gwneir iawn am y

golled o ran y gostyngiad yn y dreth gyngor drwy'r incwm uwch a ddaw o Gredyd Cynhwysol.⁴²

Ffigwr 1.13: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Math o Aelwyd



Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl salwch neu statws anabledd


4.57 Yn 2021-22, bydd y newid cyfartalog ar gyfer pob aelwyd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol lle mae person yn rhy sâl i weithio, neu'n derbyn budd-dal anabledd, yn gynydd o 8% ar y lefelau gostyngiadau'r dreth gyngor cyfredol.

⁴² Pan rennir yn ôl math o aelwyd, mae newidiadau i ddyfarniadau yn 2021-22 i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn wahanol yn yr adroddiad hwn o'i gymharu â'r un interim. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y modelu yn edrych dwy flynedd i'r dyfodol ac nid tair blynedd (2019 i 2021 o'i gymharu â 2018 i 2021). Mae'r gwahaniaethau sy'n weddill rhwng yr adroddiadau o ganlyniad i lwyth achosion yn newid. Roedd 9,000 o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn ychwanegol yn y data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn o'i gymharu â'r adroddiad interim (y bydd y rhan fwyaf ohonynt wedi ymfudo i lwyth achosion budd-daliadau etifeddol).

Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd oedran gweithio ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol (5%). Mae'r ddau islaw'r cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor (10%) (Ffigwr 1.14).

- 4.58 Erbyn 2021-22, bydd y mwyafrif o aelwydydd lle caiff person ei ystyried yn rhy sâl i weithio neu i baratoi ar gyfer gwaith (h.y. y rhai yn y grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu dan Gredyd Cynhwysol y bernir bod ganddynt Allu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith (LCWRA)) hefyd yn gweld lefel gyfartalog eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu. Fodd bynnag, bydd nifer o aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol neu Lwfans Byw i'r Anabl yn wynebu lleihad yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw nad yw asesiad o gostau byw dan Gredyd Cynhwysol yn efelychu symiau ychwanegol (premiymau anabledd) sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad ar gyfer y rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Ni fydd y rhai sy'n derbyn budd-daliadau anabledd ac yn gweithio'n cael eu dosbarthu fel rhai sydd â Gallu Cyfyngedig i Weithio, ac felly ni fyddant yn elwa o'r elfen Gallu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith o fewn Credyd Cynhwysol, a fydd yn gwneud iawn am golli premiymau anabledd i aelwydydd eraill. Bydd hyn yn arwain at aelwydydd sy'n derbyn budd-dal anabledd yn gweld eu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn gostwng 22%.
- 4.59 Ar hyn o bryd, mae darpariaeth yn ei lle i sicrhau nad yw'r rhai sy'n derbyn budd-dal anabledd ac nad oes neb yn darparu gofal ar eu cyfer yn cael eu symud i Gredyd Cynhwysol hyd nes bod trefniant amddiffyn wrth bontio yn ei le. Mae hyn yn rhoi gwarchodaeth i'r rhai hynny sy'n derbyn Premiwm Anabledd Difrifol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni chaiff y warchodaeth hon ei hymestyn i'r rhai hynny sy'n derbyn premiymau anabledd eraill (megis y premiwm anabledd, y premiwm plentyn anabl neu'r premiwm anabl uwch) dan fudd-daliadau etifeddol.

Ffigwr 1.14: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Statws Anabledd



Diwygiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

4.60 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried diwygio'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol i gynnal hawliadau i gefnogi lle bo'n bosib. Er mwyn llywio dyluniad y cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddadansoddiad o effaith chwe diwygiad gwahanol i'r cynllun; cafodd y rhain eu darparu yn yr Adroddiad Interim⁴³ ac maent wedi'u crynhoi a'u diweddarau yn Atodiad 4. Dewiswyd y chwe model i gwrdd ag un neu'r ddau amcan a bennwyd gan Lywodraeth Cymru: i sicrhau tegwch cefnogaeth a chynnal llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd incwm isel. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried canfyddiadau'r

⁴³ [Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru: adroddiad interim](#) (Llywodraeth Cymru, 9 Ionawr 2020)

modelau interim ac wedi'u defnyddio i lywio dyluniadau'r ddau fodel a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

- 4.61 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried newidiadau i'r cynllun yn bennaf mewn ymateb i effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Mae'n dymuno sicrhau tegwch rhwng dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, yn ogystal â sicrhau y caiff llwyth achosion ei gynnal. Mae hyn yn peri pryder arbennig o ystyried effaith bosibl Credyd Cynhwysol ar lwyth achosion.
- 4.62 Mae modelu'n berthnasol i'r flwyddyn 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis eleni er mwyn rhoi'r amcangyfrif gorau o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ac ystyried effaith ymfudo i Gredyd Cynhwysol.
- 4.63 Mae incwm, cyfraddau budd-daliadau, rhenti, atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor ac ymfudo i Gredyd Cynhwysol wedi'u huwchraddio i bob model yn yr un modd â gyda gwaith modelu'r cynllun cyfredol hyd 2021-22⁴⁴:
- Er mwyn galluogi cymharu cynlluniau wedi'u modelu yn erbyn y cynllun cyfredol yn 2021-22, mae cynnydd blynyddol tybiedig yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys. Mae cyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor a ddefnyddir yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer pob cyngor dros y tair blynedd diwethaf. Caiff hon ei chymhwyso, ar wahân, i dâl treth gyngor pob cyngor cyn dadansoddi data. Nodir yn Atodiad 3 y codiadau yn y dreth gyngor a ddefnyddir yn y gwaith modelu.
 - Cynhwysir lefel dybiedig o ymfudo i Gredyd Cynhwysol hefyd. Bydd modelu yn cynnwys ymfudiad disgwylidig o 15.5% o aelwydydd ychwanegol i Gredyd Cynhwysol erbyn 2021-22. Cytunwyd ar yr amcangyfrif hwn gyda Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020 ac mae'n seiliedig ar y lefelau a arsylwyd o 10% y flwyddyn yn cael eu cario drwodd i 2021-22, a rhagdybiaeth o lefelau ymfudo yn

⁴⁴ Mae'r holl waith modelu ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar lwyth achosion y flwyddyn gyfredol (2019-20). Fel y cyfryw, nid yw gwaith modelu'n ystyried unrhyw newid yng nghynrychiolaeth gyfrannol gwahanol fathau o aelwydydd neu aelwydydd a allai ddod â hawl i gefnogaeth rhwng 2019-20 a 2021-22.

gostwng i 5% y flwyddyn erbyn 2021-22. Ni ystyrir effaith y pandemig COVID-19 ar lwyth achosion Credyd Cynhwysol.

- Mae modelu ar gyfer 2021-22 yn cynnwys newidiadau tebygol i gyfraddau cymorth lles, yr isafswm cyflog cenedlaethol, lwfansau treth, cyfraddau Lwfans Tai Lleol, costau rhent, a newid rheoliadol hysbys. Mae cyfraddau budd-daliadau'n unol â'r mesur chwyddiant a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynyddu budd-daliadau (y codiad blynyddol a ddefnyddir gyda chyfraddau budd-daliadau, ym mis Ebrill fel arfer). Mae newidiadau eraill yn cael eu llywio gan ragfynegiadau o gyfradd chwyddiant a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol⁴⁵. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi'u modelu gan dybio y daw unrhyw uwchraddio o'r lefel sylfaen gyfredol yn hytrach nag o ddychwelyd i gyd-fynd â'r drydydd ddegradd o daliadau rhent.

4.64 Mae'r canfyddiadau allweddol ar gyfer y chwe model a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Interim wedi cael eu diweddarau i gynnwys data 2019-20 gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ac fe'u ceir yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

4.65 Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad ychwanegol o ddiwygiadau pellach i fodelu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Y rhain yw:

- Diwygiad i'r gyfradd tapr.
- Diwygiadau i atal ailasesu o dan Gredyd Cynhwysol am newidiadau bychain i incwm (newidiadau "de minimis").

Diwygio'r Tapr

4.66 Darparodd yr Adroddiad Interim asesiad o effaith diwygio'r gyfradd tapr. Ailedrychir ar y diwygiad hwn yn yr adroddiad hwn gan ddefnyddio data mwy cyfredol a chynnwys data gan bob un o 22 awdurdod lleol Cymru.

4.67 Ar hyn o bryd, caiff uchafswm y gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd yng Nghymru ei ostwng gan ddefnyddio cyfradd tapr wedi'i gosod ar 20%. Hynny yw,

⁴⁵ [Economic and fiscal outlook – March 2020](#) (Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 11 Mawrth 2020)

am bob punt o incwm sydd gan aelwyd sydd uwchlaw eu 'hanghenion' asesedig, mae cymorth gyda'r dreth gyngor yn gostwng £0.20. Mae'r gostyngiad hwn mewn cymorth gyda'r dreth gyngor yn eistedd ochr yn ochr â thaprau eraill sy'n berthnasol i fudd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd:

- **Budd-daliadau Etifeddol:** Bydd aelwydydd sy'n derbyn Budd-dal Tai yn gweld eu Budd-dal Tai yn gostwng £0.65 am bob punt ychwanegol o incwm sydd ganddynt. Byddai aelwydydd sydd hefyd yn derbyn credydau treth yn gweld eu credydau treth yn gostwng £0.41 am bob punt ychwanegol. Mae'r rhain yn gweithio ochr yn ochr â throthwyon a diystiriadau gwarchodol amrywiol ond, er hynny, ni fydd rhai aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld unrhyw gynnydd yn incwm yr aelwyd gydag enillion uwch.
- **Credyd Cynhwysol:** Mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld Credyd Cynhwysol yn gostwng £0.63 am bob punt ychwanegol. Nid yw hyn yn berthnasol oni bai bod enillion yn uwch na lwfansau gweithio (mae'r rhain yn symiau y gellir eu hennill cyn i fudd-dal gael ei leihau ac yn berthnasol i aelwydydd â phlant neu'r rheiny nad oes disgwyl iddynt weithio oherwydd salwch).

- 4.68 Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau cynyddu haelioni cynllun a sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yn cadw mwy o'u hincwm. Mae'r model hwn yn diwygio'r gyfradd tapr, a ddefnyddir i dynnu gostyngiad yn y dreth gyngor, o'r 20% cyfredol i 10%, fel bod cymorth yn cael ei dynnu'n ôl yn arafach wrth i enillion godi. Bydd y model hwn yn cynyddu cymhellion gweithio hefyd.
- 4.69 Mae'r model hwn yn berthnasol i aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol. Bydd yn cael effaith ar y rheiny'n unig sydd ag incwm uwchlaw eu 'hanghenion' asesedig (h.y. aelwydydd sydd, bron yn ddieithriad, yn gweithio) ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar lefel y gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith.
- 4.70 Mae gwaith dadansoddi'n berthnasol i aelwydydd oedran gweithio yn unig gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol, sy'n cael effaith ar ostyngiad treth gyngor aelwydydd oedran gweithio'n unig. Gallai Llywodraeth Cymru

ystyried ymestyn newidiadau mewn cyfraddau tapro i aelwydydd oedran pensiwn ond mae hyn y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 1.5: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor y Model (£ y flwyddyn) gyda'r Tapr wedi'i Ostwng i 10%

	Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp ⁴⁶	£ y flwyddyn	Newid £ y flwyddyn	Newid %	Newid £ y flwyddyn	Newid %
Pawb o oedran gweithio	£182m	£21m	13%	£8m	5%
Cyfanswm	£302m	£33m	12%	£8m	3%

4.71 Bydd gostwng y gyfradd tapro i 10% yn golygu mai £302m y flwyddyn erbyn 2021-22 fyddai cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn. Mae hyn yn £8m y flwyddyn yn fwy na phe bai'r tapr yn cael ei gadw ar y lefel gyfredol (Tabl 1.5).

⁴⁶ I aelwydydd oedran gweithio'n unig y mae diwygiadau i'r cynllun yn berthnasol gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Mae pob model yn cynhyrchu cynnydd o 10% (£11m) yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn o'i gymharu â'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth pan fydd y cynllun cyfredol yn cael ei uwchraddio hyd at 2021-22.

Llwyth achosion

- 4.72 Mae newidiadau i'r gyfradd tapr yn cael effaith ar aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol ac sydd ag incwm sy'n uwch na'u hanghenion a aseswyd.
- 4.73 Amcangyfrifir y bydd y mesur hwn yn cael effaith ar 26,700 o aelwydydd oedran gweithio ar draws Cymru (Tabl 1.6).
- 4.74 Mae'r mesur hwn yn cynyddu haelioni cynllun ac mae'n debygol y bydd llwyth achosion yn cynyddu.⁴⁷ Efallai y bydd aelwydydd sy'n gweithio gydag incwm sy'n rhy uchel ar gyfer cymorth cyfredol, yn gymwys i gael cymorth gyda chyfradd tapr is.

Yr Effaith ar Ddyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor Wythnosol y rhai y mae'r Mesur hwn yn Effeithio Arnynt

- 4.75 Mae gostwng y gyfradd tapr yn cael effaith ar aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol gydag incwm sy'n uwch na'r anghenion a aseswyd.
- 4.76 Pe bai'r gyfradd tapr yn cael ei gostwng i 10%, byddai'r aelwydydd yr effeithir arnynt yn gweld cynnydd mewn cymorth o £6.00 yr wythnos ar gyfartaledd (50%) o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22 (Tabl 1.6).

⁴⁷ Gwneir gwaith modelu ar yr aelwydydd hynny sydd eisoes wedi'u cynrychioli yn y setiau data SHBE a CTS sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly ni all gwaith modelu ystyried unrhyw lwyth achosion ychwanegol a allai ddeillio o ddiwygio cynllun. Gall amcangyfrifon cost fod yn danamcangyfrifon felly.

Tabl 1.6: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar gyfartaledd, £ yr wythnos, gyda'r Tapr ar 10% (Aelwydydd yr Effeithir arnynt yn Unig)

	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog aelwyd	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21	
Grŵp		£/yr wythnos	Newid £/yr wythnos	Newid %
Credyd Cynhwysol	14,300	£16.70	£6.30	60%
Budd-daliadau etifeddol	12,390	£18.90	£5.50	41%
Pawb o oedran gweithio	26,690	£17.70	£5.90	50%

4.77 Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol y mae'r newid hwn yn effeithio arnynt yn gweld cynnydd cyfrannol ychydig yn uwch mewn cymorth gyda'r dreth gyngor (60%) na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (41%). Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cadw cyfran uwch o'u henillion, felly, bydd ganddynt fwy o incwm uwchlaw anghenion a aseswyd, yn ddarostyngedig i'r tapr. Hyd yn oed wrth ailddosbarthu'r gostyngiad hwn yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, mae aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt, yn cadw lefelau cymorth uwch ar £18.90 yr wythnos ar gyfartaledd o'i gymharu â £16.70 yr wythnos ar gyfartaledd i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Ceir dadansoddiad o ganlyniadau yn ôl awdurdod lleol yn Atodiad 5.

4.78 Gan mai ar aelwydydd ag incwm uwchlaw anghenion a aseswyd yn unig y mae'r newidiadau i'r gyfradd tapr yn cael effaith, aelwydydd sy'n gweithio yw'r mwyafrif llethol o'r rhain yn bennaf. Mae aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd sylweddol o 161% mewn cymorth, ar gyfartaledd. Y rheswm am hyn yw'r gostyngiad isel iawn y mae'r aelwydydd hyn yn ei dderbyn yn y dreth gyngor os cedwir y cynllun cyfredol hyd 2021-22 (oherwydd defnyddio Llawr Isafswm Incwm). Felly, mae'r cynnydd yn ostyngiad y dreth gyngor yn sgil y tapr

gostyngedig yn gyfrannol fwy nag i aelwydydd eraill sy'n gweithio. Hyd yn oed gyda'r cynnydd hwn, mae'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (£13.50 yr wythnos ar gyfartaledd) yn parhau i fod yn sylweddol is nag i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (£21.90 yr wythnos ar gyfartaledd).

- 4.79 Mae aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hefyd yn gweld cynnydd cyfartalog sylweddol mewn cymorth gyda'r dreth gyngor o 70% o'i gymharu â chynnydd o 45% ar gyfartaledd i aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Unwaith eto, y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw effaith gyfrannol y cynnydd ar ddyfarniadau dechrau is.

Yr Effaith ar Aelwydydd sy'n Agored i Niwed

- 4.80 Mae aelwydydd lle mae person yn sâl, yn anabl neu â chyfrifoldebau gofalu yn llai tebygol o fod mewn gwaith ac, felly mae gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer y grwpiau hyn yn llai tebygol o gael ei effeithio gan y newid yn y gyfradd tapr. Fodd bynnag, ar gyfer yr aelwydydd bregus hynny sy'n gweithio, ac y mae'r mesur hwn, felly, yn cael effaith arnynt, mae'r cynnydd mewn gostyngiad yn y dreth gyngor yn sylweddol. Mae aelwydydd y mae'r mesur yn cael effaith arnynt, lle mae person yn sâl neu'n anabl, neu'n ofalwr, yn gweld codiadau o 35% ar gyfartaledd. Er hynny, mae'r codiadau hyn yn is na'r cynnydd ar draws yr holl aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt. Mewn cyferbyniad, mae unig rieni sydd â phlentyn dan 5 oed sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd mwy (79%) na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl aelwydydd y caiff y mesur effaith arnynt (50%).

Effaith credyd cynhwysol ar aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt

- 4.81 Mae'r mesur tapr yr un mor berthnasol i aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ag ydyw i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Bydd yn cynyddu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor ac, felly, incwm aelwydydd i bob aelwyd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol ac i fwyafrif yr aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn budd-daliadau etifeddol.

- 4.82 Mae aelwydydd cyflogedig yn debygol o gael cymorth gyda budd-daliadau wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd yr incwm uwch a enillir ac a gedwir. Pe câi'r mesur hwn ei gyflwyno, byddai'r aelwydydd hyn yn ennill incwm drwy Gredyd Cynhwysol a chymorth gyda'r dreth gyngor.
- 4.83 Gallai'r Llawr Isafswm Incwm gael effaith ar aelwydydd hunangyflogedig pan fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol ac, felly, gallent weld gostyngiad yn y dreth gyngor a Chredyd Cynhwysol. Bydd cyfradd tapr is yn gwneud iawn am rywfaint o'r golled hon mewn gostyngiad yn y dreth gyngor.

Yr effaith ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio

- 4.84 Ar draws pob aelwyd oedran gweithio mae'r gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu 5%. Nid yw'r mesur hwn yn effeithio ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith ac felly mae'r cynnydd cyfartalog ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio'n sylweddol is na'r cynnydd ar gyfer aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt (cynnydd cyfartalog o 49%).
- 4.85 Ymhlith yr aelwydydd incwm isel a gynrychiolir yn y set ddata, mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o fod mewn gwaith nac aelwydydd heb blant. Wrth i ostyngiad yn y gyfradd tapr gynyddu cymorth i aelwydydd sy'n gweithio, mae, felly, yn cael effaith eilaidd o gynyddu'r dyfarniad cyfartalog i aelwydydd oedran gweithio â phlant. Ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio, mae cyplau â phlant yn gweld cynnydd o 10% ac unig rieni'n gweld cynnydd cyfartalog o 7%.⁴⁸

⁴⁸ Dan y model hwn, byddai cyplau gyda phlant yn gweld cynnydd o 10%. Roedd disgwyl i hwn fod yn 7% yn yr adroddiad interim. Mae'r gwahaniaeth rhwng adroddiadau o ganlyniad i gyplau gyda phlant yn derbyn incymau uwch yn y data ar gyfer yr adroddiad terfynol ac, felly, mae'r tapr yn cael mwy o effaith na dybiwyd yn wreiddiol.

Tabl 1.7: Model 2: Aelwydydd y mae'r newid yn y Gyfradd Tapr yn cael effaith arnynt - Canfyddiadau Allweddol

Nifer yr aelwydydd	26,700 o aelwydydd
Pwy sy'n cael eu heffeithio?	Aelwydydd Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol sydd ag incwm uwchlaw anghenion a aseswyd. Aelwydydd sy'n gweithio'n bennaf.
Newid cyfartalog yn y dyfarniad ar gyfer aelwydydd yr effeithir arnynt	• Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd o £6.30 yr wythnos o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22 • Mae aelwydydd budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o £5.50 yr wythnos o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22
Newid yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau	Cynnydd o £8m y flwyddyn yn 2021-22
Llwyth Achosion	Gall aelwydydd ag enillion uwchlaw'r lefel ar gyfer cymhwysedd cyfredol ddod yn gymwys i gael cymorth a gall y llwyth achosion gynyddu. ⁴⁹
Aelwydydd Credyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol	• Mae'r mesur hwn yr un mor berthnasol i aelwydydd Credyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol. • Mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar eu hennill fwy (£6.30 yr wythnos) na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (£5.50 yr wythnos). Mae'r gwahaniaeth hwn oherwydd bod aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cadw lefelau uwch o incwm a enillir ac felly'n cael mwy o incwm yn cael ei effeithio gan y gyfradd tapr. Efallai y bydd aelwydydd Credyd Cynhwysol mewn cyflogaeth yn gweld incwm cartref uwch drwy Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor pe câi'r mesur hwn ei gyflwyno. Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol sy'n hunangyflogedig yn debygol o weld incwm cartref is o dan Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor. Bydd y mesur hwn yn gwneud iawn am rywfaent o'r golled hon.

⁴⁹ Gwneir dadansoddiad o'r aelwydydd hynny y mae awdurdodau lleol yn cadw data arnynt ar hyn o bryd. Ni all y dadansoddiad ragweld aelwydydd a allai ddod yn gymwys i gael cymorth ar ôl cyflwyno'r newid gan nad yw'r aelwydydd hyn yn cael eu cynrychioli yn y set ddata.

Atal Ailasesu am Newidiadau Bychain i Incwm o dan Gredyd Cynhwysol

- 4.86 O dan Gredyd Cynhwysol, asesir incwm yn fisol, yn seiliedig ar ddata a geir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan CThEM mewn cyfnod asesu (mis calendr). O'i gymharu, caiff incwm ar gyfer hawliadau budd-daliadau etifeddol ei gyfartalu ar draws y cyfnod mwyaf priodol.⁵⁰ Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwain at newid incwm yn amlach o dan Gredyd Cynhwysol. Gan fod newid mewn incwm yn sbarduno ailasesiad o ostyngiad yn y dreth gyngor, golyga hyn fod asesuadau mwy aml o ostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol nag o dan fudd-daliadau etifeddol.
- 4.87 I gynghorau, mae'r nifer cynyddol hwn o ailasesiadau ar gyfer dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol yn arwain at gostau gweinyddol uwch. Teimlir y cynnydd yn y gost drwy'r broses, o ailasesu i filio ychwanegol ac ymholiadau ychwanegol gan breswylwyr. Ar gyfer y rheiny sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol, gall hyn arwain at ddryswch ynglŷn â'u hatebolrwydd y dreth gyngor gweddilliol.
- 4.88 Yn Lloegr, mae rhai cynghorau wedi lleddfu'r effaith hon drwy gyflwyno rheolau de minimis. Golyga hyn yr anwybyddir newidiadau mewn incwm islaw trothwy penodol at ddibenion gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau sydd wedi cyflwyno rheolau de minimis wedi gosod y lefel ar oddeutu £5 yr wythnos.
- 4.89 Dymuna Llywodraeth Cymru ddeall y baich gweinyddol ychwanegol a achosir gan ailasesiadau mwy aml dan Gredyd Cynhwysol ac effaith debygol trothwy de minimis.

Methodoleg

- 4.90 Er mwyn deall newid mewn incwm aelwyd dros amser, ac felly, yr ailasesiadau mwy aml o ostyngiad yn y dreth gyngor sy'n gysylltiedig â hynny, roedd data SHBE a

⁵⁰ Fel rheol mae hyn dros 2 fis i amllder talu misol, dros 5 wythnos i amllder talu wythnosol ac yn flynyddol i enillion tymhorol. Fodd bynnag, gall hyn amrywio yn dibynnu ar unfurfaeth ac amllder talu.

CTR yn ofynnol. Cynigodd un cyngor yng Nghymru ddarparu data am yr amllder hwn er mwyn darparu dealltwriaeth o effaith bosibl. Mae'n werth nodi nad yw'r data hwn, o bosib, yn gynrychiadol o bob cyngor yng Nghymru. Yr hyn a wna, fodd bynnag, yw llywio p'un a yw ailasesu ceisiadau yn fwy tebygol o dan Gredyd Cynhwysol.

- 4.91 Dadansoddodd yr astudiaeth ddata hydredol misol y cyngor a gytunodd i gymryd rhan. Gwnaed cofnod o'r nifer o newidiadau mewn incwm ar gyfer y rheiny sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor dan fudd-daliadau etifeddol a'r rheiny sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol dros gyfnod o 10 mis. Allosodwyd y data i gwmpasu blwyddyn ariannol lawn.
- 4.92 Cymhwysodd dadansoddiad pellach drothwy de minimis o £5 yr wythnos. I bob pwrpas, anwybyddwyd pob newid mewn incwm islaw'r swm hwn. Darparodd hyn gost net ddarluniadol o gyflwyno mesur o'r fath yn ogystal â dealltwriaeth o'r effaith ar y nifer o ailasesiadau.

Effaith mesur de minimis

- 4.93 Dangosodd dadansoddiad fod 21% o aelwydydd Credyd Cynhwysol wedi profi newid mewn incwm o'i gymharu â dim ond 5% o aelwydydd budd-daliadau etifeddol dros gyfnod o 12 mis. Mewn geiriau eraill, roedd ceisiadau gostyngiad yn y dreth gyngor Credyd Cynhwysol yn gofyn am bedair gwaith gymaint o asesiadau dros yr un cyfnod â cheisiadau budd-daliadau etifeddol.
- 4.94 Yn ogystal â bod yn llai aml, mae newidiadau mewn incwm dan fudd-daliadau etifeddol, ar gyfartaledd yn cyfrif am swm is na'r rheiny dan Gredyd Cynhwysol. Mae cyflwyno trothwy de minimis o £5 yn atal ailasesu o 15% o'r ceisiadau budd-daliadau etifeddol hynny sy'n dangos newid mewn incwm, ond dim ond 8% o geisiadau Credyd Cynhwysol sy'n dangos newid mewn incwm. Awgryma hyn nad yw trothwy de minimis o £5 yr wythnos yn atal y rhan fwyaf o ailasesiadau ychwanegol o ostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol. Byddai ymchwilio pellach yn ofynnol i ddeall y lefel de minimis a fyddai'n atal cynnydd yn y nifer o geisiadau sy'n gorfod cael eu hailasesu.

- 4.95 Byddai anwybyddu newidiadau o lai na £5 yr wythnos yn arwain at gynnydd mewn cost i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o £210 dros 12 mis yr astudiaeth. Mae'r effaith fechan hon o ganlyniad i'r lleihad bach mewn dyfarniadau yn cael ei wrthbwysu gan gynnydd bach mewn dyfarniadau.

Crynodeb o'r mesur de minimis

- 4.96 Mae'r cynnydd bedair gwaith yn yr ailasesu o geisiadau gostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol yn risgio costau cynyddol uwch a dryswch ar ran hawlwr.
- 4.97 Mae trothwy de minimis yn lleddfu i raddau'r ailasesu cynyddol o hawliadau gostyngiad yn y dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y sampl data a ddadansoddwyd, dim ond 8% o'r ailasesiadau hyn o ostyngiad yn y dreth gyngor fyddai trothwy o £5 yr wythnos a gyflwynir yn yr astudiaeth hon yn eu hatal.
- 4.98 Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno mesur tebyg, byddai angen i'r trothwy gael ei osod ar lefel i sicrhau bod atal ailasesiadau yn ddigon i atal cynnydd mewn costau gweinyddol. Mae'n debyg y byddai unrhyw fesur o'r fath yn niwtral o ran cost.

Casgliad

- 4.99 Yn 2019-20, derbyniodd 275,000 o aelwydydd ostyngiad yn y dreth gyngor yng Nghymru, gyda chyfanswm gwerth o £269m. Mae 61% o'r aelwydydd hyn o oedran gweithio ac felly byddant yn gweld eu cymorth yn cael ei ailasesu wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Ar hyn o bryd, mae 40,000 o aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor eisoes wedi symud i Gredyd Cynhwysol gyda 126,000 eto i symud drosodd.
- 4.100 I lawer o aelwydydd nad ydynt yn derbyn cymorth yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd, mae symud i Gredyd Cynhwysol yn cael effaith sylweddol ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor. Y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor cyfartalog ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol yw £16.70 yr wythnos yn 2019-20, o'i gymharu â £19.30 yr wythnos i'r rheiny sydd eto i symud i Gredyd Cynhwysol.

- 4.101 Pe câi'r cynllun cyfredol ei gadw hyd 2021-22, bydd cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor yn cynyddu i £294m, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor. Mae'r cynnydd hwn o 9% yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor mwy neu lai yn unol â'r cynnydd yn y dreth gyngor a ddisgwylir o 10% o 2019-20 i 2021-22.
- 4.102 Ar draws pob aelwyd oedran gweithio yn 2021-22, mae gostyngiadau'r dreth gyngor yn cynyddu 8%, mwy neu lai yn unol â'r cynnydd yn y dreth gyngor. Fodd bynnag, bydd aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd sylweddol is o 5% yn y dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor. Gan fod hyn islaw'r lefel cynnydd yn y dreth gyngor, yn ei hanfod mae'n golled mewn cymorth.
- 4.103 Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno diwygiad i'r cynllun i leihau'r gyfradd tapr i 10%, byddai hyn yn cefnogi aelwydydd yn effeithiol wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. I'r aelwydydd oedran gweithio y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt, byddai'r cynnydd mewn dyfarniadau yn sylweddol. Byddai aelwydydd yr effeithir arnynt gan y newid yn y tapr, sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd cyfartalog yn y gostyngiad yn y dreth gyngor o 60% o'i gymharu â chynnydd cyfartalog o 41% i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor yn 2021-22, yn cynnwys y diwygiad hwn, yn £302m. Mae hyn yn £8m yn fwy yn 2021-22 na phe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw.
- 4.104 Gall y symud i Gredyd Cynhwysol hefyd effeithio ar gostau gweinyddu'r cynllun i awdurdodau lleol. Mae hyn o ganlyniad i'r angen am ailasesu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn fwy aml mewn ymateb i'r asesiadau misol o Gredyd Cynhwysol. Gall yr ailasesu mwy aml hwn arwain at aelwydydd yn derbyn cyfres o filiau'r dreth gyngor mewn cyfnod byr o amser. O ganlyniad, dengys y dadansoddiad hwn fod aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld pedair gwaith cymaint o newidiadau yn eu hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor dros flwyddyn o'i gymharu ag aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Gall Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ymgorffori mesurau i leihau'r angen am ailasesu. Un mesur o'r fath yw mabwysiadu trothwy de minimis. Anwybyddir newidiadau mewn incwm islaw'r trothwy at ddibenion ailasesu. Dengys y dadansoddiad hwn fod hyn yn debygol o

fod yn fesur niwtral o ran cost gan fod tandaliadau a gordaliadau yn gwrthbwysu ei gilydd.

- 4.105 Gall Credyd Cynhwysol gael effaith ar lwyth achosion gostyngiad yn y dreth gyngor hefyd, sydd â chyfradd hawlio amcangyfrifedig o 55% i 65% o ymgeiswyr cymwys⁵¹, yn debyg i gyfraddau hawlio hanesyddol dan Fudd-dal y Dreth Gyngor. Disgwylir i gyflwyno Credyd Cynhwysol effeithio ar gyfradd hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor gan fod yr asesu awtomatig o ostyngiad yn y dreth gyngor ynghyd â'r Budd-dal Tai gan awdurdodau lleol yn dod i ben. Bellach, mae angen i aelwydydd wybod y bydd gofyn iddynt gyflwyno cais ar wahân am ostyngiad yn y dreth gyngor, yn aml. Yn ogystal, mae cynghorau yn dibynnu ar hysbysiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fod rhywun wedi symud i Gredyd Cynhwysol er mwyn eu hasesu ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor, a gall yr hysbysiad hwn fynd ar goll yn y broses ymgeisio.
- 4.106 Dangosodd yr arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hwn fod yna ddryswch ynglŷn â'r berthynas rhwng Credyd Cynhwysol a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ymhlith hawlwr/ymgeiswyr. Credai chwarter o'r holl ymatebwyr sy'n hawlwr fod cais am ostyngiad yn y dreth gyngor yn cael ei gynnwys fel rhan o Gredyd Cynhwysol. Nid oeddent yn ymwybodol o'r broses ymgeisio ar wahân na bod gostyngiad yn y dreth gyngor yn cael ei weinyddu ar wahân. Yn ogystal, nid oedd 29% o hawlwr Credyd Cynhwysol yn gwybod a oeddent yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor, o'i gymharu â dim ond 14% o'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Dengys hyn efallai fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu ei chymhellion ymhellach i godi ymwybyddiaeth o ostyngiad yn y dreth gyngor a'i berthynas â Chredyd Cynhwysol. Mae hefyd werth nodi nad oedd 16% o hawlwr budd-daliadau etifeddol yn dymuno ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd eu bod yn ofni dyledion yn sgil gordaliadau. Mae'n bosib y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru yn dymuno archwilio ymhellach

⁵¹ [Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus](#) (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2019)

p'un a yw arferion adennill dyledion y dreth gyngor wedi cael unrhyw effaith ar y ffordd mae rhai pobl yn dirnad y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

5. Rhan Dau: Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor

Cyflwyniad

- 5.1 Yn Lloegr, daw adroddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (yr IFS)⁵² i'r casgliad bod gostwng hawl aelwyd i ostyngiad yn y dreth gyngor wedi arwain at godiadau sylweddol yn swm y dreth gyngor sydd ddim yn cael ei chasglu. Lle gwneir toriadau mewn cymorth, mae hyn tua 10 gwaith yn uwch na'r gyfradd arferol o beidio â chasglu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, oherwydd bod toriadau i ostyngiadau'r dreth gyngor yn fach o'i gymharu â chyfanswm y dreth gyngor, mae'r effaith ar gyfradd gyfanredol peidio â chasglu'n dal yn gymharol fychan - yn ei chynyddu o 2.5% i 2.7% ar gyfartaledd (o 2012-13 i 2018-19). Ymddengys mai'r prif fater sy'n arwain at y cynnydd yw ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd dalu rhywfaint o'r dreth gyngor pan na fyddent fel arall wedi cael bil, yn hytrach na maint y biliau hynny.
- 5.2 Yng Nghymru, nid oes yr un aelwyd sy'n wynebu bil y Dreth Gyngor am y tro cyntaf yn uniongyrchol o ganlyniad i doriadau yn lefel y cymorth gan Lywodraeth y DU yn 2012, gan fod hawliadau i gymorth wedi cael eu cynnal. Yn wahanol i Loegr, arhosodd lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru, a fynegir fel % o gyfanswm y dreth gyngor sy'n ddyledus, yn sefydlog o 2014 i 2017, gyda rhai awdurdodau yn dangos gwelliannau. Yn wir, mae'r duedd gyffredinol wedi gweld lefelau ôl-ddyledion yn gwella ers 2010-11, ac mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru bellach lefelau ôl-ddyledion rhwng 2% a 8%.⁵³
- 5.3 Mae'r ffigyrau ar gyfer cyfraddau casglu'r dreth gyngor,⁵⁴ a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru, yn dangos dirywiad bychan yn 2018-19 ac, yn nhermau absoliwt, mae cyfanswm yr ôl-ddyledion wedi cynyddu (o £36 miliwn ar ddiwedd 2014-15 i £42 miliwn erbyn diwedd 2018-19) fel y dangosir yn nhabl 2.1 isod. Dengys hyn, er bod ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi aros yn sefydlog fel canran o

⁵² [The impacts of localised council tax support schemes](#), Stuart Adam, Robert Joyce a Thomas Pope, (Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 29 Ionawr 2019)

⁵³ [Ôl-ddyledion treth gyngor, yn ôl awdurdod bilio](#), StatsCymru -(Llywodraeth Cymru, Mehefin 2019)

⁵⁴ [Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor: Mis Ebrill 2018 i Fis Mawrth 2019](#) (Llywodraeth Cymru, 11 Mehefin 2019)

gyfanswm y dreth gyngor sy'n ddyledus, mae cyfanswm yr ôl-ddyledion wedi cynyddu fel mae cyfanswm atebolrwydd y dreth gyngor wedi cynyddu.

Tabl 2.1 Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion yng Nghymru 2014-2019⁵⁵

Dyddiad	Cyfradd gasglu	Ôl-ddyledion a gasglwyd £m	Ôl-ddyledion yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn £m	Ôl-ddyledion newydd yn ystod y flwyddyn £m
2014-15	97.2%	28	85	36
2015-16	97.2%	29	86	37
2016-17	97.4%	29	84	37
2017-18	97.4%	27	87	38
2018-19	97.3%	27	94	42

5.4 Ymddengys fod y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i wneud iawn am y diffyg sy'n gysylltiedig â'r toriad o 10% mewn cyllid gan Lywodraeth y DU (yn hytrach na mentro bod awdurdodau lleol am ei drosglwyddo i aelwydydd incwm isel) wedi bod â goblygiadau cadarnhaol eraill, o leiaf yn y tymor byr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwella arferion casglu'r dreth gyngor, gan gynnwys drwy ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu⁵⁶ a hyrwyddo 'chwe cham' yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol i awdurdodau lleol⁵⁷. Mae yna hefyd Brothocol Treth Gyngor⁵⁸ sy'n amlinellu arferion da.

5.5 Mae'r adolygiad tair blynedd annibynnol o Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor⁵⁹, oedd yn cynnwys Cymru yn ogystal â Lloegr, yn nodi bod y trefniadau

⁵⁵ [Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor: Mis Ebrill 2018 i Fis Mawrth 2019](#) (Llywodraeth Cymru, 11 Mehefin 2019)

⁵⁶ [Dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor](#) (Llywodraeth Cymru, 2018)

⁵⁷ [Stop the Knock - 6 steps for local authorities](#) (Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol, Medi 2019)

⁵⁸ <https://www.wlga.cymru/welfare-reform> (Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ionawr 2019)

⁵⁹ [Three years on: an independent review of local council tax support schemes](#), Eric Ollerenshaw (tudalennau 88-90, Mawrth 2016)

yng Nghymru wedi golygu y bu gan awdurdodau lleol llai o feichiau gweinyddol, bod cyfraddau casglu wedi parhau'n dda, a nifer yr apeliadau'n isel o'i gymharu â Lloegr.

- 5.6 Fodd bynnag, dengys data gan Cyngor ar Bopeth⁶⁰, yn 2014-15, mai ôl-ddyledion y dreth gyngor oedd y broblem unigol fwyaf yn gysylltiedig â dyledion a welwyd gan eu rhwydwaith yng Nghymru. Parhaodd y duedd hon yn 2015-16 gyda dros 16,000 o broblemau yn cael eu hadrodd, cynnydd o 7% ô'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Erbyn 2017-18, roedd nifer y problemau wedi lleihau fymryn (i 13,100) ond dyma oedd y broblem ddyled fwyaf cyffredin o hyd. Felly, er bod lefelau ôl-ddyledion ar y cyfan wedi aros yn gyson, mae'n glir bod rhai aelwydydd yn wynebu dyledion cynyddol a chaledi ariannol.
- 5.7 Mae'n anodd nodi'n union effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor. Mae caledi cyffredinol yn debygol o fod wedi chwarae rhan yn nhwff dyled aelwydydd a bydd y cyfraddau hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor hanesyddol isel (y tu allan i unrhyw effaith Credyd Cynhwysol benodol) wedi cyfrannu hefyd.

Dadansoddiad Data Gweinyddol

Methodoleg

- 5.8 Gofynnwyd am detholiadau ôl-ddyledion y dreth gyngor gan bob un o'r awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan. Roedd y detholiadau ôl-ddyledion hyn yn cynnwys gwybodaeth am lefel ôl-ddyledion y dreth gyngor, ond dim gwybodaeth arall am amgylchiadau aelwydydd. Er mwyn archwilio'r berthynas rhwng Credyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion y dreth gyngor, parwyd y detholiadau â data SHBE gan bob awdurdod lleol yn defnyddio rhifau cyfeirnod Budd-dal Tai. Llwyddwyd i baru detholiadau ôl-ddyledion y dreth gyngor i rhwng pump a naw awdurdod lleol⁶¹ (yn

⁶⁰ [Tegwch i Bawb: Gwella sut y cesglir dyledion y dreth gyngor yng Nghymru](#), (Cyngor ar Bopeth, tudalennau 13 a 15, 2016) a [Tueddiadau Cyngor yng Nghymru](#), Liz Williams (Cyngor ar Bopeth, Hydref 2018)

⁶¹ Llwyddom i gasglu detholiadau ôl-ddyledion y dreth gyngor gan gyfanswm o 18 awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oedd sawl set ddata yn cynnwys yr adnabyddwyr unigryw angenrheidiol a oedd yn ofynnol i'w cysylltu â data SHBE, a dim ond cyfran fechan o awdurdodau lleol oedd yn gallu darparu setiau data cysylltu ychwanegol â'r SHBE ac adnabyddwyr ôl-ddyledion y dreth gyngor. Ar ben hynny, yn dilyn eu cysylltu â'r setiau data SHBE craidd, dangosodd nifer o awdurdodau lleol nad oedd eu data yn cynnwys yr adnabyddwyr angenrheidiol, gyfraddau ôl-ddyledion y dreth gyngor cyffredinol islaw 1% (o'r garfan HB/CTR). Credwn fod y cyfraddau ôl-ddyledion isel hyn yn fwy tebygol o adlewyrchu problemau gyda'r data craidd yn hytrach na gwir gyflwr ôl-ddyledion yn yr awdurdodau lleol hyn. Felly, penderfynom eithrio'r setiau data gan

dibynnu ar y don o gasglu data); roedd pedair ton o gasglu data gyda'i gilydd, ym mis Mawrth, Mehefin, Medi a Thachwedd 2019. Roedd y sampl hwn yn cynnwys 73,278 o aelwydydd unigryw sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, 24,443 sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, a 4,276 o aelwydydd a oedd wedi ymfudo o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn ystod y ffenestr casglu data. Roedd y gyfran o aelwydydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor o fewn pob ton yn amrywio o 9% i 12%.⁶² Oherwydd yr amrywiad hwn mewn cyfraddau ôl-ddyledion, lle bo'n bosib mae pob dadansoddiad dilynol wedi cael ei strwythuro i gyfuno canfyddiadau ar draws tonnau.⁶³

Effaith Credyd Cynhwysol ar gyffredinolrwydd ôl-ddyledion y dreth gyngor

- 5.9 I archwilio cyffredinolrwydd ôl-ddyledion y dreth gyngor, rhoddwyd cod 'mewn ôl-ddyledion' i aelwydydd os gwnaethant gofnodi lefel ôl-ddyledion y dreth gyngor uwchlaw sero ar unrhyw adeg ar y naill system fudd-dal. Golygodd hyn fod aelwydydd, a oedd yn symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data, wedi cofnodi dwy sgôr 'mewn ôl-ddyledion', un ar gyfer y naill system. Yn y dadansoddiad hwn felly, cafodd aelwydydd a oedd yn symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data eu cyfrif tuag at gyfraddau ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer y ddwy system fudd-dal. Dewiswyd y dull hwn i ddarparu cyfraddau ôl-ddyledion y dreth gyngor sy'n gysylltiedig yn benodol â'r ddwy system fudd-dal. Ymchwiliodd dadansoddiad dilynol

awdurdodau lleol yn dangos llai na 1% o'r garfan HB/CTR mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor. Pe bai astudiaeth fwy cynhwysfawr o ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru yn cael ei chynnal yn y dyfodol, byddem yn argymhell rhaglen o safoni data (gan gynnwys cofnodi rhifau cyfeirnod Budd-daliadau Tai) ar draws y detholiadau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol i hwyluso dadansoddi o'r math hwn.

⁶² Mawrth: Parwyd 9 awdurdod lleol, 83,642 aelwyd, yr oedd 9,155 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, cyfartaledd o 12% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor fesul awdurdod lleol; Mehefin: Parwyd 9 awdurdod lleol, 81,067 aelwyd, yr oedd 7,117 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, cyfartaledd o 9% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor fesul awdurdod lleol; Medi: Parwyd 5 awdurdod lleol, 45,138 aelwyd, yr oedd 4,527 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, cyfartaledd o 10% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor fesul awdurdod lleol; Tachwedd: Parwyd 7 awdurdod lleol, 73,489 aelwyd, yr oedd 8,364 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, cyfartaledd o 11% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor fesul awdurdod lleol. O'r 10 awdurdod lleol a ddarparodd ddata ar ryw adeg, roedd 2 wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru, un yng nghanolbarth Cymru a'r gweddill yn y de.

⁶³ Noder y golyga hyn fod rhai dadansoddiadau yn seiliedig ar gyfuno ar draws aelwydydd unigryw, tra mae eraill yn cyfuno ar draws cofnodion unigol. Mewn rhai achosion, golyga hyn fod rhai aelwydydd unigol yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith mewn cymhariaeth benodol (er enghraifft os cofnodwyd eu bod ar fudd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data). Lle mae hyn yn digwydd, nodir yn y canlyniadau.

i batrymau o ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd wrth iddynt symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol.

- 5.10 Ar draws yr holl sampl a phob un o'r pedair ton, roedd ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Cofnododd 28% (7,979 allan o 28,719) o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol rywfaint o ôl-ddyledion y dreth gyngor rywbryd yn ystod y cyfnod casglu data o'i gymharu â 12% (9,526 allan o 77,554) o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Noder yn y cyfraddau hyn, y caiff aelwydydd sy'n symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol eu cyfrif yn y cyfansymiau i'r ddwy system fudd-dal.


Cyffredinolrwydd ôl-ddyledion yn ôl grwpiau bregus

- 5.11 Ar gyfer y dadansoddiad hwn (a phob un wedyn), archwiliwyd effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion ar gyfer mathau o aelwydydd y disgwyliwyd iddynt fod yn arbennig o agored i newid yn eu budd-daliadau, neu amhariad arnynt. Y pedwar is-grŵp bregus (o safbwynt budd-daliadau) oedd aelwydydd yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl (neu fudd-daliadau tebyg, e.e., Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Byw i'r Anabl, Swm Cymwys neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog), aelwydydd yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gofalwyr, ac unig rieni gyda phlant o dan bump oed.
- 5.12 Roedd cyfran uwch o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol, ar draws pob un o'r is-grwpiau bregus.⁶⁴ Roedd cyffredinolrwydd ôl-ddyledion yn uwch ymhlith gofalwyr ac unig rieni gyda phlant ifanc, ond dangosodd gofalwyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gyfradd anghyffredin o uchel o ôl-ddyledion o'i gymharu ag aelwydydd tebyg sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Noder bod y dadansoddiad hwn yn

⁶⁴ Lwfans Byw i'r Anabl neu debyg: n (etifeddol) = 31,995 yr oedd 1,613 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 3,837 yr oedd 662 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu debyg: n (etifeddol) = 42,089 yr oedd 2,318 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 3,397 yr oedd 579 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Unig riant gyda phlentyn dan 5: n (etifeddol) = 5,981 yr oedd 794 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 3,448 yr oedd 869 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Gofalwr: n (etifeddol) = 9,711 yr oedd 1,007 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 1,159 yr oedd 388 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor

ystyried aelwydydd y mae eu categori bregusrwydd yn aros yr un fath ar draws pob un o'u pwyntiau data, yn unig, ac y gall rhai aelwydydd syrthio i sawl categori bregusrwydd. Gweler Ffigwr 2.1.

Ffigwr 2.1 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Grŵp Agored i Niwed



**Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 64*

Cyffredinolrwydd ôl-ddyledion yn ôl math o ddeiliadaeth


5.13 Roedd cyfraddau ôl-ddyledion y dreth gyngor yn uwch i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar draws pob math o ddeiliadaeth.⁶⁵ Noder bod y dadansoddiad

⁶⁵ Cyfanswm maint sampl:

Tenantiaid y cyngor: n (etifeddol) = 16,903 yr oedd 1,852 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 113 yr oedd 29 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor;
 Tenantiaid preifat: n (etifeddol) = 18,142 yr oedd 2,686 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 1,954 yr oedd 669 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Tenantiaid cymdeithasau tai: n (etifeddol) = 22,358 yr oedd 2,188 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 2,041 yr oedd 610 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Llety â chymorth: n (etifeddol) = 915 yr oedd 33 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 203 yr oedd 20 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Llety dros dro: n (etifeddol) = 598 yr oedd 41 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 234 yr oedd 30 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor;

hwn yn ystyried aelwydydd y mae eu deiliadaeth yn aros yr un fath ar draws pob un o'u pwyntiau data, yn unig. Gweler Ffigwr 2.2.

Ffigwr 2.2 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Math o Ddeiliadaeth



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 65


Effaith Credyd Cynhwysol ar lefel ôl-ddyledion y dreth gyngor

- 5.14 Er mwyn asesu lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer budd-daliadau etifeddol yn erbyn Credyd Cynhwysol, cyfrifwyd lefelau ôl-ddyledion cyfartalog ar draws yr holl gofnodion unigol ar gyfer pob system fudd-dal. Noder bod y dull hwn yn wahanol i'r dadansoddiad blaenorol, a gyfunodd ar draws cofnodion i adnabod aelwydydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor 'ar unrhyw adeg'.
- 5.15 Mae lefel ôl-ddyledion y dreth gyngor uchaf ymysg aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Ar draws pob aelwyd a phwyntiau amser a nodwyd fel rhai gyda rhywfaint o ôl-ddyledion o fewn y data gweinyddol, roedd gan gofnodion aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ôl-ddyledion cyfartalog o £89 (ar draws 13,056

cofnod gyda rhywfaint o ôl-ddyledion, allan o 66,707 cofnod o aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol), tra'r oedd gan gofnodion aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol ôl-ddyledion cyfartalog o £29 (ar draws 16,105 cofnod gyda rhywfaint o ôl-ddyledion, allan o 216,629 cofnod o aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau etifeddol). Noder bod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyfartaleddau ar draws cofnodion, yn hytrach nag aelwydydd unigol, a bod y cyfartaleddau hyn a phob un o'r cyfartaleddau is-set a gyflwynir yn ddiweddarach yn yr adran hon yn seiliedig ar gofnodion o bob un o'r pedair ton o gasglu data.

- 5.16 Yn ychwanegol i gyfrifo ôl-ddyledion cyfartalog, mae hefyd yn bwysig ystyried dosbarthiad lefelau ôl-ddyledion ar draws y sampl. O'r rheiny mewn ôl-ddyledion, roedd gan 40% o'r aelwydydd ôl-ddyledion islaw £100. Roedd aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol wedi'u cynrychioli'n fwy ar y lefel isel hon o ôl-ddyledion, gan adlewyrchu'r nifer uwch o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, unwaith yr oedd ôl-ddyledion yn dringo'r tu hwnt i £100, roedd aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn fwy amlwg (gweler Ffigwr 2.3 isod, $n = 29,161$).
- 5.17 Ar draws yr holl sampl, roedd ôl-ddyledion y dreth gyngor yn uwch ar gyfartaledd i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Yr eithriad i hyn oedd aelwydydd gydag ôl-ddyledion rhwng £1 a £100. Roedd y symiau bychain hyn o ôl-ddyledion yn fwy cyffredin i aelwydydd ar fudd-daliadau etifeddol.

Ffigwr 2.3 Cyfran o Gofnodion Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Lefel o Ôl-ddyledion a Math o Fudd-dal



Maint sampl = 29,161


5.18 Mae'r ôl-ddyledion cyfartalog a'r dosbarthiadau ôl-ddyledion a nodir uchod yn adlewyrchu pob cofnod ar draws pob un o'r pedair ton o ddata. Pan wnaethpwyd yr un dadansoddiad i bob ton yn unigol, parhaodd y patrwm o ôl-ddyledion uwch i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar draws pob un o'r pedair ton o ddata.⁶⁶ Gweler Ffigwr 2.4.

5.19 I aelwydydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, roedd y lefel o ôl-ddyledion dan Gredyd Cynhwysol yn uwch nag o dan fudd-daliadau etifeddol. Roedd gan

⁶⁶ Ton 1: n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau etifeddol) = 68,198 yr oedd 6,004 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol) = 15,444 yr oedd 3,151 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor
Ton 2: n (etifeddol) = 63,320 yr oedd 4,102 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 17,747 yr oedd 3,013 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor
Ton 3: n (etifeddol) = 32,758 yr oedd 2,133 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 12,380 yr oedd 2,394 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor
Ton 4: n (etifeddol) = 52,353 yr oedd 3,866 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 21,136 yr oedd 4,498 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor

aelwydydd Credyd Cynhwysol ôl-ddyledion cyfartalog o £452 o'i gymharu â £388 i aelwydydd budd-daliadau etifeddol.

Ffigwr 2.4 Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion i Gofnodion Aelwydydd sy'n Dangos Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn ôl Ton Casglu Data



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 66


Lefel ôl-ddyledion yn ôl grwpiau sy'n agored i niwed

5.20 Ymysg grwpiau sy'n agored i niwed, nid oedd lefelau ôl-ddyledion uchaf bob amser i aelwydydd Credyd Cynhwysol. Dangosodd aelwydydd sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (neu gyfwerth) a budd-daliadau etifeddol lefelau uwch o ôl-ddyledion cyfartalog o'i gymharu â'r rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. I ofalwyr ac unig rieni gyda phlant ifanc, roedd ychydig o wahaniaeth rhwng lefel gyfartalog o ôl-ddyledion o dan y ddwy system fudd-dal. I grwpiau sy'n

agored i niwed, ymddengys nad y math o system fudd-dal yw'r ffactor sy'n dylanwadu ar lefelau ôl-ddyledion⁶⁷. Gweler Ffigwr 2.5.

Ffigwr 2.5 Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor i Gredyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol yn ôl Grŵp sy'n Agored i Niwed

Lefel gyfartalog o ôl-ddyledion y dreth gyngor (ac eithrio cofnodion gyda dim ôl-ddyledion) dan fudd-daliadau etifeddol yn erbyn Credyd Cynhwysol



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 67

Effaith symud i Gredyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor

- 5.21 Mae symud i Gredyd Cynhwysol yn dwyn risg o amharu ar gyllid aelwyd wrth i un budd-dal orffen, ac un arall ddechrau. Er y bydd gwarchodaeth drosiannol yn esmwytho'r newid mewn incwm i aelwydydd sy'n ddarostyngedig i ymfudo a reolir, mae'r symud i Gredyd Cynhwysol hefyd yn cynnwys cyfnod heb y budd-dal (y cyfnod aros o 5 wythnos) lle mae'n rhaid talu biliau gan ddefnyddio adnoddau eraill.

⁶⁷ Lwfans Byw i'r Anabl neu debyg: n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau etifeddol) = 97,687 yr oedd 2,871 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol) = 11,315 yr oedd 1,346 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu debyg: n (etifeddol) = 126,461 yr oedd 4,208 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 10,425 yr oedd 1,193 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Unig riant gyda phlentyn dan 5: n (etifeddol) = 17,337 yr oedd 1,343 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 8,755 yr oedd 1,508 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor; Gofalwr: n (etifeddol) = 29,684 yr oedd 1,767 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, n (Credyd Cynhwysol) = 3,307 yr oedd 845 mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor


Gall aelwydydd dderbyn taliadau ymlaen llaw i dalu am eu costau yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos, ond gallent hefyd brofi amhariad sylweddol ar eu materion ariannol wrth iddynt symud i un taliad misol, talu elfennau tai i'r hawliwr, sefydlu trosglwyddiadau banc newydd etc. Gall yr amhariad ariannol hwn gyflwyno risg o gronni ôl-ddyledion hyd yn oed i'r aelwydydd hynny sy'n elwa o warchodaeth drosiannol ac wedi'u cefnogi gan daliad ymlaen llaw.

- 5.22 Bydd dadansoddi effaith ar ôl-ddyledion ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol yn darparu dealltwriaeth o p'un ai Credyd Cynhwysol ei hun sy'n achosi ôl-ddyledion y dreth gyngor uwch a brofir gan aelwydydd Credyd Cynhwysol, neu a yw o ganlyniad i ffactor arall sy'n effeithio ar aelwydydd sydd wedi symud i Gredyd Cynhwysol (er enghraifft, gallai'r math o aelwyd sydd fwyaf tebygol o symud i Gredyd Cynhwysol fod y math gyda mwy o ôl-ddyledion).
- 5.23 Dim ond yr aelwydydd hynny a gafodd eu cynnwys yn y sampl data gweinyddol a symudodd i Gredyd Cynhwysol ar ryw adeg rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019 y mae'r dadansoddiad yn eu cynnwys ($n = 4,276$). Mae'n cymharu'r nifer uchaf o ôl-ddyledion a gofnodwyd gan bob aelwyd pan maent yn derbyn budd-daliadau etifeddol gyda'r nifer uchaf o ôl-ddyledion a gofnodwyd ganddynt pan maent yn derbyn Credyd Cynhwysol.
- 5.24 Noder o ganlyniad i'r gofyniad i ymgeisio, neu ailymgeisio, am ostyngiad yn y dreth gyngor wrth symud i Gredyd Cynhwysol, mae'n bosibl y bydd rhai aelwydydd wedi gadael y set ddata ar adeg symud. Er bod y gyfran o aelwydydd yn y sefyllfa hon yn fwy tebygol o fod yn gymharol fach, mae'n un o gyfyngiadau anffodus y data SHBE/CTRS sydd ar gael i awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhannu data Credyd Cynhwysol llawn gydag awdurdodau lleol mewn ffordd a fyddai'n caniatáu dilyn aelwydydd wrth iddynt symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol os nad ydynt yn parhau i hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor.
- 5.25 Ni phrofodd 71% (3,022 allan o 4,276) o aelwydydd yn y sampl, ôl-ddyledion y dreth gyngor dan y naill system, symudodd 14% (588) i ôl-ddyledion a symudodd 6% (254) allan o ôl-ddyledion ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol. Darperir mwy o eglurder

drwy archwilio'n unig yr aelwydydd hynny gyda rhyw fath o ôl-ddyledion y dreth gyngor, ar ryw adeg, yn ystod y cyfnod casglu data (gweler Ffigwr 2.6).

Ffigwr 2.6 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol

Canran o aelwydydd sy'n profi newidiadau gwahanol mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor wrth symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol (ac eithrio aelwydydd heb ôl-ddyledion ar unrhyw adeg)



Maint sampl = 1,254

- 5.26 Ymhlith yr aelwydydd hynny a symudodd o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol ac a gofnododd ryw lefel o ôl-ddyledion y dreth gyngor yn y data gweinyddol ($n = 1,254$), dangosodd 47% (588) ryw lefel o ôl-ddyledion y dreth gyngor ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol, ar ôl bod heb ôl-ddyledion dan fudd-daliadau etifeddol. O'r aelwydydd hynny a oedd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor cyn ac ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol, gwelodd cyfrannau cyfartal yn fras o'r

sampl eu hôl-ddyledion y dreth gyngor yn cynyddu (11%, 161 aelwyd), lleihau (13%, 254 aelwyd) neu aros yr un fath (newid o lai na £5 - 9%, 143 aelwyd).

Effaith symud i Gredyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor, yn ôl grwpiau sy'n agored i niwed

- 5.27 Dangosodd grwpiau sy'n agored i niwed batrymau tebyg o ôl-ddyledion y dreth gyngor i'r boblogaeth gyffredinol yn ystod y cyfnod symud i Gredyd Cynhwysol. Ni phrofodd 80% o aelwydydd Lwfans Byw i'r Anabl, 79% o aelwydydd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, 73% o unig rieni gyda phlant ifanc a 71% o ofalwyr ôl-ddyledion ar unrhyw adeg.
- 5.28 O'r aelwydydd hynny a oedd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor ar ryw adeg rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019, roedd gan ofalwyr ac unig rieni i blant ifanc gyfraddau uwch o symud i ôl-ddyledion y dreth gyngor (51%, 83 allan o 164 aelwyd; a 52%, 99 allan o 189 aelwyd, yn y drefn hon) o'i gymharu â'r gyfradd sampl gyffredinol (47%). Fodd bynnag, dangosodd aelwydydd Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (neu gyfwerth) gyfraddau is o symud i ôl-ddyledion y dreth gyngor (41%, 68 allan o 164 aelwyd; a 45%, 121 allan o 247 aelwyd, yn y drefn hon). Noder bod meintiau sampl ar gyfer y grwpiau hyn yn gymharol fach,⁶⁸ felly dylid dehongli'r canlyniadau hyn gyda pheth gofal. Mae rhai aelwydydd hefyd yn ymddangos mewn sawl categori bregus. Gweler Ffigwr 2.7.
- 5.29 Ymddengys fod symud i Gredyd Cynhwysol i grwpiau bregus yn amrywio rhwng mathau o fregusrwydd. Gall fod sawl rheswm am hyn:
- Lle mae bregusrwydd yn arwain at fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd uwch (megis y rheiny sy'n derbyn budd-daliadau anabl neu gyda'r gydran Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ychwanegol, Gallu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n


⁶⁸ Lwfans Byw i'r Anabl neu debyg: n = 164 (aelwydydd yn symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data gyda rhyw lefel o ôl-ddyledion); Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu debyg: n = 164; Unig riant gyda phlentyn dan 5: n = 247; Gofalwr: = 189

Gysylltiedig â Gwaith), gall y cyfraddau uwch o gymorth fod yn ddigon i greu clustog yn erbyn dyled.

- Gall y cyfnod mae aelwyd yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd effeithio ar y lefel o risg o ddyled wrth i aelwydydd addasu i fyw ar incwm llai.
- Gal incwm o ffynhonnell arall (megis Lwfans Byw i'r Anabl, Taliadau Annibyniaeth Personol neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol) ddarparu gwarchodaeth rhag colled yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos a hwyluso cyllidebu rhwng taliadau Credyd Cynhwysol misol.
- Gall gwahaniaethau mewn lefelau dyfarnu budd-daliadau rhwng budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol effeithio ar wytnwch ariannol. Er enghraifft, bydd rhai grwpiau o unig rieni yn gweld incwm yn syrthio wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol lle gall y rheiny yn y grŵp Gallu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth weld eu lefelau budd-daliadau yn codi.

Ffigwr 2.7 Cyfran o Aelwydydd sy'n Agored i Niwed mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol

Canran o aelwydydd sy'n profi newidiadau gwahanol mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor wrth symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol, wedi'i rhannu yn ôl grŵp bregus




Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 68

Effaith y system fudd-daliadau ar dueddiadau mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor

- 5.30 Mae symud i Gredyd Cynhwysol yn cael ei sbarduno gan newid mewn amgylchiadau. Ni all archwilio lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor cyn ac ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol, fel y dangosir uchod, wahanu effaith Credyd Cynhwysol oddi wrth effaith y newid mewn amgylchiadau a sbardunodd y symud. Gall colli swydd, newid mewn statws perthynas neu enedigaeth plentyn i gyd arwain at newidiadau mewn lefelau ôl-ddyledion, yn ogystal â sbarduno symud i Gredyd Cynhwysol.
- 5.31 O'r data a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn, nid yw'n bosibl datgysylltu'n llwyr effaith newidiadau mewn amgylchiadau oddi wrth ymfudo i Gredyd Cynhwysol ynddo'i hun. Fodd bynnag, mae'n bosib edrych ar newid o don i don mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor a chymharu'r cyfraddau newid hyn ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn caniatáu i newid mewn ôl-ddyledion fod wedi'i wahanu'n rhannol oddi wrth newidiadau mewn amgylchiadau aelwyd (o leiaf y newidiadau hynny mewn amgylchiadau a fyddai'n sbarduno symud i Gredyd Cynhwysol rhwng tonau casglu data).
- 5.32 Roedd y dadansoddiad hwn yn cynnwys pob aelwyd a oedd mewn ôl-ddyledion rhent ar ryw adeg rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019) Mae pob pwynt data yn y dadansoddiad yn cynrychioli statws aelwyd a ddilynir o un don i'r nesaf. Er enghraifft, byddai aelwyd a oedd yn derbyn budd-daliadau etifeddol yng nghiplun Mawrth, ond a gofnodwyd fel un a hawliai Gredyd Cynhwysol yng nghiplun Mehefin yn darparu pwynt data sengl wedi'i godio fel 'Symud o Fudd-daliadau Etifeddol i Gredyd Cynhwysol'. Cyfartalwyd y newidiadau o don i don hyn mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer pob math o symud. Gwnaed cymhariaeth yna rhwng y newid cyfartalog mewn ôl-ddyledion ar gyfer symudiadau lle'r oedd aelwydydd yn parhau i dderbyn budd-daliadau etifeddol ar draws tonnau dilynol; y newid cyfartalog mewn ôl-ddyledion ar gyfer symudiadau lle'r oedd aelwydydd yn parhau i dderbyn Credyd Cynhwysol ar draws tonnau dilynol; a'r newid cyfartalog mewn ôl-ddyledion ar gyfer symudiadau lle'r oedd aelwydydd yn symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol rhwng tonnau dilynol.

Ffigwr 2.8 Newid Cyfartalog mewn Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor rhwng Tonnau Dilynol o Gasglu Data, yn ôl Statws Budd-daliadau yn ystod Symud



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 69

5.33 Ar draws yr holl sampl, dangosodd aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, ar gyfartaledd, gynnydd bach (+£15) mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor o don i don. Ar draws yr holl sampl, dangosodd aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, ar gyfartaledd, gynnydd uwch (+£65) mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor o don i don. Dangosodd aelwydydd sy'n symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol y cynnydd mwyaf mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor o don i don (£+73)⁶⁹. Gweler Ffigwr 2.8.

⁶⁹ Yn parhau ar fudd-daliadau etifeddol: n = 7,860 (aelwydydd gyda rhyw lefel o ôl-ddyledion y dreth gyngor yn ystod y cyfnod casglu); Yn symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol = 981; Yn parhau ar Gredyd Cynhwysol: n = 5,886

Effaith y system fudd-daliadau ar dueddiadau mewn ôl-ddyledion yn ôl grwpiau bregus


- 5.34 O ystyried y maint sampl bach ar gyfer aelwydydd sy'n symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol, nid yw dadansoddiadau manwl yn ôl is-grŵp wedi cael eu hadrodd.

Arolygon a Chyfweliadau

Braslun o Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor a Hunangofnodwyd

- 5.35 Galluogodd yr arolwg hawlwyd i'r tîm ymchwil gael braslun clir o nifer yr achosion o ôl-ddyledion y dreth gyngor ar draws y boblogaeth a holwyd, yn ogystal â sut yr effeithiodd symud i Gredyd Cynhwysol ar gyllid pobl.
- 5.36 Adroddodd 28% o ymatebwyr (106 allan o 383) i'r arolwg eu bod mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor - a ddiffinnir fel bod ar ôl ei hol gyda dau neu fwy o daliadau.
- Adroddodd ymatebwyr nad oeddent mewn gwaith nac yn ceisio gwaith ar hyn o bryd (pobl a oedd yn sâl, wedi'u hanafu neu'n anabl, myfyrwyr, gofalwyr am y cartref etc.) ôl-ddyledion y dreth gyngor mymryn yn uwch na'r aelwydydd hynny mewn rhyw fath o waith (boed hynny'n hunangyflogedig, yn llawn amser neu'n rhan-amser), 39% (34 allan o 88 o ymatebwyr) o'i gymharu â 33% (53 allan o 163 o ymatebwyr) yn y drefn honno.
 - Mae ymatebwyr gydag anabledau difrifol neu salwch hirdymor yr un mor debygol o fod mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor â'r rheiny nad ydynt yn dioddef o gyflyrau o'r fath - 33% (69 allan o 207 o ymatebwyr) o'i gymharu â 34% (31 allan o 92 o ymatebwyr) yn y drefn honno.
- 5.37 O'r 106 o hawlwyd a ymatebodd i'r arolwg gan ddatgan fod ganddynt ôl-ddyledion y dreth gyngor, adroddodd 20% ôl-ddyledion y dreth gyngor o fwy na £1000, ac nid oedd 7% yn gwybod faint o'r dreth gyngor oedd arnynt. Gweler Ffigwr 2.9.

Ffigwr 2.9 Canfyddiadau'r Arolwg: Faint o'r Dreth Gyngor Sydd Arnoch?



Maint sampl = 106

Credyd Cynhwysol ac Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor


5.38 Dywedodd 30% o ymatebwyr sy'n hawlwr (60 allan o 262) nad oeddent mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor cyn symud i Gredyd Cynhwysol⁷⁰ eu bod wedi syrthio i ôl-ddyledion y dreth gyngor ar ôl symud i'r budd-dal hwnnw. Fodd bynnag, dylid lleddfu'r ffigwr hwn gan y ffaith bod nifer o aelwydydd yn hawlio Credyd Cynhwysol wrth wynebu newidiadau bywyd, megis colli cyflogaeth neu wahanu oddi wrth bartner, felly gallai'r cynnydd mewn ôl-ddyledion, yn anuniongyrchol, fod yn berthnasol i aelwydydd sy'n wynebu newid sylweddol ac yn ceisio dod i delerau ag incwm is.

5.39 Er bod 69% o hawlwr a holwyd (252 allan o 366) wedi adrodd dim newid yn eu hôl-ddyledion y dreth gyngor o ganlyniad i symud i Gredyd Cynhwysol, adroddodd 29% (104) gynnydd yn eu hôl-ddyledion. Dim ond oddeutu 3% (10) o ymatebwyr a

⁷⁰ Eithrio ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod"

adroddodd eu hól-ddyledion yn lleihau o ganlyniad i symud i Gredyd Cynhwysol.
Gweler Ffigwr 2.10.

Ffigwr 2.10 Canfyddiadau'r Arolwg: A yw Eich Lefel o Ddyledion y Dreth Gyngor wedi Newid o Ganlyniad i Symud i Gredyd Cynhwysol?



Maint sampl = 366

- 5.40 Yn ôl yr hawlwr a ymatebodd i'r arolwg, roedd y cynnydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor wrth symud i Gredyd Cynhwysol yn bennaf oherwydd bod yn gymwys am lai o gymorth (56%, 58 allan o 104 o ymatebion), dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos (55%, 57 o ymatebion) ac anawsterau wrth gyllidebu gyda thaliadau misol (43%, 45 o ymatebion).

"O ganlyniad i fy enillion a'r swm o Gredyd Cynhwysol rwy'n ei gael, mae'r cymorth rwy'n ei gael drwy ostyngiad yn y dreth gyngor wedi lleihau ac rwyf bellach yn gorfod talu swm mawr o'r Dreth Gyngor bob mis."

(Ymatebwr Credyd Cynhwysol)

- 5.41 Adroddodd un hawliwr a holwyd ei fod, ar ôl hawlio Credyd Cynhwysol, wedi syrthio i ôl-ddyledion ar y dechrau, ond bod y rhain wedi clirio unwaith yr ymgeisiodd am ostyngiad yn y dreth gyngor ac ôl-ddyddiodd yr awdurdod lleol y cymorth hwn yn ôl i'w hawliad Credyd Cynhwysol cyntaf.

- 5.42 Adroddodd rhai o'r hawlwyd Credyd Cynhwysol a holwyd eu bod wedi syrthio i ôl-ddyledion y dreth gyngor yn sgil anawsterau ariannol yn y gorffennol, gan gynnwys gorfod disgwyl am y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, er roedd rhai wedi defnyddio taliad ymlaen llaw i wneud iawn am hyn. Dywedodd rhai hawlwyd eraill eu bod ar ei hôl hi gyda'u treth gyngor oherwydd hyd yn oed ar ôl i'r taliadau Credyd Cynhwysol ddechrau dod i mewn, nid oeddent yn gallu fforddio ei dalu yn ogystal â'u treuliau eraill

"Nid oes gennyf unrhyw beth ar ôl ar ddiwedd y mis... Rwy'n gweithio erbyn hyn, felly mae pethau'n well o lawer, ond ar y dechrau roedd yn hunllef... Dim arian ar gyfer rhent, dim arian ar gyfer y dreth gyngor, dim arian ar gyfer nwy a thrydan, dim arian ar gyfer bwyd. Roedd gennyf oddeutu £50 yn weddill."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

- 5.43 Un ffordd o fesur hyn yw cymharu cyffredinolrwydd ôl-ddyledion y dreth gyngor ymhlith derbynwyr budd-daliadau etifeddol gyda'r rheiny sydd ar Gredyd Cynhwysol. Dywedodd 32% o ymatebwyr ar Gredyd Cynhwysol (94 allan o 298) eu bod mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, o'i gymharu â 28% o ymatebwyr ar Fudd-dal Tai (24 allan o 87).⁷¹

Cymharu Data Arolwg a Gweinyddol

- 5.44 Roedd y patrymau o gyffredinolrwydd a difrifoldeb ôl-ddyledion y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol o'i gymharu ag aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gymharol gyson ar draws y data arolwg hawlwyd a gweinyddol. Adroddodd ymatebwyr arolwg fod ôl-ddyledion yn fwy cyffredin, a mwy difrifol, o dan Gredyd Cynhwysol.

⁷¹ Noder, canolbwyntiodd yr arolwg hwn ar ymatebwyr ar Fudd-dal Tai yn benodol (yn hytrach nag unrhyw fudd-dal etifeddol) i alinio'r canlyniadau'n well â chanlyniadau'r dadansoddiad o'r data gweinyddol, gan fod data SHBE yn cynnwys aelwydydd sy'n derbyn Budd-dal Tai yn unig.

- 5.45 Fodd bynnag, roedd y cyfraddau ôl-ddyledion y dreth gyngor cyffredinol a ganfuwyd yn y data gweinyddol yn is o lawer na'r rheiny a hunangofnodwyd gan hawlwr. Gellir priodoli hyn i duedd hunanddewis wrth recriwtio ar gyfer yr arolwg, a oedd yn dibynnu ar hawlwr Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol yn cofrestru. Hysbysebwyd yr arolwg fel un a oedd yn asesu effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru. O ganlyniad, mae'n bosib bod hawlwr â phrofiad uniongyrchol o fod mewn ôl-ddyledion wedi bod yn fwy tebygol o gofrestru. Roedd ymatebwyr arolwg yn fwy tebygol o adrodd ôl-ddyledion dros £1000 na fyddai'n ddisgwyliedig yn seiliedig ar y data gweinyddol (20% o ymatebwyr arolwg o'i gymharu â 11% o aelwydydd yn y data gweinyddol). Gallai hyn gefnogi'r syniad fod y sampl arolwg yn cynrychioli grŵp o hawlwr gyda phrofiadau mwy eithafol o ôl-ddyledion na'r boblogaeth hawlwr gyffredinol.
- 5.46 Fel arall, efallai fod gan y garfan o bobl a lwyddodd y tîm ymchwil i gael data ôl-ddyledion y dreth gyngor ganddynt lefelau cyson isel o ôl-ddyledion cyffredinol na'r cyfartaledd ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau yn dibynnu ar bawf modd. Mae'r dadansoddiad data yn ymwneud â data ôl-ddyledion y dreth gyngor i aelwydydd mewn oddeutu traen o awdurdodau lleol Cymru. Roedd y sampl wedi'i gyfyngu i'r aelwydydd hynny sy'n derbyn Budd-dal Tai a/neu ostyngiad yn y dreth gyngor. Nid oedd y sampl yn ymdrin ag aelwydydd sy'n derbyn credydau treth yn unig dan y system etifeddol, na'r rheiny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ond nad ydynt yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Byddai ymchwil pellach, ar sampl mwy cynhwysfawr o hawlwr budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol ar draws pob un o awdurdodau lleol Cymru yn ofynnol i bennu p'un a yw'r anghysondeb rhwng y canfyddiadau gweinyddol ac arolwg yn adlewyrchu tuedd samplo gwirioneddol.
- 5.47 Roedd y data arolwg a gweinyddol wedi alinio yn eu canlyniadau yn ymwneud ag effeithiau sy'n deillio o symud o fudd-daliadau etifeddol i Credyd Cynhwysol. Er hynny, unwaith eto roedd darlun mwy eithafol (negyddol) yn dod i'r amlwg o'r data arolwg:

- Adroddodd 69% o ymatebwyr arolwg ddim newid mewn ôl-ddyledion, gan gyfateb yn agos i'r 74% o aelwydydd a ganfuwyd yn y data gweinyddol.
- Adroddodd 28% o ymatebwyr arolwg gynnydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor wrth symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol, o'i gymharu â 17% yn y data gweinyddol.
- Adroddodd 3% o ymatebwyr arolwg leihad mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor wrth symud i Gredyd Cynhwysol, o'i gymharu â 10% o aelwydydd yn y data gweinyddol.

5.48 Unwaith eto, gallai'r gwahaniaethau hyn ddeillio o duedd hunanddewis ymysg ymatebwyr arolwg, elfen o duedd systematig yn y garfan data gweinyddol, neu'r meintiau sampl cymharol fach yn y data arolwg.

Casgliad

- 5.49 Darparodd y canlyniadau o'r data arolwg hawlwr hunanadrodd a'r data gweinyddol ddarlun cyson fod ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin, a mwy difrifol, o dan Gredyd Cynhwysol.
- 5.50 Ymddengys fod symud i Gredyd Cynhwysol ei hun yn gyson gysylltiedig â chynnydd mewn ôl-ddyledion, gan ddangos y gallai'r bwlch mewn cymorth yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos fod yn allweddol wrth ddatblygu ôl-ddyledion y dreth gyngor.
- 5.51 Ar gyfer yr aelwydydd hynny gydag ôl-ddyledion ar ryw adeg, ymddengys fod Credyd Cynhwysol yn cynyddu'r lefel o ôl-ddyledion gan awgrymu fod effaith barhaus Credyd Cynhwysol, megis y dyfarnu misol neu'r lefel o gymorth, yn broblematic.
- 5.52 Fodd bynnag, ar draws poblogaeth gyfan y dadansoddiad, adroddodd y rhan fwyaf o hawlwr ddim newid yn eu hól-ddyledion o ganlyniad i symud i Gredyd Cynhwysol. Lle adroddwyd newid mewn ôl-ddyledion, roedd hynny'n bennaf yn gynnydd mewn ôl-ddyledion. Awgryma'r arolwg fod y cynnydd hwn wedi'i briodoli i newidiadau mewn lefelau dyfarnu o dan y system fudd-daliadau newydd, dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos, a thrafferthion i gyllidebu gyda thaliadau misol.

- 5.53 Roedd lefelau cyffredinol ac effeithiau Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor yn gymharol gyson, i bob golwg, ar draws demograffeg a grwpiau agored i niwed gwahanol. Awgryma gwahaniaethau mewn effaith ar draws grwpiau sy'n agored i niwed fod yna ryw newidyn arall a all fod yn dylanwadu ar ôl-ddyledion y dreth gyngor.

Canfyddiadau Allweddol: Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor

Roedd ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.	
% o aelwydydd Credyd Cynhwysol mewn ôl-ddyledion	Data gweinyddol 28% (arolwg 32%)
% o aelwydydd Budd-daliadau Etifeddol mewn ôl-ddyledion	Data gweinyddol 12% (arolwg 28%)
Ymhlith y rheiny ag ôl-ddyledion, mae Credyd Cynhwysol yn gysylltiedig â lefel uwch o ôl-ddyledion o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol (data gweinyddol)	
Ôl-ddyledion cyfartalog i aelwydydd Credyd Cynhwysol	£89
Ôl-ddyledion cyfartalog i aelwydydd budd-daliadau etifeddol	£29
Roedd lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor yn wahanol rhwng y dadansoddiad data a chanlyniadau'r arolwg	
Dangosodd y data gweinyddol fod gan y rhan fwyaf ôl-ddyledion	o dan £100
Adroddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr arolwg ôl-ddyledion	o fwy na £250
Arhosodd y rhan fwyaf o aelwydydd nad ydynt mewn ôl-ddyledion o dan fudd-daliadau etifeddol yn glir o ddyled o dan Gredyd Cynhwysol	
% heb ôl-ddyledion cyn ac ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol	Data gweinyddol 71% (arolwg 69%)
Aeth cyfran fechan ond sylweddol o aelwydydd i ôl-ddyledion wrth symud i Gredyd Cynhwysol.	
% gydag ôl-ddyledion ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol	Data gweinyddol 14% (arolwg 20%)

Roedd ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy tebygol o gynyddu o dan Gredyd Cynhwysol na budd-daliadau etifeddol (data gweinyddol)	
Lefel y cynnydd yn ystod y cyfnod ar Gredyd Cynhwysol	+£65
Lefel y cynnydd yn ystod y cyfnod ar fudd-daliadau etifeddol	+£15
Roedd y patrwm o ôl-ddyledion y dreth gyngor i grwpiau sy'n agored i niwed yn debyg i'r boblogaeth gyffredinol ond dangosodd gwahaniaethau rhwng grwpiau bregus fod rhyw ffactor arall yn effeithio ar lefelau ôl-ddyledion.	
Roedd cynnydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor wrth symud i Gredyd Cynhwysol yn bennaf o ganlyniad i'r canlynol: (data arolwg)	
● Bod yn gymwys am lai o gymorth (56%) ● Dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos (55%) ● Anawsterau cyllidebu gyda thaliadau misol (43%)	

6. Rhan Tri: Ôl-ddyledion Rhent

Cyflwyniad

6.1 Awgryma nifer o astudiaethau diweddar y gallai dyluniad Credyd Cynhwysol fod yn creu ôl-ddyledion rhent i aelwydydd.⁷² Prif nodweddion Credyd Cynhwysol y credir eu bod yn cyfrannu at y duedd hon yw:

- yr arhosiad cychwynnol am y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf;
- rhent yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r hawlydd (yn hytrach na'r landlord);
- hawlwr yn symud o daliadau budd-dal wythnosol neu bob pedair wythnos i daliad misol.

6.2 Mae astudiaethau'r DU gyfan yn cynnwys:

- Adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 'Cyflwyno Credyd Cynhwysol',⁷³ a nododd fod awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a landlordiaid wedi gweld cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent ers cyflwyno gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn. Gall yr ôl-ddyledion rhent gymryd hyd at flwyddyn i'w hadennill.
- Arolygon a gynhaliwyd gan Ffederasiwn Cymdeithasau Tai'r Alban, Ffederasiwn Tai Cenedlaethol Lloegr, a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, canfu'r arolwg yn Lloegr, er efallai fod gan denantiaid eisoes ôl-ddyledion rhent, roedd tenantiaid ar Gredyd Cynhwysol fwy na dwywaith mor debygol o fod mewn ôl-ddyledion rhent o'i gymharu â phob tenant arall, gyda bron i dri chwarter (73%) o'r tenantiaid Credyd Cynhwysol a holwyd mewn ôl-ddyledion rhent, o'i gymharu â llai na thraean (29%) o'r holl denantiaid a holwyd.⁷⁴

⁷² Crybwyllir rhai o'r astudiaethau hyn mewn dadansoddiad o effaith diwygio lles ar aelwydydd yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019: [Dadansoddiad o effaith diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru](#) (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2019)

⁷³ [Cyflwyno Credyd Cynhwysol](#) (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2018)

⁷⁴ [UK housing bodies warn 'flawed' Universal Credit is causing debt and hardship for families in social housing](#) (Scottish Housing News, 2018)

- Canfu ymchwil gan Cyngor ar Bopeth⁷⁵, o'r rheiny a oedd yn ceisio cyngor ar gyfer problemau dyled ac yn derbyn budd-daliadau, roedd gan 43% o'r rheiny a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol ôl-ddyledion rhent o'i gymharu â 29% o'r rheiny a oedd yn derbyn budd-daliadau etifeddol.
- Arolwg gan y BBC a gysylltodd â phob awdurdod lleol yn y DU sydd gan dai cyngor am eu hól-ddyledion⁷⁶. Dangosodd canlyniadau o'r 129 cyngor a gymerodd ran mai'r swm cyfartalog sy'n ddyledus gan denantiaid ar Gredyd Cynhwysol ledled y DU yw £662.56. Ar gyfer y rheiny ar fudd-daliadau etifeddol ac felly yn dal i dderbyn Budd-dal Tai y swm yw £262.50.

- 6.3 Mae darlun tebyg yng Nghymru. Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru, y corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, yn 2018 fod tenantiaid cymdeithasau tai ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru eisoes mewn ôl-ddyledion rhent o fwy na £1 miliwn, yn ôl eu harolwg o sampl o 29 cymdeithas dai yng Nghymru.⁷⁷ Cynhaliwyd eu harolwg gyda 3,475 o bobl sy'n byw mewn cartrefi cymdeithasau tai yng Nghymru a dangosodd fod gan bob person gyfartaledd o £420 mewn ôl-ddyledion rhent.
- 6.4 Cefnogodd astudiaeth fwy diweddar, yn 2019, ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru⁷⁸ y canfyddiadau hyn er y rhoddodd yr awduron sawl cafeat ar ganlyniadau eu hymchwil. Awgrymodd canlyniadau o'r arolwg Cartrefi Cymunedol Cymru diweddaraf hwn fod 84% o denantiaid Credyd Cynhwysol mewn ôl-ddyledion. Y cyfanswm ôl-ddyledion a adroddwyd oedd £4.6 miliwn gydag oddeutu £1.1 miliwn yn dechrau wrth ddechrau hawlio Credyd Cynhwysol. Yr ôl-ddyledion cyfartalog fesul tenant Credyd Cynhwysol yw £415, ond cododd i £556 fesul tenant ar gyfer y rheiny eisoes mewn ôl-ddyledion. Yn debyg i astudiaethau eraill, roedd ôl-ddyledion

⁷⁵ [Achieving income security for all](#) (Cyngor ar Bopeth, Medi 2019)

⁷⁶ [Universal credit: Rent arrears double for benefit claimants](#), BBC News (12 Tachwedd 2018)

⁷⁷ [Tenantiaid tai cymdeithasol Cymru sy'n derbyn Credyd Cynhwysol mewn dros £1 miliwn o ôl-ddyledion rhent](#) (Cartrefi Cymunedol Cymru, Gorffennaf 2018)

⁷⁸ [Monitro effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yng Nghymru](#) (Opinion Research Services ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru, Hydref 2019). Cynhaliwyd yr arolwg mewn tair ton rhwng mis Ionawr 2018 a mis Mai 2019. Roedd y nifer o gymdeithasau tai a ymatebodd yn amrywio o 22 i 29. Y nifer o denantiaid a gynrychiolwyd yn nhon 3 oedd 84,300, yr oedd 11,350 (oddeutu 13%) ohonynt yn derbyn Credyd Cynhwysol.

yn is i denantiaid nad oeddent yn derbyn Credyd Cynhwysol (cyfartaledd o £219 i'r rheiny sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol o hyd).

- 6.5 Unwaith eto, cefnogodd astudiaeth Cartrefi Cymunedol Cymru weithiau ymchwil eraill, gan ei bod yn dangos mai'r prif resymau dros denantiaid Credyd Cynhwysol yn syrthio i ôl-ddyledion oedd y cyfnod aros o bum wythnos a'r newid i daliadau misol o fudd-dal, gyda'r angen i gyllidebu'n fisol. Roedd hefyd ychydig o dystiolaeth bod tenantiaid wedi llwyddo i leihau eu hól-ddyledion dros amser, gyda gweithdrefnau monitro a chymorth newydd a gyflwynwyd gan y cymdeithasau tai.
- 6.6 Gall astudiaethau lleol fod yn gynrychiadol neu beidio, ond maent yn ychwanegu darluniadau byw:
- Mae Cymdeithas Dai Bron Afon wedi adrodd⁷⁹ pryderon am effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yn Nhorfaen. O'r 525 o bobl a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol erbyn mis Ionawr 2018, roedd ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu mewn cyfran sylweddol o achosion, gyda sgiliau cyfrifiadurol a llythrennedd wedi'u crybwyll fel problemau mawr.
 - Yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru, un o'r cyntaf i brofi Credyd Cynhwysol, dywed yr awdurdod lleol fod ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu £1m mewn cyfnod o 18 mis ers Ebrill 2017.⁸⁰ Ar gyfartaledd, roedd tenantiaid sy'n cael Credyd Cynhwysol yn y sir mewn dyled bedair gwaith yn fwy na'r rheiny ar fudd-daliadau etifeddol, gyda'r rheiny ar Credyd Cynhwysol yn y sir mewn dyled o £1,473 o'i gymharu â thenantiaid ar fudd-daliadau etifeddol, sydd mewn dyled o £334. Erbyn dechrau 2020, roedd ôl-ddyledion rhent yn £2.04m ond roedd dystiolaeth bod y sefyllfa wedi sefydlogi, gydag ôl-ddyledion rhent yn lleihau ychydig. Y rheswm dros hyn oedd ymyrraeth gynnar a gwell i gefnogi tenantiaid.⁸¹
- 6.7 Mae canfyddiadau perthnasol eraill yn cynnwys dystiolaeth o'r Alban. O fis Mawrth 2019, roedd ôl-ddyledion rhent ar bob eiddo'r cyngor yn yr Alban yn £74m, cynnydd

⁷⁹ [Universal Credit rollout could affect up to 1,200](#) (South Wales Argus, Ionawr 2018)

⁸⁰ [BBC Panorama](#) (12 Tachwedd 2018)

⁸¹ [Flintshire council tenants still owe more than 2m in rent but arrears are no longer increasing](#) (Deeside.com, 13 Chwefror, 2020)

o £9m (14.0%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gynrychioli 6.2% o Incwm Rhent Safonol o'r eiddo hyn. Mae'r ôl-ddyledion hyn wedi bod yn cynyddu'n raddol o'r naill flwyddyn i'r llall ers mis Mawrth 2013.⁸² Dangosodd y cyfrif refeniw tai fod, ar 31 Mawrth 2017, yn y pum ardal cyngor lle'r oedd gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno yn 2016-17, ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu ar gyfartaledd o 14.1% o'i gymharu â chyfartaledd o 4.1% ar draws y cynghorau eraill.⁸³

- 6.8 Canfu gwaith ymchwil gan The Smith Institute⁸⁴ fod ôl-ddyledion rhent yn fwy o broblem dan Gredyd Cynhwysol na'r system Budd-dal Tai (un o'r budd-daliadau etifeddol). Bu iddynt ddarganfod bod lefel y taliadau a fethir yn amrywio'n helaeth er nad oedd tenantiaid Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o fethu taliadau rhent na thenantiaid Budd-dal Tai. Roedd 39% o achosion o daliadau wedi'u methu mewn achosion Credyd Cynhwysol yn fwy na 75% o'r rhent sy'n ddyledus. 8% yn unig oedd y ffigwr Budd-dal Tai. Maent yn nodi bod ôl-ddyledion yn cronni'n gyflym, mewn cyfnod o 3 mis, ac yna'n sefydlogi. Canfu adroddiad dilynol gan The Smith Institute⁸⁵ fod patrwm o daliadau a fethir wedi ailymddangos dros y tymor hwy er bod ôl-ddyledion yn cael eu cynhyrchu yn ystod wythnosau cychwynnol hawliad. Gwnaethant nodi: 'Yn wythnos 20 mae tenantiaid at ei gilydd yn talu'r rhent sy'n ddyledus. Fodd bynnag, wrth i amser fynd yn ei flaen, mae patrwm o dandalu yn ailymddangos....Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod gan y rhai sydd â hawliadau lluosog am Gredyd Cynhwysol ôl-ddyledion uwch ac y gallai hawliadau lluosog achosi ôl-ddyledion parhaus'.
- 6.9 Er ei bod yn glir o'r astudiaethau hyn fod gan hawlwy'r Credyd Cynhwysol fwy o ôl-ddyledion rhent yn gyffredinol na'r rheiny sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, mae'n fwy anodd nodi pa ran o'r ôl-ddyledion rhent sy'n deillio'n uniongyrchol o Gredyd Cynhwysol, gan ei bod yn glir fod gan nifer o hawlwy'r ôl-ddyledion rhent cyn

⁸² Scottish Council Housing Income and Expenditure 2018-19 (actuals) and 2019-20 (estimates) (Llywodraeth yr Alban, 15 Hydref 2019)

⁸³ Housing Revenue Account (HRA) statistics: income and expenditure (Llywodraeth yr Alban, 31 Hydref 2017)

⁸⁴ [Safe as houses: the impact of Universal Credit on tenants and their rent payment behaviour in the London boroughs of Southwark and Croydon, and Peabody, London](#), P Hunter (The Smith Institute, 2017)

⁸⁵ [Safe as Houses 2: A follow-on report into the impact of Universal Credit on Southwark Council's housing tenants rent payment behaviour](#) (The Smith Institute, 2018)

symud i Gredyd Cynhwysol. Mae tystiolaeth bresennol wedi bod yn aneglur ynglŷn ag i ba raddau mae ôl-ddyledion yn sefydlogi dros amser. Hefyd, mae ymchwil sydd eisoes yn bodoli wedi dyddio fymryn yn anochel ac nid ydynt yn adlewyrchu o reidrwydd y cynnydd cyflym mewn cyflwyno Credyd Cynhwysol ers 2018, na'r newidiadau polisi a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 2018, gan gynnwys lleihau'r cyfnod aros cyn talu o 6 i 5 wythnos, Budd-dal Tai am bythefnos ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol, taliadau ymlaen llaw 100% (yn hytrach na 50%) o hawliad gyda thaliad mwy awtomatig, a dyblu'r cyfnod ad-dalu ar gyfer taliadau ymlaen llaw i 12 mis. Fodd bynnag, daeth astudiaeth, yn ymdrin â 1000 o denantiaid, gan gymdeithas dai Peabody ym mis Medi 2019 i'r casgliad fod 76% o denantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol mewn ôl-ddyledion ac nad oedd y diwygiadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi mynd ddigon pell.⁸⁶

6.10 Mae astudiaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi cyffwrdd â'r mater o Gredyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion rhent:

- Comisiynwyd IFF Research gan yr Adran Gwaith a Phensiynau⁸⁷ i gynnal dwy don o ymchwil ansoddol gyda hawlwr gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol. Cynhaliwyd yr arolwg yn 2017 ac roedd yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â rheoli costau tai. Yn y ddwy don (Mawrth a Medi 2017), roedd ychydig dros draean yn profi ôl-ddyledion taliadau tai. Ymhlith y rheiny mewn ôl-ddyledion, dywedodd oddeutu dau draean (65%) eu bod wedi syrthio i ddyled ar ôl hawlio Credyd Cynhwysol. Roedd arwyddion o'r sefyllfa yn gwaethygu dros amser i rai hawlwr. Roedd saith allan o ddeg (71%) o'r rheiny mewn ôl-ddyledion tri mis i mewn i'w hawliad yn dal mewn ôl-ddyledion ar y pwynt wyth mis a dywedodd 44% fod y swm sy'n ddyledus ganddynt wedi cynyddu. Fodd bynnag, dywedodd tri ym mhob deg (29%) o'r rheiny mewn ôl-ddyledion o hyd, fod y swm wedi lleihau ac roedd chwarter (27%) o'r rheiny mewn ôl-ddyledion yn y don gyntaf o'r arolwg wedi cael trefn ar eu taliadau erbyn yr ail don.

⁸⁶ [The impact of Universal Credit](#) (Peabody, Medi 2019)

⁸⁷ [Universal Credit Full Service](#) (IFF Research, 2018)

- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi ystyried effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yn eu hymchwil gyda theuluoedd.⁸⁸ Roedd yr ymchwil yn cynnwys dwy don o arolygon yn 2016 a chyfweliadau ansoddol trylwyr. Yn gynnar yn 2016, roedd yr ymchwil ansoddol yn cynnwys cyfweliadau dros y ffôn gyda 1,039 o hawlwy'r Credyd Cynhwysol teulu, y cafodd 464 ohonynt eu hail-gyfweld yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Canfu'r ymchwil fod ychydig dros ddau ym mhob pump (41%) o rentwyr mewn ôl-ddyledion gyda'u taliad rhent yn nhon 1, gan leihau i 31% yn nhon 2. Adroddodd y rhan fwyaf o deuluoedd Credyd Cynhwysol mai dyma'r tro cyntaf iddynt fod mewn ôl-ddyledion rhent yn eu llety presennol (77% yn nhon 1, 82% yn nhon 2). Yn nhon 1, adroddodd hanner yr hawlwy'r Credyd Cynhwysol teulu fod eu hól-ddyledion wedi dechrau ar ôl iddynt wneud eu hawliad presennol (49 y cant). Roedd amrywiaeth o resymau dros fod mewn ôl-ddyledion, ond amlygwyd y cyfnod aros o bum wythnos. Roedd y rhan fwyaf o'r rhesymau dros fod mewn ôl-ddyledion yn ymwneud â sefyllfa bersonol ac incwm cyfyngedig yr hawliwr.

- 6.11 Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi'r dystiolaeth arolwg uchod, adrodda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymgymryd ag unrhyw ddadansoddiad cynrychioladol, cenedlaethol o p'un a yw Credyd Cynhwysol yn creu ôl-ddyledion rhent ychwanegol. Ym mis Hydref 2018, dywedodd Gweinidog yr Adran Gwaith a Phensiynau: 'rydym ar hyn o bryd yn cynnal dadansoddiad pellach o'r mater hwn gyda nifer o ddarparwyr tai, i ymchwilio i, a deall, gwir lefel ôl-ddyledion rhent i'w tenantiaid, beth sy'n achosi'r rhain ac unrhyw effeithiau y gall Credyd Cynhwysol fod yn eu cael. Bydd yn cael ei gyhoeddi pan fydd wedi'i gwblhau'.⁸⁹
- 6.12 Ym Mehefin 2019 dywedodd Gweinidog yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y pryd, Alok Sharma, fod yr Adran yn ymchwilio i'r cyswllt rhwng Credyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion rhent.⁹⁰ Aeth yn ei flaen i ddyfynnu adroddiad o Orffennaf 2018, gan

⁸⁸ [Universal Credit Test and Learn Evaluation: Families](#) (Ipsos Mori ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau, Medi 2017)

⁸⁹ [Ymateb i gwestiwn ysgrifenedig 181576](#) (Hansard, 29 Hydref 2018)

⁹⁰ [Credyd Cynhwysol a Dyled](#) (Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin, 5 Mehefin 2019)

Ffederasiwn Cenedlaethol y Sefydliadau Rheolaeth Hyd Braich fod 75% o hawlwyd oedd ag ôl-ddyledion rhent eisoes ag ôl-ddyled cyn i'w cais am gredyd cynhwysol ddechrau a chrybwyllodd ganfyddiadau'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn gwaith ymchwil cynnar⁹¹ fod nifer yr hawlwyd ag ôl-ddyledion wedi gostwng o draean ar ôl 4 mis. Rhoddwyd ymateb tebyg i gwestiwn Seneddol yn 2017.⁹²

Dadansoddiad Data Gweinyddol

Set ddata

- 6.13 Gofynnwyd am detholiadau ôl-ddyledion rhent gan bob un o'r awdurdodau lleol a gymerai ran, yn ogystal â chymdeithasau tai ar gyfer yr awdurdodau hynny heb eu stoc tai cymdeithasol eu hunain. Noder mai data am ôl-ddyledion rhent ar gyfer y rheiny mewn tai cymdeithasol oedd ar gael yn unig.
- 6.14 Roedd y detholiadau ôl-ddyledion hyn yn cynnwys gwybodaeth am lefel ôl-ddyledion rhent, ond dim gwybodaeth arall am amgylchiadau aelwydydd. Er mwyn archwilio'r berthynas rhwng Credyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion rhent, parwyd y detholiadau ôl-ddyledion â data SHBE gan bob awdurdod lleol yn defnyddio rhifau cyfeirnod budd-dal tai. Roedd y broses baru hon yn llwyddiannus i rhwng 6 a 8 awdurdod lleol⁹³, (yn dibynnu ar y don o gasglu data, gyda chyfanswm maint sampl o 101,833 o aelwydydd unigryw mewn tai cymdeithasol yr oedd data wedi'i baru ar gael iddynt (70,437 sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, 27,963 sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a 3,433 o aelwydydd a oedd wedi ymfudo o fudd-daliadau etifeddol i

⁹¹ [Universal Credit: test and learn evaluation - families](#) (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Medi 2017)

⁹² [Ymateb i Gwestiwn Seneddol ar ôl-ddyledion rhent a Chredyd Cynhwysol](#) (Tŷ'r Cyffredin, 13 Tachwedd 2017)

⁹³ Casglwyd detholiadau ôl-ddyledion rhent gan gyfanswm o 13 awdurdod lleol (naill ai gan eu timau tai eu hunain neu gan y cymdeithasau tai sy'n rheoli'r stoc tai yn yr ardal honno). Lle'r oedd gan gymdeithasau tai stoc mewn sawl awdurdod lleol, parwyd y rhain gyda data SHBE priodol yr awdurdod lleol yn seiliedig ar y codio rhanbarthol ar gyfer pob aelwyd. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r detholiadau ôl-ddyledion a gafwyd yn cynnwys adnabyddwyr digonol i baru aelwydydd â'r wybodaeth ddemograffeg yn y detholiadau budd-dal tai a'r dreth gyngor. Ar ben hynny, yn yr un modd â data ôl-ddyledion y dreth gyngor, ymhlith y detholiadau ôl-ddyledion hynny a barwyd yn llwyddiannus â'r setiau data SHBE craidd, dangosodd nifer o awdurdodau lleol gyfraddau ôl-ddyledion rhent cyffredinol islaw 1% (o'r garfan HB/CTR). Credwn fod y cyfraddau ôl-ddyledion isel hyn yn fwy tebygol o adlewyrchu problemau gyda'r data craidd yn hytrach na gwir gyflwr ôl-ddyledion yn yr awdurdodau lleol hyn. Felly, penderfynom eithrio'r setiau data gan awdurdodau lleol yn dangos llai na 1% o'r garfan HB/CTRS mewn ôl-ddyledion rhent. Lleihaodd y problemau paru hyn gyfanswm sampl yr awdurdodau lleol o'r 13 a oedd yn darparu data crai i'r 6-8 a nodir yng nghorff y testun. Pe bai astudiaeth fwy cynhwysfawr o ôl-ddyledion rhent yng Nghymru yn cael ei chynnal yn y dyfodol, byddem yn argymhell rhaglen o safoni data ar draws y detholiadau ôl-ddyledion rhent a gofnodwyd gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i hwyluso dadansoddi o'r math hwn.

Gredyd Cynhwysol yn ystod y ffenestr casglu data rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019). Roedd y gyfran o aelwydydd mewn ôl-ddyledion rhent o fewn pob ton yn amrywio o 11% i 21%.⁹⁴ Oherwydd hyn, lle bo'n bosib mae pob dadansoddiad dilynol wedi cael ei strwythuro i gyfuno canfyddiadau ar draws tonnau.⁹⁵

Effaith Credyd Cynhwysol ar gyffredinolrwydd ôl-ddyledion rhent

- 6.15 I archwilio cyffredinolrwydd ôl-ddyledion rhent, rhoddwyd cod 'mewn ôl-ddyledion' i aelwydydd os gwnaethant gofnodi lefel ôl-ddyledion rhent uwchlaw sero ar unrhyw adeg ar y naill system fudd-dal. Golygodd hyn fod aelwydydd, a symudodd o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data, wedi cofnodi dwy sgôr 'mewn ôl-ddyledion', un ar gyfer y naill system. Golyga hyn yn y dadansoddiad hwn, fod aelwydydd a symudodd o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data yn cael eu cyfrif tuag at gyfraddau ôl-ddyledion rhent ar gyfer y ddwy system fudd-dal.
- 6.16 Dewiswyd y dull hwn i ddarparu cyfraddau ôl-ddyledion rhent sy'n gysylltiedig yn benodol â'r ddwy system fudd-dal. Ymchwiliodd dadansoddiad dilynol i batrymau o ôl-ddyledion rhent ar gyfer aelwydydd wrth iddynt symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol.
- 6.17 Ar draws yr holl sampl o gofnodion aelwydydd o bob un o'r pedair ton o ddata, roedd cyffredinolrwydd ôl-ddyledion rhent yn uwch i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol nag i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

⁹⁴ Mawrth: Parwyd 6 awdurdod lleol, 50,080 aelwyd, yr oedd 10,603 mewn ôl-ddyledion rhent, cyfartaledd o 21% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion rhent fesul awdurdod lleol; Mehefin: Parwyd 6 awdurdod lleol, 48,719 aelwyd, yr oedd 8,628 mewn ôl-ddyledion rhent, cyfartaledd o 15% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion rhent fesul awdurdod lleol; Medi: Parwyd 8 awdurdod lleol, 78,082 aelwyd, yr oedd 8,784 mewn ôl-ddyledion rhent, cyfartaledd o 11% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion rhent fesul awdurdod lleol; Tachwedd: Parwyd 7 awdurdod lleol, 58,557 aelwyd, yr oedd 11,052 mewn ôl-ddyledion rhent, cyfartaledd o 19% o aelwydydd mewn ôl-ddyledion rhent fesul awdurdod lleol. O'r 11 awdurdod lleol a ddarparodd ddata ar ryw adeg, roedd 4 wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru a'r gweddill yn ne Cymru.

⁹⁵ Noder y golyga hyn fod rhai dadansoddiadau yn seiliedig ar gyfuno ar draws aelwydydd unigryw, tra mae eraill yn cyfuno ar draws cofnodion unigol. Mewn rhai achosion, golyga hyn fod rhai aelwydydd unigol yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith (er enghraifft os cofnodwyd eu bod ar fudd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data).

- Cofnododd 13% o aelwydydd Credyd Cynhwysol ôl-ddyledion rhent uwchben sero ar ryw adeg rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019 (3,999 aelwyd allan o 31,396).
- Cofnododd 20% o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol rhyw lefel o ôl-ddyledion rhent rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019 (14,503 allan o 73,870 aelwyd).

Cyffredinolrwydd ôl-ddyledion rhent yn ôl grwpiau sy'n agored i niwed

- 6.18 Fel gyda'r dadansoddiad o ôl-ddyledion y dreth gyngor, ffactorau bregusrwydd oedd y rheiny yn ymwneud â newid mewn budd-daliadau neu amhariad arnynt. Defnyddiwyd yr un pedwar is-grŵp agored i niwed (o safbwynt budd-daliadau) ar gyfer y dadansoddiad hwn a'r holl rai wedyn: aelwydydd sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl (neu fudd-daliadau tebyg, e.e., Taliad Annibyniaeth Personol), aelwydydd sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gofalwyr, ac unig rieni gyda phlant o dan bump oed.
- 6.19 Roedd patrymau cyffredinolrwydd ôl-ddyledion rhent a welwyd ar draws y sampl cyfan yr un fath ar draws is-grwpiau agored i niwed gyda chyffredinolrwydd uwch i'w weld ar gyfer y rheiny sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.⁹⁶ Gweler Ffigwr 3.1.

⁹⁶ Cyfanswm maint sampl:


Lwfans Byw i'r Anabl n (etifeddol) = 29,729 yr oedd 5,817 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 4,497 yr oedd 559 mewn ôl-ddyledion rhent;

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth n (etifeddol) = 42,402 yr oedd 8,659 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 4,193 yr oedd 586 mewn ôl-ddyledion rhent;

Unig riant gyda phlentyn n (etifeddol) = 5,666 yr oedd 1,094 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 3,710 yr oedd 419 mewn ôl-ddyledion rhent;

Gofalwr n (etifeddol) = 9,612 yr oedd 1,863 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 1,517 yr oedd 204 mewn ôl-ddyledion rhent

Ffigwr 3.1 Cyfran yr Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Grŵp Agored i Niwed



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 96


- 6.20 Roedd y cyffredinolrwydd uwch o ôl-ddyledion rhent i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol o'i gymharu â Chredyd Cynhwysol yn gwbl groes i'r gymhariaeth gyfwerth ar gyfer ôl-ddyledion y dreth gyngor. Y rheswm mwyaf tebygol am hyn yw'r gwahaniaethau yn y dosbarthiad o lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent. Trafodir yr esboniad hwn mewn mwy o fanylder isod.

Cyffredinolrwydd ôl-ddyledion rhent yn ôl math o ddeiliadaeth

- 6.21 Ymhlith tenantiaid y cyngor, roedd ôl-ddyledion rhent yn fwy cyffredin o lawer i'r rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (69% o aelwydydd) o'i gymharu â'r rheiny sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (34%). Gwyrdrowyd y patrwm hwn (er bod lefelau cyffredinolrwydd cyffredinol yn is) i denantiaid cymdeithasau tai (33% o aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau etifeddol o'i gymharu â 17% o aelwydydd sy'n

hawlio Credyd Cynhwysol), gyda phatrwm tebyg i'r rheiny mewn llety â chymorth (11% etifeddol o'i gymharu â 2% Credyd Cynhwysol)⁹⁷. Gweler Ffigwr 3.2.

Ffigwr 3.2 Cyfran yr Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Daliadaeth



Ar gyfer maint sampl, gweler troednodyn 97

Effaith Credyd Cynhwysol ar y lefel o ôl-ddyledion rhent

6.22 Er mwyn cymharu lefelau ôl-ddyledion rhent rhwng budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol, cyfrifwyd lefelau ôl-ddyledion cyfartalog ar wahân ar gyfer yr holl gofnodion unigol yn gysylltiedig â phob system fudd-dal. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r dadansoddiad blaenorol uchod, a gyfunodd ar draws cofnodion i adnabod aelwydydd mewn ôl-ddyledion rhent 'ar unrhyw adeg'.

⁹⁷ Cyfanswm maint sampl:

Tenantiaid y cyngor: n (etifeddol) = 5,524 allan o 16,464, n (Credyd Cynhwysol) = 641 allan o 924;
 Tenantiaid cymdeithasau tai: n (etifeddol) = 7,878 allan o 24,197, n (Credyd Cynhwysol) = 661 allan o 3,858;
 Llety â chymorth: n (etifeddol) = 105 allan o 988, n (Credyd Cynhwysol) = 3 allan o 142;
 Llety dros dro: n (etifeddol) = 5 allan o 429, n (Credyd Cynhwysol) = 2 allan o 211.

- 6.23 Yn yr un modd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, roedd ôl-ddyledion rhent yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Yr ôl-ddyledion rhent cyfartalog oedd £495 i gofnodion aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ar draws 8,195 cofnod yn dangos rhyw lefel o ôl-ddyledion, o gyfanswm sampl o 63,670 cofnod o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol). Roedd hyn yn uwch o lawer na'r ôl-ddyledion rhent cyfartalog o £206 (ar draws 30,872 aelwyd yn dangos rhyw lefel o ôl-ddyledion, o'r cyfanswm o 171,768 o gofnodion) i gofnodion aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.
- 6.24 Roedd y patrwm hwn yn gyson ar draws pob un o'r pedair ton o gasglu data,⁹⁸ yn ogystal ag ar draws pob un o'r pedwar is-grŵp⁹⁹. Gweler Ffigwr 3.3. a 3.4 yn eu tro.

⁹⁸ Ton 1: n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau etifeddol) = 39,872 yr oedd 9,086 mewn ôl-ddyledion rhent, n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol) = 10,208 yr oedd 1,517 mewn ôl-ddyledion rhent

Ton 2: n (etifeddol) = 35,520 yr oedd 6,839 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 13,199 yr oedd 1,789 mewn ôl-ddyledion rhent

Ton 3: n (etifeddol) = 56,007 yr oedd 6,447 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 22,075 yr oedd 2,337 mewn ôl-ddyledion rhent

Ton 4: n (etifeddol) = 40,369 yr oedd 8,500 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 18,188 yr oedd 2,552 mewn ôl-ddyledion rhent


⁹⁹ Lwfans Byw i'r Anabl neu debyg: n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau etifeddol) = 75,851 yr oedd 13,246 mewn ôl-ddyledion rhent, n (cofnodion aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol) = 11,384 yr oedd 1,456 mewn ôl-ddyledion rhent

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu debyg: n (etifeddol) = 106,596 yr oedd 19,470 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 10,743 yr oedd 1,500 mewn ôl-ddyledion rhent;

Unig riant gyda phlentyn dan 5: n (etifeddol) = 12,933 yr oedd 2,563 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 8,377 yr oedd 1,152 mewn ôl-ddyledion rhent

Gofalwr: n (etifeddol) = 22,822 yr oedd 4,058 mewn ôl-ddyledion rhent, n (Credyd Cynhwysol) = 3,515 yr oedd 505 mewn ôl-ddyledion rhent


Ffigwr 3.3 Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion i Gofnodion Aelwydydd sy'n Dangos Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Ton Casglu Data



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 98

Ffigwr 3.4: Lefel Gyfartalog o Ôl-ddyledion Rhent i Gredyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol yn ôl Grŵp sy'n Agored i Niwed


Lefel gyfartalog o ôl-ddyledion rhent (ac eithrio cofnodion gyda dim ôl-ddyledion) dan fudd-daliadau etifeddol yn erbyn Credyd Cynhwysol, wedi'i rhannu yn ôl grŵp bregus



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 99

- 6.25 Yn yr un modd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, dangosodd 37% o'r cofnodion rhywfaint o ôl-ddyledion rhent yn ystod y cyfnod casglu data fod gan aelwydydd ôl-ddyledion rhent rhwng £1 a £100 (14,563 o'r 39,067 o gofnodion yn dangos rhywfaint o ôl-ddyledion). Gweler Ffigwr 3.5.

Ffigwr 3.5: Cyfran o Gofnodion Aelwydydd sydd ag Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Lefel o Ôl-ddyledion




Maint sampl = 39,067

- 6.26 Fodd bynnag, fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, roedd dosbarthiad ôl-ddyledion rhent yn wahanol i'r aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol. Pan gafodd ôl-ddyledion rhent i'r ddwy system fudd-dal eu dadgyfuno, roedd gan aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol lefelau is o ôl-ddyledion nag aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Gweler Ffigwr 3.6.

Ffigwr 3.6: Cyfran o Gofnodion Aelwydydd sydd ag Ôl-ddyledion Rhent yn ôl Lefel o Ôl-ddyledion a Math o Fudd-dal

Canran o gofnodion aelwydydd ar lefelau gwahanol o ôl-ddyledion rhent (ac eithrio cofnodion gyda dim dyledion), wedi'i rhannu yn ôl system fudd-daliadau



Maint sampl = 39,067

- 6.27 Dengys y canlyniadau hyn fod cyfran uwch o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn fwy tebygol o fod mewn ôl-ddyledion rhent, ond roedd y rhain ar lefelau isel. O'i gymharu, roedd cyfran is o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol mewn ôl-ddyledion rhent, ond roedd y rheiny mewn ôl-ddyledion yn profi lefelau uwch o ôl-ddyledion.
- 6.28 Noder bod y gwahaniaeth hwn yn y dosbarthiad o lefelau ôl-ddyledion rhwng budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol yn fwy amlwg i ôl-ddyledion rhent nag ydoedd i ôl-ddyledion y dreth gyngor. Ar gyfer ôl-ddyledion y dreth gyngor (gweler Ffigwr 2.2), dangosodd y gyfran uchaf o gofnodion ôl-ddyledion yn y categori £1-£100 i fudd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol. Er bod y gyfran o gofnodion gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor yn y categori £1-£100 fymryn yn uwch i fudd-daliadau etifeddol na Chredyd Cynhwysol, roedd y cyfrannau o gofnodion gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor ym mhob categori arall yn uwch i Gredyd Cynhwysol nag i

fudd-daliadau etifeddol. Eglura hyn pam fod y gyfradd gyfartalog gyffredinol o ôl-ddyledion y dreth gyngor yn uwch i Gredyd Cynhwysol nag i fudd-daliadau etifeddol.


- 6.29 Fodd bynnag, roedd y darlun fymryn yn wahanol i ddosbarthiad ôl-ddyledion rhent. Dangosodd y gyfran uchaf o gofnodion ôl-ddyledion rhent yn y categori £1-£100. I Gredyd Cynhwysol, fodd bynnag, roedd dosbarthiad lefelau ôl-ddyledion yn fwy cyson ar draws yr ystod o lefelau ôl-ddyledion. Golyga hyn fod cyfran uwch o gofnodion gydag ôl-ddyledion yn y categori £1-£100 (a £100-£200) i fudd-daliadau etifeddol o'i gymharu â Chredyd Cynhwysol. Eglura hyn pam fod cyffredinolrwydd cyfartalog ôl-ddyledion rhent ar y cyfan yn uwch i fudd-daliadau etifeddol nag i Gredyd Cynhwysol (gweler Ffigwr 3.6).

Effaith symud i Gredyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent

- 6.30 Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, ni syrthiodd y rhan fwyaf (66%, 2,282 allan o 3,433 aelwyd) o aelwydydd a symudodd o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol ar ryw adeg rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019, i ôl-ddyledion rhent ar unrhyw adeg.
- 6.31 Ymhlith yr aelwydydd gyda rhyw lefel o ôl-ddyledion rhent wrth symud i Gredyd Cynhwysol, ni welodd 8% eu hól-ddyledion yn newid (h.y. newid o lai na £5; 96 allan o 1,151 aelwyd). Gwelodd cyfran uwch o aelwydydd gynnnydd yn y lefel o ôl-ddyledion rhent (58%, 677 aelwyd gan gynnwys y rheiny yn syrthio i ôl-ddyledion a'r rheiny gyda chynnydd mewn ôl-ddyledion blaenorol) na'r rheiny a welodd leihad (33%, 378 aelwyd gan gynnwys y rheiny yn symud allan o ôl-ddyledion a'r rheiny gyda lleihad mewn ôl-ddyledion blaenorol). Gweler Ffigwr 3.7.

Ffigwr 3.7 Cyfran o Aelwydydd mewn Ôl-ddyledion Rhent sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion Rhent ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol

Canran o aelwydydd sy'n profi newidiadau gwahanol mewn ôl-ddyledion rhent wrth symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol (ac eithrio aelwydydd heb ôl-ddyledion ar unrhyw adeg)



Maint sampl = 1,151

Effaith symud i Gredyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent, yn ôl grwpiau sy'n agored i niwed


- 6.32 Roedd y patrymau o newid i ôl-ddyledion rhent wrth symud i Gredyd Cynhwysol yn gyson yn gyffredinol ar draws yr is-grwpiau bregus. Ni phrofodd 60-63% o aelwydydd ôl-ddyledion rhent ar unrhyw adeg wrth symud, yn dibynnu ar yr is-grŵp. O'r rheiny a brofodd ryw lefel o ôl-ddyledion rhent yn ystod symud¹⁰⁰, profodd 55-

¹⁰⁰ Lwfans Byw i'r Anabl neu debyg: n = 340 (aelwydydd yn symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod casglu data gyda rhyw lefel o ôl-ddyledion)
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu debyg: n = 494
Unig riant gyda phlentyn dan 5: n = 204
Gofalwr: n = 220

62% o aelwydydd gynnydd mewn ôl-ddyledion (naill ai symud i ôl-ddyledion, neu gynnydd mewn ôl-ddyledion presennol) yn dibynnu ar yr is-grŵp. Gweler Ffigwr 3.8.

Ffigwr 3.8 Cyfran o Aelwydydd sy'n Agored i Niwed mewn Ôl-ddyledion Rhent sy'n Profi Newidiadau mewn Ôl-ddyledion Rhent ar ôl Symud i Gredyd Cynhwysol

Canran o aelwydydd sy'n profi newidiadau gwahanol mewn ôl-ddyledion rhent wrth symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol, wedi'i rhannu yn ôl grŵp bregus



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 100

Effaith y system fudd-daliadau ar dueddiadau mewn ôl-ddyledion rhent


6.33 Roedd y dadansoddiad hwn yn cynnwys pob aelwyd a oedd mewn ôl-ddyledion rhent ar ryw adeg rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2019. Mae pob pwynt data yn y dadansoddiad yn cynrychioli statws aelwyd a ddilynrir o un don i'r nesaf. Er enghraifft, byddai aelwyd a oedd yn derbyn budd-daliadau etifeddol yng nghiplun Mawrth, ond a gofnodwyd fel un a hawliai Gredyd Cynhwysol yng nghiplun Mehefin yn darparu pwynt data sengl wedi'i godio fel 'Symud o Etifeddol i Gredyd Cynhwysol'. Cyfartalwyd y newidiadau o don i don hyn mewn ôl-ddyledion rhent ar

gyfer pob math o symud. Gwnaed cymhariaeth yna rhwng y newid cyfartalog mewn ôl-ddyledion ar gyfer symudiadau lle'r oedd aelwydydd yn parhau i dderbyn budd-daliadau etifeddol ar draws tonnau dilynol; y newid cyfartalog mewn ôl-ddyledion ar gyfer symudiadau lle'r oedd aelwydydd yn parhau i dderbyn Credyd Cynhwysol ar draws tonnau dilynol; a'r newid cyfartalog mewn ôl-ddyledion ar gyfer symudiadau lle'r oedd aelwydydd yn symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol rhwng tonnau dilynol.

- 6.34 Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, gwelodd aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gynnydd cyfartalog uwch mewn ôl-ddyledion rhent rhwng y ddwy hon (£55) na'r aelwydydd hynny ar fudd-daliadau etifeddol (£12)¹⁰¹. Gweler Ffigwr 3.9.
- 6.35 Yn yr un modd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, dangosodd aelwydydd sy'n ymfudo o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol gynnydd cyfartalog mawr mewn ôl-ddyledion rhent (£189). Fodd bynnag, roedd y maint sampl i'r grwpiau budd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn gymharol fach unwaith eto (dim ond 932 aelwyd), felly dylid trin y canfyddiad hwn gyda gofal.

¹⁰¹ Nifer y symudiadau o don i don lle bu i aelwydydd...
...aros ar fudd-daliadau etifeddol: n = 11,880
...symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol: n = 932
...aros ar Gredyd Cynhwysol: n = 3,042

Ffigwr 3.9 Newid Cyfartalog mewn Ôl-ddyledion Rhent rhwng Tonnau Dilynol o Gasglu Data, yn ôl Statws Budd-dal yn ystod Symud



Ar gyfer meintiau sampl, gweler troednodyn 101


Effaith y system fudd-daliadau ar dueddiadau mewn ôl-ddyledion rhent yn ôl grwpiau sy'n agored i niwed

- 6.36 O ystyried y maint sampl bach ar gyfer aelwydydd sy'n symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol, nid yw dadansoddiadau manwl yn ôl is-grŵp wedi cael eu hadrodd.

Arolygon a Chyfweliadau

- 6.37 Yn ôl yr arolwg hawlwydd, dywedodd 37% o ymatebwyr (146 allan o 393) eu bod mewn ôl-ddyledion rhent ar hyn o bryd - a ddiffinnir fel bod ar ôl ei hol gyda dau neu fwy o daliadau. O'r ymatebwyr gydag ôl-ddyledion rhent, roedd gan 23% (34 o ymatebwyr) ôl-ddyledion rhent dros £1000, ac nid oedd 3% (5 o ymatebwyr) yn gwybod faint o ôl-ddyledion rhent oedd ganddynt. Gweler Ffigwr 3.10.

Ffigwr 3.10 Arolwg: Faint o Ôl-ddyledion Rhent Sydd Arnoch?



Maint sampl = 145

Credyd Cynhwysol ac Ôl-ddyledion Rhent

Hawlwyr

- 6.38 Cyn symud i Gredyd Cynhwysol, adroddodd 80% o ymatebwyr (309 allan o 388) nad oedd ganddynt ôl-ddyledion rhent. O'r 80% hwn, syrthiodd 35% (107) o ymatebwyr i ôl-ddyledion rhent wrth symud i'r budd-dal newydd.
- 6.39 Yn gyffredinol, roedd 45% o ymatebwyr ar Fudd-dal Tai (39 allan o 87) mewn ôl-ddyledion rhent, o'i gymharu â 43% o ymatebwyr (131 allan o 303) ar Gredyd Cynhwysol mewn ôl-ddyledion rhent.
- 6.40 Adroddodd 44% o'r holl ymatebwyr (166 allan o 381) gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent o ganlyniad i symud i Gredyd Cynhwysol, o'i gymharu â 6% (22) a adroddodd lleihad mewn ôl-ddyledion rhent.
- 6.41 O'r rheiny a brofodd gynnydd yn eu hól-ddyledion rhent o ganlyniad i Gredyd Cynhwysol, yr achosion mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd bod yn

gymwys am lai o gymorth (46%, 74 allan o 162 o ymatebion), dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos (53%, 86 o ymatebion) ac anawsterau wrth gyllidebu gyda thaliadau misol (44%, 71 o ymatebion) (roedd ymatebwyr yn gallu dewis sawl esboniad).

Rhanddeiliaid

- 6.42 Roedd barn rhanddeiliaid ynghylch ôl-ddyledion rhent dan Gredyd Cynhwysol yn hyd yn oed mwy llwm na barn hawlwr. Adroddodd 91% o randdeiliaid (219 allan o 242) eu bod wedi gweld cynnydd yn yr achosion o ôl-ddyledion rhent o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol.
- 6.43 Roedd y rhesymau dros hyn yn gymysg. Priodolodd mwy na 70% o ymatebwyr y newid i ddyledion a ysgwyddir tra mae hawlwr yn aros am eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf (77%, 168 allan o 218 o ymatebwyr), hawlwr yn cael anawsterau i gyllidebu yn sgil y strwythur talu misol (70%, 153 o ymatebion), neu'r taliad uniongyrchol o'r elfen tai i hawlwr (77%, 167 o ymatebion). Cyfeiriodd cyfran uchel o randdeiliaid hefyd at newidiadau mewn lefelau dyfarnu dan Gredyd Cynhwysol, (45%, 97 o ymatebion), oedi gyda thaliadau (68%, 148 o ymatebion) ac anawsterau gyda'r broses hawlio ar-lein (50%, 110 o ymatebion) (fel gyda'r arolwg hawlwr, roedd ymatebwyr yn gallu dewis sawl esboniad).
- 6.44 Yn yr un modd, adroddodd 90% o randdeiliaid (213 allan o 237) gynnydd yn nifrifoldeb ôl-ddyledion rhent o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol, gydag esboniadau tebyg yn cael eu cynnig dros y newid mewn cyffredinolrwydd (nododd 38% neu 79 o ymatebion newidiadau dyfarnu, nododd 73% neu 153 ddyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos, nododd 65% neu 136 anawsterau i gyllidebu gyda thaliadau misol, nododd 73% neu 152 y taliad uniongyrchol o gostau tai, nododd 66% neu 138 oedi gyda thaliadau a nododd 43% neu 89 anawsterau gyda hawliadau ar-lein).
- 6.45 Codwyd sawl mater a adnabyddir gan ymatebwyr i'r arolwg yn ymwneud â chynnydd mewn ôl-ddyledion dan Gredyd Cynhwysol gan ymatebwyr i'r cyfweiliadau hefyd. Er enghraifft:

Problemau gyda Diffyg Cymorth

"Ni chawsom wybod gan ein swyddog tai na'r Ganolfan Waith fod rhaid i ni nodi ein bod eisïau ôl-daliad ar gyfer rhent. Tybiom gan fod ein hawliad wedi dechrau deufis cyn ein taliad cyntaf, y byddai'n defnyddio'r dyddiadau a roddwyd yn awtomatig."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

Y Cyfnod Aros o Bum Wythnos

"Telir Credyd Cynhwysol bob 4 wythnos fel ôl-daliad gyda "chyfnod aros" o 2 wythnos. Rwyf bob amser 6 wythnos ar ei hôl hi. Yn ogystal, cyfrifir Credyd Cynhwysol yn fisol ac mae fy rhent yn ddyledus wythnos ymlaen llaw. Pan mae yna 5 wythnos mewn mis, rwy'n mynd i fwy o ôl-ddyled."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

- 6.46 Canfu hawliwr a holwyd, a oedd wedi bod mewn gwaith yn flaenorol, pan ddaeth ei swydd i ben, fod aros am ddyfarniad Credyd Cynhwysol, ynghyd â'r taliad mewn ôl-daliadau, wedi golygu ei bod deufis ar ei hôl gyda'i rhent.

"...oherwydd gyda Chredyd Cynhwysol, rydym eisoes mis ar ei hôl hi o'r dechrau. Felly, achosodd hyn i mi fod deufis ar ei hôl hi a chefais fy mygwth gyda throi allan. Cysylltais â Cyngor ar Bopeth, cysylltais â'r cyngor. Ni allai'r cyngor helpu gyda'r cynllun talu sydd ganddynt oherwydd cyn belled ag yr oeddent yn y cwestiwn, roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn talu fy rhent yn llawn."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

- 6.47 Adroddodd rhanddeiliaid o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai lefel uwch o ôl-ddyledion rhent yn gyffredinol (o'i gymharu â landlordiaid preifat a sefydliadau eraill), a dywedodd y rhan fwyaf fod ôl-ddyledion rhent yn effeithio ar gyfran uwch o'u tenantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol na'r hyn oedd yn wir i denantiaid sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Nodwyd sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys yr

aros am y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, neu newidiadau mewn amgylchiadau ac oriau gweithio, sy'n arwain at y newidiadau yn y lefel o Gredyd Cynhwysol gan ei gwneud yn fwy anodd i denantiaid dalu eu rhent. Yn ogystal, eglurodd nifer o randdeiliaid sy'n landlordiaid cymdeithasol (o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) sut yr oedd mwy o ôl-ddyledion rhent wedi dod i'r fei oherwydd y diffyg cyfatebiaeth rhwng y cylch talu ar gyfer taliadau uniongyrchol o rent i landlordiaid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r cylch talu ar gyfer y rhent ei hun.

Problemau gydag Amseriad Taliadau

"Mae [hynny]'n cael effaith fawr. Mae'r ffenestr methu taliadau yn digwydd oherwydd ein bod yn cael ein taliadau gan Gredyd Cynhwysol bob 28 diwrnod, felly mae 13 gwaith mewn blwyddyn lle cawn ein talu, lle mae hawlwy'r Credyd Cynhwysol yn cael eu talu 12 gwaith mewn blwyddyn. Felly, bydd un ffenestr talu bob blwyddyn, ar gyfer pob hawlwydd Credyd Cynhwysol, lle na fyddwn yn derbyn dim o'r elfen cost tai, a chanlyniad hyn, yw cyfnod o wyth wythnos ar y cyfrif rhent heb ddim taliad. Felly, gallwch ddychmygu, os dywedir bod rhent yn £100 yr wythnos, ar gyfartaledd, mae'r cynnydd mewn ôl-ddyledion yn ystod y cyfnod hwnnw'n anferth, bydd yn cynyddu i £800 o ôl-ddyledion."

(Rhanddeiliad, awdurdod lleol)

- 6.48 Mae'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y cylchoedd talu hefyd wedi gwneud hi'n anodd i landlordiaid ddweud y gwahaniaeth rhwng ôl-ddyledion technegol a achosir gan gamosodiadau talu ac ôl-ddyledion gwirioneddol a achosir gan naill ai methiant tenantiaid i dalu eu rhent neu daliadau anghywir o Gredyd Cynhwysol. Adroddodd landlordiaid cymdeithasol mewn cyfweiliadau fod datrys y problemau hyn yn cymryd llawer o'u hadnoddau (roedd pump o'r rhanddeiliaid a holwyd yn landlordiaid y sector rhentu preifat, pump yn gweithio i awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai, a phedwar yn gweithio i sefydliadau'r trydydd sector eraill a oedd ynghlwm â chefnogi hawlwy'r budd-daliadau).
- 6.49 Credai landlordiaid preifat a holwyd fod ôl-ddyledion rhent hefyd wedi cynyddu o dan Gredyd Cynhwysol oherwydd nad oedd rhai tenantiaid yn blaenoriaethu talu eu rhent pan oeddent yn derbyn yr elfen tai o'u Credyd Cynhwysol eu hunain. Teimlai

landlordiaid ei fod yn fwy o risg i gymryd tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau os gwneir taliadau tai i'r tenant yn hytrach na'r landlord, a bod y system flaenorol, lle gwnaed taliadau uniongyrchol i'r landlord yn fwy aml, yn well. Dywedodd un na fyddai'n cymryd tenantiaid Credyd Cynhwysol eto o ganlyniad i brofiad negyddol gyda thenant Credyd Cynhwysol a wnaeth gronni ôl-ddyledion.

"Nid yw rhai ohonynt yn talu. Mae ganddynt yr agwedd yna... Ie, mae wedi bod yn gynnydd mawr [mewn ôl-ddyledion]. Yn syml, mae'n risg mawr pan rwy'n cymryd tenant, ni fyddwn yn wynebu'r risg hwnnw pe bawn yn cael yr arian yn uniongyrchol."

(Rhanddeiliad, landlord preifat)

Cymharu Data Arolwg a Gweinyddol

- 6.50 Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, roedd y patrymau eang o ganfyddiadau yn debyg i'r arolygon hunangofnodi a'r dadansoddiad o'r data gweinyddol. Roedd cyfraddau cyffredinol o ôl-ddyledion rhent yn uwch yn yr arolygon (yn enwedig yn yr arolwg rhanddeiliaid). Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, gellir priodoli hyn i duedd hunanddewis ymhlith ymatebwyr arolwg (yn enwedig rhanddeiliaid) neu duedd sampl yn y garfan weinyddol. Mae hefyd werth nodi gwahaniaeth allweddol rhwng y carfannau arolwg (hawlwr) a gweinyddol, o ran bod y data gweinyddol yn cofnodi ôl-ddyledion rhent i'r rheiny mewn tai cymdeithasol yn unig. Gall fod yn wir felly fod y lefel o ôl-ddyledion rhent o dan Gredyd Cynhwysol yn uwch i'r rheiny mewn llety'r sector rhentu preifat. Yn wir, mae'n debygol mai dyma yw'r achos o ystyried nad yw'r elfen tai o'r Credyd Cynhwysol yn ddigon bob amser i dalu costau rhent yn y sector rhentu preifat.
- 6.51 Yn y dadansoddiad o'r data gweinyddol, canfuwyd bod aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn dangos cyfraddau uwch o ôl-ddyledion rhent na'r rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Roedd y gwahaniaeth hwn yn bresennol, ond yn llai amlwg, yn y data arolwg. Unwaith eto, gellir priodoli hyn i hunanddewis ar gyfer hawlwr gyda lefelau uwch o ôl-ddyledion (ar y naill system) yn y garfan arolwg, neu'r ffaith bod y sampl hawlwr yn cynnwys y rheiny mewn llety rhentu preifat.

Casgliad

- 6.52 Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, awgrymodd yr arolygon hunangofnodi a'r dadansoddiad o'r data arolwg fod ôl-ddyledion rhent yn tueddu i fod yn uwch o dan Gredyd Cynhwysol o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol.
- 6.53 Dangosodd data arolwg gan randdeiliaid a hawlwyd fod mwy o ôl-ddyledion dan Gredyd Cynhwysol. Mae hyn yn wahanol i'r dadansoddiad o'r data gweinyddol a ddangosodd fod ôl-ddyledion rhent yn fwy cyffredin dan fudd-daliadau etifeddol.
- 6.54 Dan y system etifeddol, roedd ôl-ddyledion rhent yn fwy tebygol o fod yn isel gydag oddeutu traean o'r holl ôl-ddyledion dan £200. Roedd lefelau uwch o ôl-ddyledion rhent yn llai tebygol o lawer; 2% yn unig oedd dros £1000. O'i gymharu, dan Gredyd Cynhwysol, roedd dosbarthiad lefelau ôl-ddyledion rhent yn gymharol wastad. Roedd ôl-ddyledion rhent dan Gredyd Cynhwysol bron yr un mor debygol o fod yn fwy na £1000 ag yr oeddent o fod yn llai na £100. Ar y cyfan, roedd ôl-ddyledion rhent is yn fwy cyffredin mewn aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol ac roedd ôl-ddyledion rhent uwch yn fwy cyffredin mewn aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.
- 6.55 Dylid nodi bod canlyniadau'r arolwg rhanddeiliaid yn eithafol iawn, gyda bron i bob rhanddeiliad yn adrodd bod lefelau ôl-ddyledion rhent a chyffredinolrwydd ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol.
- 6.56 Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, roedd y patrymau o newid mewn ôl-ddyledion rhent i aelwydydd sy'n symud i Gredyd Cynhwysol yn gyson ar draws yr arolwg a'r data gweinyddol. Dangosodd y rhan fwyaf o aelwydydd ddim newid mewn ôl-ddyledion rhent (yn bennaf o ganlyniad i'r rhan fwyaf o aelwydydd yn profi dim ôl-ddyledion rhent dan y naill system). Pan newidiai ôl-ddyledion rhent wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol, roeddent yn fwyaf tebygol o gynyddu (neu gael eu hadrodd fel cynyddu).
- 6.57 Ymhlith hawlwyd, yr esboniadau mwyaf cyffredin dros gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent a achoswyd gan ymfudo i Gredyd Cynhwysol oedd newidiadau mewn lefelau dyfarnu, dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos ac anawsterau

i gyllidebu yn sgil taliadau misol. Mae'r rhain yn esboniadau tebyg i'r rhai a adroddwyd ar gyfer ôl-ddyledion y dreth gyngor.

- 6.58 Ymhlith rhanddeiliaid, y rhesymau mwyaf cyffredin dros gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent a nodwyd oedd dyledion a ysgwyddir tra mae hawl wyr yn aros am eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, anawsterau i gyllidebu yn sgil y strwythur talu misol, a thaliadau uniongyrchol o'r elfen tai i hawl wyr. Nododd cyfran helaeth o randdeiliaid newidiadau mewn lefelau dyfarnu hefyd fel ffactor achosol, fel gyda'r garfan hawl wyr.

Canfyddiadau Allweddol: Ôl-ddyledion Rhent

Roedd ôl-ddyledion rhent yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol	
% o aelwydydd Credyd Cynhwysol mewn ôl-ddyledion	Data gweinyddol 13% (arolwg 43%)
% o aelwydydd Budd-daliadau Etifeddol mewn ôl-ddyledion	Data gweinyddol 20% (arolwg 45%)
Ymhlith y rheiny ag ôl-ddyledion rhent, mae Credyd Cynhwysol yn gysylltiedig â lefel gyfartalog gryn dipyn yn uwch o ôl-ddyledion o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol (Data gweinyddol)	
Ôl-ddyledion cyfartalog i aelwydydd Credyd Cynhwysol	£495
Ôl-ddyledion cyfartalog i aelwydydd budd-daliadau etifeddol	£206
Roedd aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn fwy tebygol o gael peth lefel o ôl-ddyledion rhent, ond roedd yr ôl-ddyledion hyn yn tueddu i fod yn fach. Er bod llai o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn profi ôl-ddyledion rhent, roedd eu hól-ddyledion yn tueddu i fod yn gymharol fawr (Data gweinyddol)	
Aeth cyfran fechan ond sylweddol o aelwydydd i ôl-ddyledion rhent wrth symud i Gredyd Cynhwysol	
% gydag ôl-ddyledion ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol	Data gweinyddol 9% (arolwg 44%)
Roedd ôl-ddyledion rhent yn fwy tebygol o gynyddu o dan Gredyd Cynhwysol na budd-daliadau etifeddol (Data gweinyddol)	
Lefel y cynnydd yn ystod y cyfnod ar Gredyd Cynhwysol	+£55
Lefel y cynnydd yn ystod y cyfnod ar fudd-daliadau etifeddol	+£12
Roedd y patrwm o ôl-ddyledion rhent i grwpiau bregus yn debyg i'r boblogaeth gyffredinol ond dangosodd gwahaniaethau rhwng grwpiau bregus fod rhai ffactorau eraill yn effeithio ar lefelau ôl-ddyledion (Data gweinyddol)	
Roedd cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent wrth symud i Gredyd Cynhwysol yn bennaf o ganlyniad i'r canlynol (data arolwg):	
Bod yn gymwys am lai o gymorth (hawl wyr 46%, rhanddeiliaid 38%)	

- Dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos (hawlwr 53%, rhanddeiliaid 73%)
- Anawsterau cyllidebu gyda thaliadau misol (hawlwr 44%, rhanddeiliaid 65%)
- Talu'r costau tai yn uniongyrchol (rhanddeiliaid 73%)
- Oedi gyda thaliadau (rhanddeiliaid 66%)
- Anawsterau gyda'r broses hawlio ar-lein (rhanddeiliaid 43%)

7. Rhan Pedwar: Profiad o Gredyd Cynhwysol

Cyflwyniad

- 7.1 Yn yr adran hon, rydym yn edrych yn fwy cyffredinol ar effaith Credyd Cynhwysol ar hawlwr a rhanddeiliaid. Mae'r adran wedi'i threfnu yn ôl thema, ac mae'r dadansoddiad o bob thema yn tynnu ar lenyddiaeth bresennol yn ogystal ag arolygon a chyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect ymchwil hwn. Yn benodol, rydym yn archwilio effaith Credyd Cynhwysol ar wytnwch ariannol hawlwr a'r cymorth sydd ar gael i'w helpu, gan gynnwys taliadau ymlaen llaw a threfniadau talu amgen.
- 7.2 Mae Credyd Cynhwysol wedi'i ddylunio i ddynwared y byd gwaith. Gwneir taliadau yn fisol i gyfrif banc a enwebir. Os yw elfen tai wedi'i chynnwys, disgwylir i'r hawliwr dalu'r rhent i'r landlord fel rheol. Gwneir hawliadau ar-lein, felly mae rhywfaint o sgiliau cyfrifiadurol yn ddisgwyliedig. Telir y taliad cyntaf o fewn 5 wythnos o ddyddiad yr hawliad fel rheol.
- 7.3 Felly, gall dyluniad Credyd Cynhwysol gael effaith sylweddol ar hawlwr mewn sawl ffordd:
- Mae rhai aelwydydd ar eu colled dan Gredyd Cynhwysol o'i gymharu â'u hawl dan fudd-daliadau etifeddol;
 - Gall fod yn anodd i rai pobl aros 5 wythnos cyn eu taliad;
 - Gall rhai aelwydydd ei chael hi'n anodd rheoli eu cyllideb dros fis;
 - Gall rhai aelwydydd ei chael hi'n anodd talu eu rhent i'w landlord, yn enwedig os ydynt wedi arfer gyda'u rhent yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'w landlord: a
 - Gall rhai aelwydydd ganfod bod y ffaith y gwneir eu taliadau ar sail aelwyd yn achosi anawsterau iddynt.
- 7.4 Wrth gwrs, efallai y bydd rhai hawlwr Credyd Cynhwysol yn cael eu heffeithio ar yr un pryd gan sawl neu bob un o'r ffactorau hyn.

7.5 Trafodwyd y materion hyn yn yr ymchwil diweddar gan Cartrefi Cymunedol Cymru.¹⁰² Mae cymdeithasau tai yn adrodd bod nifer o denantiaid Credyd Cynhwysol yn ei chael hi'n anodd oherwydd y cylch talu misol, pellter oddi wrth y farchnad lafur, effaith y cyfnod aros o bum wythnos a materion eraill megis ôl-ddyddio mwy cyfyngedig. Ar y llaw arall, adroddwyd hefyd fod Credyd Cynhwysol mewn rhai achosion wedi grymuso tenantiaid i gymryd mwy o gyfrifoldeb ac wedi annog pobl i geisio gwaith. Mae'r polareiddio hwn ym mhrofiad hawl wyr Credyd Cynhwysol yn cael ei adlewyrchu mewn gweithiau ymchwil diweddar eraill megis astudiaeth y Resolution Foundation o Gredyd Cynhwysol yn ardal Lerpwl.¹⁰³

Enillwyr a Chollwyr dan Gredyd Cynhwysol

7.6 Dangosodd ymchwil gan Policy in Practice¹⁰⁴ ar ôl Cyllideb Hydref 2018 y bydd oddeutu 2.8 miliwn o aelwydydd ledled y DU ar eu colled dan Gredyd Cynhwysol, gyda cholled gyfartalog o £59 yr wythnos. Bydd oddeutu 2.1 miliwn o aelwydydd yn y DU ar eu hennill, gan ennill £44 yr wythnos ar gyfartaledd, ac ni fydd ychydig dros 2 miliwn o aelwydydd yn gweld newid. Adrodda'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid¹⁰⁵ ganfyddiadau tebyg: bydd gan oddeutu draean o aelwydydd oedran gweithio (oddeutu 7 miliwn¹⁰⁶) hawl i Gredyd Cynhwysol yn y DU. O'r rhain, bydd oddeutu traean (2.4 miliwn) ar eu colled o £1,000 y flwyddyn dan Gredyd Cynhwysol nag o dan y system etifeddol tra bydd oddeutu chwarter (1.7 miliwn) ar eu hennill o £1,000, o leiaf. Yn ôl math o deulu, mae bron pob un o'r rheiny mewn gwaith yn ennill neu'n colli rhywbeth (h.y. mwy na £100 y flwyddyn). Mae'r rheiny mewn gwaith a gyda phlant yn debygol iawn o fod ar eu hennill. I'r rheiny sy'n ddi-waith,

¹⁰² [Monitro effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yng Nghymru](#) (Opinion Research Services ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru, Hydref 2019)

¹⁰³ [The long and winding road: the introduction and impact of Universal Credit in Liverpool City Region and the UK](#), Laura Gardiner a David Finch (Resolution Foundation, Ionawr 2020)

¹⁰⁴ [Budget 2018: how will the incomes of people on Universal Credit be affected?](#) Juan Alvarez Vilanova (Policy in Practice, 7 Tachwedd 2018)

¹⁰⁵ [Universal Credit and its impact on household incomes: the long and the short of it](#), Mike Brewer, Robert Joyce, Tom Waters a Joseph Woods (Sefydliad Astudiaethau Cyllid 24 Ebrill 2019)

¹⁰⁶ Mae astudiaeth ddiweddar gan y Resolution Foundation yn rhoi amcangyfrif o £6.2m. [The long and winding road: the introduction and impact of Universal Credit in Liverpool City Region and the UK](#), Laura Gardiner a David Finch (Resolution Foundation, Ionawr 2020)

ychydig iawn sydd ar eu hennill o £100 y flwyddyn, ac mae cyfran fawr yn colli symiau sylweddol (mwy na £1,000 y flwyddyn).

- 7.7 Bydd yr aelwydydd hyn a symudodd i Gredyd Cynhwysol oherwydd newid mewn amgylchiadau, ac sydd â hawl i swm is o fudd-dal o ganlyniad, yn gollwyr. Pan mae'r ymarfer i symud pobl i Gredyd Cynhwysol y mae eu hamgylchiadau heb newid yn dechrau, byddant yn cael gwarchodaeth drosiannol felly ni fyddant yn colli allan yn ariannol ar adeg newid. Ond nid yw gwarchodaeth drosiannol yn berthnasol i aelwydydd sydd eisoes wedi newid i Gredyd Cynhwysol ('ymfudo'n naturiol') ar ôl newid mewn amgylchiadau neu a fydd yn gwneud hynny dros y misoedd nesaf.
- 7.8 Mae ymchwil gan Trussell Trust wedi amlygu cysylltiadau rhwng Credyd Cynhwysol, caledi ariannol a defnydd o fanciau bwyd.¹⁰⁷ Gan ddefnyddio data atgyfeirio o 2017-18 ar gyfer talebau banc bwyd Trussell Trust yn y DU, canfu'r arolwg fod banciau bwyd, ar gyfartaledd, 12 mis ar ôl cyflwyno Credyd Cynhwysol mewn ardal, yn gweld 52 y cant o gynnydd mewn galw o'i gymharu â 13% mewn ardaloedd lle nad oedd Credyd Cynhwysol yn fyw eto neu wedi bod yn fyw am 3 mis neu lai. Mae'r ymchwil yn honni bod eu dadansoddiad gwrthffeithiol yn cefnogi'r farn na ellir priodoli'r cynnydd hwn i haprwydd yn y detholiad o fanciau bwyd ac mae'n bodoli ar ôl cyfrif amrywiadau tymhorol ac eraill. Cydnabyddir nad Credyd Cynhwysol yw'r unig reswm dros gynnydd mewn defnydd o fanciau bwyd, ond mae Trussell Trust yn ei ystyried fel ffactor sylweddol mewn sawl ardal. Mae eu dadansoddiad o ddata atgyfeirio banciau bwyd mwy manwl yn dangos bod symud i fudd-daliadau (yn fwyaf tebygol o ganlyniad i bobl yn symud i Gredyd Cynhwysol) yn cyfrif yn gynyddol am fwy o atgyfeiriadau. Canfuwyd bod yr aros am y taliad cyntaf yn un o'r prif achosion, ynghyd â diffyg cymorth i ymgeisio ar-lein, anallu taliadau i dalu am gostau byw, a gweinyddu gwael. Yn fwy diweddar, ym mis Medi 2019, adroddodd Trussell Trust¹⁰⁸ po hiraf yr oedd gwasanaeth llawn Credyd

¹⁰⁷ [The next stage of Universal Credit](#) (Trussell Trust, 2018)

¹⁰⁸ [#5weekstoolong- why we need to end the wait for Universal Credit](#) (Trussell Trust, Medi 2019)

Cynhwysol wedi bod yn fyw mewn ardal awdurdod lleol, y mwyaf yr oedd defnydd o fanciau bwyd yn cynyddu.

- 7.9 Adroddodd 62% (147 allan o 238) o ymatebwyr i'r arolwg hawlwr gynnydd yn eu lefel gyffredinol o ôl-ddyledion o ganlyniad i symud i Gredyd Cynhwysol. O'r rheiny a adroddodd gynnydd mewn ôl-ddyledion, dywedodd dros hanner (83 allan o 144) mai prif achos y cynnydd hwn oedd dyled a ysgwyddir wrth aros am eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf. Ar yr un trywydd, nododd 63% o ymatebwyr (91 allan o 144) mai bod yn gymwys am lai o arian dan gredyd Cynhwysol na budd-daliadau etifeddol oedd yr ail brif reswm dros y cynnydd yn eu hól-ddyledion.
- 7.10 Mae gwytnwch ariannol gwael yn fwy tebygol o fod yn ganlyniad mesurau diwygio lles ehangach yn hytrach na chyflwyno Credyd Cynhwysol felly. Cadwodd y trefniant rhewi am bedair blynedd, a ddaeth i ben yn ddiweddar, fudd-daliadau ac elfennau credydau treth a effeithiwyd ar yr un swm ag yn 2015-16. Nid yw'r trefniant yn cynnwys budd-daliadau a phremiymau anabledd/gofalwyr, taliadau statudol a'r elfen gymorth o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (sy'n daladwy i'r rheiny gyda'r cyflyrau sy'n effeithio ar allu i weithio mwyaf difrifol). Gyda'i gilydd, pe na bai dim trefniant o rewi am bedair blynedd wedi bod a budd-daliadau yr effeithiwyd arnynt wedi'u hatal rhag codi yn unol â CPI, byddai budd-daliadau yr effeithiwyd arnynt wedi codi 6.5% mewn termau enwol erbyn 2019-20 o'i gymharu â 2015-16. Ffordd arall o ddweud hyn yw bod y cyfraddau budd-daliadau/credydau treth yr effeithiwyd arnynt yn 2019-20 werth 6.1% yn llai na phe na bai'r trefniant rhewi wedi'i gyflwyno.¹⁰⁹

Y Cyfnod Aros o Bum Wythnos a Thaliadau Ymlaen Llaw

- 7.11 Mae'r cyfnod aros o bum wythnos yn sicr yn her i'r hawlwr hynny heb gynilion nac enillion i ddisgyn yn ôl arnynt. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod hyn ac wedi gwneud hi'n bosib i hawlwr ymgeisio am daliad ymlaen llaw ar gyfer eu taliad

¹⁰⁹ Roderick McInnes [Benefits Up-rating 2019](#) (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 1 Mawrth 2019)

Credyd Cynhwysol cyntaf. Mae'r taliad ymlaen llaw ar ffurf benthyciad ac fe'i hadnillir dros gyfnod o 12 mis, gan ddechrau gyda'r taliad cyntaf.

- 7.12 Dywedodd un o'r rhanddeiliaid a holwyd ar gyfer y prosiect hwn gan Policy in Practice, a weithiai ar gyfer sefydliad yn cefnogi menywod o leiafrifoedd ethnig, fod yr holl bobl a gefnogai a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol mewn dyled. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc mewn cyflogaeth a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol yn ychwanegol at eu henillion a phobl nad oeddent mewn gwaith.

"Mae pob un person rwy'n delio â nhw (sy'n derbyn) Credyd Cynhwysol yn cwyno am ddyled."

(Rhanddeiliad, Sefydliad Cymorth)

- 7.13 Mae'r nifer sy'n cymryd taliadau ymlaen llaw yn uchel ymhlith ymatebwyr arolwg, gydag oddeutu 70% (226 allan o 321) yn cymryd taliad ymlaen llaw. Dywedodd rhai rhanddeiliaid mewn cyfweiliadau eu bod wedi gweld defnydd helaeth o daliadau ymlaen llaw, ond eu bod yn credu y gall defnyddio taliadau ymlaen llaw wneud derbynwyr yn waeth eu byd yn gyffredinol gan eu bod yn derbyn taliadau Credyd Cynhwysol llai yn ddiweddarach.

"Rydym wedi'u hannog i beidio â chymryd mantais lawn o'r taliad ymlaen llaw oherwydd y taliadau mae'n rhaid iddynt eu had-dalu, felly dim ond cymryd yr hyn sydd ei angen arnynt i'w cario drwodd."

(Rhanddeiliad, Cymdeithas Dai)

Ymwybyddiaeth Isel o Sut Mae Taliadau Ymlaen Llaw yn Gweithio

- 7.14 Mae'n glir bod problem gyda diffyg ymwybyddiaeth o sut mae taliadau ymlaen llaw yn gweithio, nid yw cyfran helaeth o ymatebwyr arolwg - mwy na 20% (allan o 310) o'r rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol - yn gwybod a oes angen ad-dalu taliadau ymlaen llaw neu maent yn ansicr a oes angen gwneud hynny.
- 7.15 Dengys canlyniadau'r arolwg ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r dull o ad-dalu taliadau ymlaen llaw. O'r ymatebwyr ar Gredyd Cynhwysol, nid oedd 13% (39 allan o 310) yn gwybod bod rhaid iddynt ad-dalu taliadau ymlaen llaw drwy eu taliadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol, ac roedd 8% arall (24 allan o 310), yn ansicr. Roedd ymatebwyr nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol yn llai cyfarwydd â'r ffordd y mae taliadau ymlaen llaw yn gweithio, gyda 30% (28 allan o 94) yn anymwybodol neu'n ansicr p'un a yw taliadau ymlaen llaw yn cael eu had-dalu drwy daliadau yn y dyfodol. O'r ymatebwyr hynny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a gymerodd daliad ymlaen llaw, roedd 10% (22 allan o 215) naill ai ddim yn gwybod (11) neu'n ansicr (11) bod rhaid iddynt ad-dalu taliadau ymlaen llaw drwy eu taliadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol.

Taliadau Ymlaen Llaw - Da neu Ddrwg?


- 7.16 Dywedodd 77% (103 allan o 133) o ymatebwyr a dderbyniodd daliad ymlaen llaw, fod symud i Gredyd Cynhwysol wedi gwaethygu eu sefyllfa ariannol, tra dywedodd 71% (35 allan o 49) o ymatebwyr na gymerodd daliad ymlaen llaw, yr un fath. Dengys y canfyddiadau hyn nad taliad ymlaen llaw ad-daladwy yw'r datrysiad llawn i'r problemau a achosir gan y cyfnod aros o bum wythnos. Nododd landlordiaid a holwyd mai "Dyledion a gronnir wrth i gleientiaid/tenantiaid aros am eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf" oedd y prif reswm dros ôl-ddyledion rhent wrth i fwy o denantiaid symud i Gredyd Cynhwysol, gyda mwy na thri chwarter y landlordiaid a holwyd (168 allan o 218) yn nodi'r rheswm hwn. Er nad yw hyn yn cyfeirio at daliadau ymlaen llaw o reidrwydd, dengys rôl didyniadau o ddyfarniadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol wrth greu caledi.
- 7.17 Mae taliadau ymlaen llaw yn cynnig seibiant dros dro a, gan mai dyma'r unig gymorth sylweddol sydd ar gael, nid yw'n syndod bod nifer o hawlwyd Credyd

Cynhwysol yn eu cymryd. Fodd bynnag, o ystyried bod didyniadau o daliadau yn dechrau ar unwaith ac yn para am 12 mis i'r rhan fwyaf, gall y taliad ymlaen llaw ei gwneud hi'n fwy anodd i'r rheiny sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi ar Gredyd Cynhwysol, yn enwedig os oes didyniadau eraill hefyd.

Cyngor Cyllidebu a Chymorth Ceisiadau

- 7.18 Roedd mynediad at, ac ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r cyngor cyllidebu sydd ar gael yn isel ymhlith hawlwyd Credyd Cynhwysol i bob golwg, yn ôl canfyddiadau'r arolwg hawlwyd a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn.
- 7.19 Dim ond 12% o'r ymatebwyr ar Gredyd Cynhwysol, neu 40 allan o sampl o 321, dderbyniodd gymorth ar gyfer cyllidebu a rheoli arian fel rhan o'u cais. O'r rheiny a dderbyniodd gymorth, roedd cytundeb eang fod y cymorth hwn yn ddefnyddiol. Yn ôl yr un canlyniadau arolwg, roedd 87% o'r rheiny a dderbyniodd y cymorth hwn yn ei weld yn ddefnyddiol, neu 35 allan o 40 o ymatebwyr.
- 7.20 Taflodd yr arolwg oleuni hefyd ar y mynediad at gymorth ar gyfer y broses ymgeisio ddigidol. Yn ôl yr arolwg hawlwyd, derbyniodd 21% o'r ymatebwyr, neu 68 allan o faint sampl o 321, gymorth ar gyfer y broses ymgeisio ddigidol fel rhan o'u cais Credyd Cynhwysol. O'r rheiny na dderbyniodd gymorth, dywedodd 76% o ymatebwyr, neu 190 allan o 249, nad oeddent yn ymwybodol ohono.
- 7.21 Derbyniodd 43% o ymatebwyr a ymgeisiodd am Gredyd Cynhwysol, neu 130 allan o 300 o ymatebwyr, ddim cymorth wrth wneud eu cais. Mae hyn yn cynnwys dim cymorth yn ystod y broses hawlio, dim canllawiau ar sut i hawlio, a dim cymorth cyllidebu. Mae Ffigwr 4.1 yn adlewyrchu ymatebion y 300 o'r hawlwyd hyn a ymatebodd i'r arolwg.


Ffigwr 4.1 Arolwg: Ffynhonnell Cymorth gyda Hawlio



Maint sampl = 300

- 7.22 O'r ymatebwyr hynny a dderbyniodd gymorth, rhestrwyd cynghorwyr y Ganolfan Waith, swyddogion tai a ffrindiau a pherthnasau gan ymatebwyr fel y rhai a ddarparodd y cymorth mwyaf defnyddiol. Mae'n werth nodi bod 40%, neu 29 allan o 71 o ymatebwyr a ddefnyddiodd y Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol wedi cael budd ohoni. Mae Ffigwr 4.2 isod yn rhestru'r canlyniadau hyn, a gymerwyd o faint sampl o 178 o hawlwr Credyd Cynhwysol a dderbyniodd gymorth o ryw fath.


Ffigwr 4.2 Arolwg: Pa Mor Ddefnyddiol Oedd y Cymorth?



Maint sampl = 178

7.23 Yn ôl yr un canlyniadau arolwg, o'r ymatebwyr nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol, y mathau mwyaf hygyrch o gymorth fyddai Canolfannau Cyngor ar Bopeth, cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith ac awdurdodau lleol. Mae Ffigwr 4.3 isod yn adlewyrchu'r canlyniadau hyn o faint sampl o 94 o ymatebwyr nad ydynt ar Gredyd Cynhwysol.

Ffigwr 4.3 Arolwg: Mynediad at Ffynonellau Cymorth i'r Rheiny Nad Ydynt ar Gredyd Cynhwysol



Maint sampl = 94

- 7.24 Gall sicrhau bod hawlwr yn gallu cael mynediad at gymorth digonol yn ystod y broses ymgeisio eu galluogi i osgoi gwallau syml a all arwain at oedi gyda thaliadau, neu eu helpu i ddeall y ffordd mae Credyd Cynhwysol yn gweithio i wneud y mwyaf o'u gallu i gyllidebu o'i amgylch.

Cyllidebu a Thalu Rhent

- 7.25 Nododd 43% (62 allan o 144) o ymatebwyr i'r arolwg hawlwr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol anawsterau i gyllidebu o ganlyniad i gylch misol Credyd Cynhwysol fel rheswm dros ôl-ddyledion cyffredinol cynyddol. Yn ystod y cyfweiliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect ymchwil, trafododd y rhai a holwyd sut yr oeddent yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r taliadau misol pan maent wedi arfer cyllidebu'n wythnosol neu bob pythefnos. Gwaethygir hyn gan y ffordd y caiff enillion eu trin dan Gredyd Cynhwysol. Er enghraifft, weithiau mae hawlwr sy'n cael eu talu'n wythnosol ac sydd felly'n cael eu talu pum gwaith mewn mis, neu'r rheiny sy'n derbyn eu cyflogau ar ddiwrnod gwaith neu fancio olaf y mis, yn derbyn cyflog deufis yn ystod un cyfnod asesu. O ganlyniad, gall dyfarniadau Credyd Cynhwysol

newid yn sydyn o fis i fis mewn ffyrdd sy'n anodd eu rhagweld a chyllidebu ar eu cyfer.

- 7.26 Dywedodd hawlwr a holwyd yn yr astudiaeth hon a oedd yn gweithio, neu a oedd wedi treulio cyfnod mewn gwaith ac yn ddi-waith, fod y symiau a gawsant yn eu taliad Credyd Cynhwysol yn amrywio'n sylweddol o fis i fis a'u bod wedi gweld hyn yn anodd. Dywedodd rhai bod hyn wedi achosi iddynt fynd i ôl-ddyledion y dreth gyngor, ac yn aml ôl-ddyledion rhent a dyledion eraill hefyd. Er enghraifft, cymerodd un hawliwr swydd dros dro am chwe mis a tra'r oedd mewn gwaith, lleihaodd ei thaliadau Credyd Cynhwysol, ond llwyddodd i ymdopi â'r lleihad hwn gan ei bod yn ennill cyflog. Roedd hi ar ei hennill am y chwe mis tra'r oedd hi'n gweithio, ac roedd hi'n disgwyl y byddai'n cael Credyd Cynhwysol llawn eto cyn gynted ag y byddai'r swydd yn dod i ben. Nid oedd hi wedi rhagweld gorfod disgwyl pum wythnos ar ôl gorffen gweithio cyn y byddai ei thaliadau Credyd Cynhwysol yn dychwelyd i'r swm llawn. Oherwydd hyn aeth i ôl-ddyledion gyda'i threth gyngor, rhent a biliau.

"Dylid egluro i bobl pan maent yn mynd i weithio...pan gewch eich talu mis mewn ôl-daliadau, sylweddolwch beth sy'n digwydd. Gallwch weld, ar ôl ei brofi ac yn enwedig gan mai am chwe mis yn unig ydoedd. Roeddwn ar fy ennill yn gweithio ond nid oeddwn yn gwybod bod hyn yn mynd i ddigwydd. Felly, mae angen egluro wrth bobl, dyma beth sy'n digwydd pan fyddwch yn gorffen gweithio."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

- 7.27 Yn yr un modd, dangosodd y cyfweiliadau gyda hawlwr ei bod wedi bod yn anodd i rai derbynwyr Credyd Cynhwysol ddod i arfer â'r syniad o gyllidebu ar gyfer rhent a thalu amdano eu hunain. Trafododd y rhai holwyd sut, o dan fudd-daliadau credyd cynhwysol, yr oedd bron i bob tenant tai cymdeithasol yn cael eu Budd-dal Tai wedi'i dalu'n uniongyrchol i'r landlord neu wedi'i gredydu i'w cyfrif tai. Roedd y rhai a holwyd a oedd yn denantiaid yn y sector rhentu preifat wedi arfer mwy â thalu rhent eu hunain gan fod egwyddorion y Lwfans Tai Lleol yn debyg i Gredyd Cynhwysol, ond roedd llawer yn cael eu rhent wedi'i dalu i'w landlord.

- 7.28 Credai landlordiaid preifat a holwyd fod ôl-ddyledion rhent hefyd wedi cynyddu o dan y cynllun Credyd Cynhwysol oherwydd nad oedd rhai tenantiaid yn blaenoriaethu talu eu rhent i'w landlord pan oeddent yn ei dderbyn fel rhan o'u taliad Credyd Cynhwysol. Roeddent yn teimlo ei fod yn fwy o risg i gymryd tenantiaid ar fudd-daliadau os gwneir taliadau tai i'r tenant yn hytrach na'r landlord, a bod y system flaenorol o daliadau uniongyrchol i'r landlord yn well. Dywedodd un landlord a holwyd na fyddai'n cymryd tenantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol eto o ganlyniad i brofiad negyddol gyda thenant Credyd Cynhwysol a ysgwyddodd ôl-ddyledion.

Trefniadau Talu Amgen

- 7.29 Yng Nghymru a Lloegr, mae'n bosib gwneud cais am dri gwahanol fath o Drefniadau Talu Amgen (APAs) Credyd Cynhwysol: talu'r elfen tai yn uniongyrchol i'r landlord (neu Daliadau a Reolir i Landlord), taliadau mwy aml, a thaliadau wedi'u rhannu ar draws yr aelwyd. Fodd bynnag, dim ond lle nad yw'r person yn gallu rheoli taliadau misol, a fyddai'n arwain at risg o niwed ariannol iddo a/neu ei deulu, yr ystyrir Trefniadau Talu Amgen. Gwneir penderfyniadau yn ôl disgrisiwn ac nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau i wrthod cytuno i Drefniant Talu Amgen (er gyda phob penderfyniad yn ôl disgrisiwn, rhaid i'r Adran Gwaith a Phensiynau weithredu mewn ffordd deg a rhesymol wrth wneud ei phenderfyniadau). Unwaith y cytunir ar Drefniant Talu Amgen, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn adolygu angen y person amdano'n barhaus.

Taliadau a Reolir i Landlord (MPTL)

- 7.30 Sefydli'r Trefniant Talu Amgen Taliadau a Reolir i Landlord gan yr Adran Gwaith Phensiynau os yw hawliwr mewn ôl-ddyledion o ddeufis neu fwy, neu os yw'r hawliwr wedi tandalu ei rent yn barhaus ac wedi ysgwyddo ôl-ddyledion o swm sy'n gyfwerth â, neu'n fwy na, mis o rent. O'r aelwydydd yng Nghymru sy'n derbyn taliad o Gredyd Cynhwysol gyda hawl i gymorth ar gyfer costau tai, dengys ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau fod, ym mis Ionawr 2019, 19.5% wedi cael eu costau tai wedi'u talu'n uniongyrchol i landlord (drwy Drefniant Talu Amgen), a bod hyn

wedi cynyddu i 22.7% erbyn mis Tachwedd 2019.¹¹⁰ Cefnogir y canfyddiad hwn gan yr ymchwiliad ym mis Hydref 2019 i Cartrefi Cymunedol Cymru sy'n awgrymu bod gan 'o leiaf 20%' o denantiaid Credyd Cynhwysol Drefniant Talu Amgen ar ffurf Taliad a Reolir i Landlord yn ei le.¹¹¹

- 7.31 Yn yr un modd, dengys arolwg o hawlwr gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol ym Mhrydain Fawr a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fod gan un pumed o hawlwr (22%), ymhlith y rheiny sy'n derbyn taliadau Credyd Cynhwysol tuag at eu costau tai, Drefniant Talu Amgen yn ei le.¹¹² Roedd y rheiny gydag incwm aelwyd blynyddol o lai na £10,000 yn fwy tebygol o gael Trefniant Talu Amgen. Dywedodd bron i hanner (48%) o'r rheiny gyda Threfniant Talu Amgen yn ei le, eu bod wedi gofyn amdano eu hunain, gyda merched yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gofyn am Drefniant Talu Amgen (56% o ferched o'i gymharu â 33% o ddynion). Dywedodd ychydig dros draean (37%) mai eu landlord a awgrymodd Drefniant Talu Amgen, tra dywedodd wyth y cant arall mai eu hyfforddwr gwaith a awgrymodd y trefniant hwn.
- 7.32 Yn gyffredinol, dengys canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect ymchwiliad hwn fod Taliadau a Reolir i Landlord yn boblogaidd gyda landlordiaid a derbynwyr Credyd Cynhwysol, ond y gellid gwella'r cymorth hwn.
- 7.33 Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr Credyd Cynhwysol y byddai'n well ganddynt pe bai'r elfen tai yn cael ei thalu'n uniongyrchol i'r landlord - dywedodd dros dri chwarter yr ymatebwyr (200 allan o 259) y byddent yn ei weld yn gymharol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Yn ôl yr arolwg rhanddeiliaid, rhestrwyd talu elfen costau tai Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i denantiaid fel yr ail achos mwyaf o ôl-ddyledion rhent cynyddol, gyda 77% o randdeiliaid a holwyd (168 allan o

¹¹⁰ Dadansoddiad Policy in Practice o ddata o adnodd Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau, Ebrill 2020. Ym mis Ionawr 2019, roedd 7818 o hawlwr yn cael eu costau tai wedi'u talu i'r landlord, allan o gyfanswm o 39,979 o hawlwr gyda chostau tai. Erbyn mis Tachwedd 2019, roedd y ffigyrau yn 16,579 allan o 73,119.

¹¹¹ [Monitro effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yng Nghymru](#) (Opinion Research Services ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru, Hydref 2019)

¹¹² Universal Credit Full Service (IFF Research, 2018). Mae'r canfyddiadau hyn yn berthnasol i don 2 yr arolwg a gynhaliwyd wyth i naw mis ar ôl iddynt ddechrau hawlio. Cynhaliwyd y gwaith maes ym mis Awst a mis Medi 2017. Roedd ton 2 yr arolwg yn cynnwys cyfweiliadau gyda 1,004 o hawlwr.

218) yn nodi hyn fel yr achos, ar ôl 'dyledion a ysgwyddir wrth i denantiaid aros am eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf'.

7.34 Mae 26% (68 allan o 260) o ymatebwyr arolwg sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael yr elfen tai wedi'i thalu'n uniongyrchol i'w landlordiaid. Mae hyn yn uwch nag ystadegau Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer mis Tachwedd 2019 (gweler uchod) sy'n dangos bod oddeutu 22% o ddyfarniadau yng Nghymru yn cynnwys elfen tai a delir drwy Daliad a Reolir i Landlord.

- Yn ôl yr arolwg rhanddeiliaid, nid yw 51% (54 allan o 106) o landlordiaid y sector rhentu preifat yn cynnig unrhyw gymorth i'w tenantiaid gyda rheoli eu rhent, o'i gymharu â 98% (40 allan o 41) o landlordiaid cymdeithasol a chymdeithasau tai.
- O landlordiaid y sector rhentu preifat a gyniga gymorth, dywed 70% (44 allan o 63 o ymatebwyr) fod llai na hanner o'u tenantiaid yn gwneud defnydd o'r cymorth a gynigant.
- O'r landlordiaid cymdeithasol a chymdeithasau tai a gyniga gymorth, dywed 73% (24 allan o 33 o ymatebwyr) fod llai na hanner o'u tenantiaid yn gwneud defnydd o'r cymorth a gynigant.
- Dywedodd 75% (117 allan o 157) o bob rhanddeiliad a holwyd fod y galw am gymorth gyda rheoli rhent wedi cynyddu dan Gredyd Cynhwysol, o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol.

7.35 Er bod nifer o landlordiaid yn cynnig cymorth, gellid gwella'r ganran o gymorth a'r nifer sy'n ei geisio, yn enwedig i fodloni galw cynyddol.

7.36 Teimlai rhai o'r rhanddeiliaid a holwyd y dylai tenantiaid Credyd Cynhwysol nad ydynt yn gallu rheoli arian yn dda gael taliad a reolir i'w landlord. Teimlai'r pum landlord y sector rhentu preifat a holwyd y dylai'r elfen tai gael ei thalu'n uniongyrchol iddynt yn hytrach nag i'r tenant. Roedd hyn oherwydd bod rhai o'u tenantiaid Credyd Cynhwysol sy'n derbyn yr elfen tai, heb dalu eu rhent ar amser,

yn y gorffennol. Roedd y landlordiaid sector rhentu preifat hyn wedi colli arian o ganlyniad i hyn.

"Mae'r effaith y mae [talur elfen tai i'r tenant] wedi'i gael arnaf...dyna pam fy mod...collais oddeutu £30,000 yn sgil Credyd Cynhwysol, yw eu bod [Credyd Cynhwysol] yn parhau, am fis neu ddau, i anfon y taliad i'r tenant, sy'n ei wario ar unwaith, felly, yn anorfod, rwy'n colli oddeutu mis neu ddau yn fwy [o arian rhent] nag y dylwn, sy'n...ac rwy'n tynnu gwallt fy mhen, i'w cael nhw [y tenantiaid] i ymddwyn mewn ffordd alluog a rhesymol"

(Rhanddeiliad, landlord y sector rhentu preifat)

- 7.37 Roedd gan yr hawlwr a holwyd, farn wahanol ynghylch y newid hwn o fudd-daliadau etifeddol. Roedd rhai ymatebwyr yn hoff o'r annibyniaeth y maent wedi'i hennill o gael yr elfen tai wedi'i thalu'n uniongyrchol iddynt

"Mae'n gwneud i mi deimlo mymryn yn fwy annibynnol, a dweud gwir, oherwydd, chi'n gwybod, rwyf bron yn ei dalu fy hun, gan ei fod yn dod o fy nghyfrif, er nad fy arian i ydyw go iawn, gan ei fod wedi dod gan Credyd Cynhwysol. Ond rwy'n ei hoffi, ac rwy'n credu, mewn rhai ffyrdd y gallai annog pobl i ddod yn fwy annibynnol, ei wneud y ffordd honno."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

- 7.38 Cododd ymatebwr arall y mater o hawlwr sy'n sâl neu'n byw ag anableddau difrifol. Roedd y sawl a holwyd, a oedd yn dioddef o glefyd Crohn, yn cael ei elfen Budd-dal Tai wedi'i dalu'n uniongyrchol i'w landlord dan fudd-daliadau etifeddol, ac roedd yn poeni na fyddai'n digwydd yn awtomatig ar ôl symud i Credyd Cynhwysol:

"Os rwy'n cael fy nharo'n ddifrifol wael ac yn gorfod mynd i'r ysbyty, nid oes neb ar fy rhan a allai gysylltu â'r Gymdeithas Dai a thalu, os ydw i'n derbyn yr arian yn fy nghyfrif banc, i gymryd y cyfrifoldeb llawn hwnnw. Felly, rwy'n credu ei fod yn anfantais i rywun sy'n dioddef o gyflwr hirdymor. Byddai'n ddoeth anfon yr arian yn uniongyrchol i'r Gymdeithas Dai oherwydd os ydw i'n cael fy nharo'n wael, byddant yn dal i dderbyn yr arian."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

Taliadau Mwy Aml

- 7.39 Dengys ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau mai dim ond 1.7 y cant (2,072) o aelwydydd yng Nghymru ar Gredyd Cynhwysol ym mis Tachwedd 2019, sy'n cael eu taliad wedi'i rannu dros y mis i'w dalu mewn dau, neu bedwar, rhandaliad, drwy APA Taliadau Mwy Aml. Mae sawl rheswm am hyn: Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn eu gweld fel eithriad yn hytrach na rheol, felly nid ydynt yn cael eu hystyried yn awtomatig nac yn cael llawer o gyhoeddusrwydd;¹¹³ a dim ond ar ôl taliadau a reolir i landlordiaid y gellir eu hystyried, felly mae ganddynt flaenoriaeth is.
- 7.40 Roedd ymatebwyr yr arolwg yn rhanedig ar effeithiolrwydd taliadau mwy aml. Roedd un o'r hawlwr budd-daliadau etifeddol, sy'n derbyn ei Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Thaliadau Annibyniaeth Personol bob pythefnos, yn teimlo y byddai'n well derbyn taliadau Credyd Cynhwysol yn fisol *"oherwydd yna mae gennyh...gallwch gyfrifo eich arian yn well"*. Tra'r oedd eraill a holwyd yn siarad am y sioc ariannol o symud o daliadau bob pythefnos o fudd-daliadau gwahanol i un budd-dal.

¹¹³ Gweler [Alternative Payment Arrangements - Guidance](#) (Adran Gwaith a Phensiynau, diweddarwyd Mawrth 2020) a Frank Hobson, Emily Spoor a Lindsey Kearton [Managing Money on Universal Credit](#) (Cyngor ar Bopeth, Chwefror 2019)

"...yn amlwg wrth fod rhwng swyddi ac ar fudd-daliadau ac yna ddim pan oeddech ar gymhorthdal incwm roedd yn wythnosol, felly cael y tameidiau hynny o arian ar adegau gwahanol...pan na allwch gyllidebu...mae'n haws gwybod, 'Mae gennyf X swm yn dod i mewn, mewn ychydig ddiwrnodau' ac mae hynny'n beth parhaus. Felly, mae gennych fudd-dal plant un diwrnod, rhai diwrnodau wedyn byddech yn cael eich credydau treth ac yna byddech yn cael eich cymhorthdal incwm a dyna fyddai eich taliad bob pythefnos...felly pan symudais i Gredyd Cynhwysol roedd yn sioc, a dweud y gwir cael y [taliad] misol hwnnw..."

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

Taliadau wedi'u Rhannu

- 7.41 Swm bach iawn o aelwydydd (6) yng Nghymru a oedd yn cael eu taliad Credyd Cynhwysol wedi'i rannu rhwng dau aelod o gwpl, drwy APA Taliad wedi'i Rannu, ym mis Tachwedd 2019.¹¹⁴ Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun yn Lloegr (81 o aelwydydd) a'r Alban (6 o aelwydydd).
- 7.42 Mae galwadau i rannu taliadau Credyd Cynhwysol cwpl yn ddiofyn yn hytrach nag mewn amgylchiadau eithriadol fel ar hyn o bryd (fel yr adlewyrchir gan y ffigwr bach iawn o Daliadau wedi'u Rhannu drwy Drefniant Talu Amgen). Mae Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Senedd y DU hefyd wedi rhybuddio eu bod, fel rhan o'u hymchwiliad, wedi clywed tystiolaeth rymus y gallai taliadau aelwyd sengl o Gredyd Cynhwysol roi hawlwr sy'n byw gyda thrais domestig mewn perygl o niwed.¹¹⁵ Maent yn adrodd y gallai hawlwr sy'n byw gyda thrais domestig, dan Gredyd Cynhwysol, weld eu hincwm misol cyfan yn cael ei dalu i gyfrif banc eu partner treisgar. Gall hyn gynnwys arian a fwriadwyd i'w plant. Mae risg na fydd yr arian hwn yn eu cyrraedd gan olygu y gallent fod yn ddibynnol ar eu partner treisgar ar gyfer eu holl anghenion sylfaenol, sy'n ei dro yn ei gwneud hi'n fwy anodd iddynt adael. Maent hefyd yn gwneud y pwynt fod Credyd Cynhwysol wedi'i fwriadu i efelychu'r byd

¹¹⁴ Dadansoddiad Policy in Practice o ddata o adnodd Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau, Ebrill 2020

¹¹⁵ [Universal Credit and domestic abuse](#) (Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau, 2018)

gwaith. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar weithwyr gwrywaidd na benywaidd i gael eu cyflogau wedi'u talu i gyfrif banc eu partner, ac felly rhaid i'r Adran Gwaith a Phensiynau wneud mwy i sicrhau bod taliadau Credyd Cynhwysol yn cael eu derbyn yn deg gan bawb yn yr aelwyd sy'n hawlio.

- 7.43 Roedd un o'r hawlwyd Credyd Cynhwysol a holwyd fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn yn derbyn taliad Credyd Cynhwysol wedi'i rannu. Nid oedd yr hawliwr yn ystyried hyn yn ddefnyddiol gan fod rhaid iddo ef a'i bartner fod gyda'i gilydd i dalu'r rhent gan eu bod yn cymryd y taliad o gerdyn banc ef a'i bartner. Dywedodd yr hawliwr y byddai'n well ganddo pe bai'r taliad Credyd Cynhwysol yn mynd i gyfrif banc naill ai ef neu ei bartner.

"Unwaith eto, nid yw [rhannu taliad yr aelwyd rhwng ef a'i bartner] yn ddefnyddiol iawn. Dim i mi, beth bynnag. Mae'n dod lawr i'r ffaith bod rhaid i mi fod yma i mi allu ei wneud [talw'r rhent]"

(Hawliwr Credyd Cynhwysol)

- 7.44 Dywedodd 25% (81 allan o 321) o hawlwyd a holwyd y byddent yn gweld taliadau wedi'u rhannu yn gymharol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Mae gwahaniaeth rhwng y rhywiau o ran ffafriaeth tuag at daliadau wedi'u rhannu: Canfu 12% o ymatebwyr benywaidd (30 allan o 245) yr opsiwn hwn yn ddefnyddiol iawn, o'i gymharu â 8% o ymatebwyr gwrywaidd (5 allan o 66). Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ar draws yr holl rywiau nad oedd taliadau wedi'u rhannu yn ddefnyddiol.

Mynediad at Drefniadau Talu Amgen (APAs)

- 7.45 Mewn adroddiad ym mis Chwefror 2019,¹¹⁶ dadleuodd Cyngor ar Bopeth nad oedd Trefniadau Talu Amgen "ar gael yn eang na'n cael eu defnyddio'n effeithiol." Cred fod gan y trefniadau: "[...] broblemau gyda'u dyluniad sy'n golygu nad ydynt yn gweithio fel y dylent." Golyga anhyblygrwydd yn y system a diffyg ymwybyddiaeth ar ran rhai pobl fod y Trefniadau Talu Amgen yn aml yn cael eu defnyddio ar ôl i ôl-ddyledion sylweddol gronni'n unig. Mae cyfraddau hawlio Trefniadau Talu Amgen yn isel iawn. Noda adroddiad Cyngor ar Bopeth, gyda chanfyddiadau arolwg o Gymru a Lloegr dros 2018, mai dim ond 3% o bobl sy'n hawlio, sy'n derbyn taliadau mwy aml a dim ond 20 aelwyd sy'n derbyn taliadau wedi'u rhannu i aelodau teulu gwahanol ar hyn o bryd. Noda Cyngor ar Bopeth mai "Dim ond 4 ym mhob 10 o bobl yr ydym yn eu helpu sy'n ymwybodol o daliadau a reolir i landlordiaid. Dim ond 1 ym mhob 6 sy'n gwybod y gellir gwneud taliadau yn fwy aml, ond byddai 6 ym mhob 10 yn cymryd yr opsiwn hwn pe baent yn gwybod amdano ac yn gallu. Awgryma hyn nad ydynt yn cael eu cynnig yn eang i bobl a allai elwa ohonynt." Mae Cyngor ar Bopeth yn argymhell ehangu mynediad at Drefniadau Talu Amgen a gweithredu brys i sicrhau bod taliadau uniongyrchol i landlordiaid yn cyd-fynd â phatrymau rhent gwirioneddol.
- 7.46 Mae adroddiad Cartrefi Cymunedol Cymru¹¹⁷ hefyd yn awgrymu bod yna oedi sylweddol gyda thalu Trefniadau Talu Amgen a bod problemau mawr wedi codi oherwydd nad yw cylch talu Trefniadau Talu Amgen (bob 4 wythnos) yn gydnaws â'r taliad Credyd Cynhwysol ei hun (misol). Yn ddiddorol, adroddodd cymdeithasau tai nad Trefniadau Talu Amgen yw'r ateb bob amser ac y dylai sawl tenant allu ymdopi hebddynt os ydynt wedi'u cefnogi'n dda.

¹¹⁶ [Managing Money on Universal Credit](#), Frank Hobson, Emily Spoor a Lindsey Kearton (Cyngor ar Bopeth, Chwefror 2019)

¹¹⁷ [Monitro effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yng Nghymru](#) (Opinion Research Services ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru, Hydref 2019)

- 7.47 Yn yr arolwg rhanddeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hwn, nododd rhai landlordiaid oedi hir a gwallau wrth sefydlu'r trefniant talu amgen, Taliad a Reolir i Landlord.

"Mae'r tenant eisiau taliad uniongyrchol, rwyf eisiau taliad uniongyrchol, rwyf wedi cwblhau'r ffurflen ac eto 3 mis yn ddiweddarach, nid yw byth wedi digwydd. Hefyd, pam nad yw teulu o ffoaduriaid yn cael eu hystyried yn grŵp bregus cymwys am daliadau uniongyrchol?"

(Landlord gyda thenantiaid ar Gredyd Cynhwysol)

- 7.48 Fodd bynnag, mae problemau eraill gyda mynediad at sefydlu'r trefniant talu amgen hwn. Yn eu harolwg o landlordiaid eiddo yn y sector rhentu preifat,¹¹⁸ canfu Simcock a Kaehne fod chwech ym mhob deg landlord a oedd wedi ymgeisio am Daliadau a Reolir i Landlord, wedi gweld y broses o ymgeisio i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn anodd, gyda chyfran debyg yn dweud eu bod yn anfodlon â'r cyfathrebu yr oeddent wedi'i gael gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cadarnhaodd y cyfweiliadau gyda landlordiaid y sector rhentu preifat yn yr ymchwil hwn, y profiadau hyn, gan eu bod wedi nodi anawsterau cynyddol i gael gafael ar rywun neu gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- 7.49 Mae rhai ymchwil wedi cyfeirio at gyfyngiadau sefydlu Trefniadau Talu Amgen a sut y gall y rhain ddwysau problemau mewn perthynas â dyledion. Noda astudiaeth gan Cyngor ar Bopeth¹¹⁹ nad yw, yn achos Taliadau a Reolir i Landlord:

"Nid yw'r taliad a reolir yn dod i rym ar unwaith. Noda'r Adran Gwaith a Phensiynau: "derbynnir y taliad a reolir i landlord APA cyntaf... fel rheol o fewn 6 i 8 wythnos o'r dyddiad y mae didyniadau yn dechrau, er enghraifft, o ddiwedd y cyfnod asesu pryd mae taliadau a reolir yn dechrau". Gan fod rhaid i bobl fod yn ei chael hi'n anodd talu eu rhent i

¹¹⁸ [State of the PRS \(Q1 2019\): A survey of private landlords and the impact of welfare reforms](#), Dr Tom Simcock a Dr Axel Kaehne (Edgehill University a Residential Landlords Association, Awst 2019)

¹¹⁹ [Managing Money on Universal Credit](#), Frank Hobson, Emily Spoor a Lindsey Kearton (Cyngor ar Bopeth, Chwefror 2019)

gael eu hystyried am yr APA taliad a reolir, a bydd gan nifer ohonynt ôl-ddyledion rhent cynyddol, mae'r oedi ychwanegol hwn o hyd at ddeufis yn rhoi pobl a'u cartrefi mewn perygl diangen sylweddol."

- 7.50 O ystyried bod y risg o ôl-ddyledion rhent yn uwch o gwmpas adeg hawlio am y tro cyntaf, gall y cyfnod aros o chwech i wyth wythnos i drosglwyddo i daliad a reolir, waethygu ôl-ddyledion yn ystod y cyfnod hwnnw, hyd yn oed os yw'n gwneud taliadau yn fwy syml ar ôl hynny. Noda As Hobson et al. (2019: 38):

"Dyweddodd rhai o'r cynghorwyr a holom eu bod wedi gweld pobl yn cael eu bygwth â throi allan o ganlyniad i'r problemau gyda'r APA taliad a reolir [h.y. yr oedi o 6-8 wythnos a chosir gan symud i daliad a reolir], hyd yn oed pan wyddai'r darparwr tai nad bai'r tenant oedd yr ôl-ddyledion."

- 7.51 Yn ogystal, dywedodd rhanddeiliaid sy'n gweithio i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a holwyd ar gyfer yr ymchwil hwn nad oeddent weithiau, gyda thaliadau a reolir i landlordiaid, yn derbyn arian rhent eu cleient ar amser ac felly, byddai gan y cleient ôl-ddyledion rhent.

"Felly, rydym yn edrych ar y taliadau a reolir ond rydym yn ei wneud fel yr opsiwn olaf, mewn gwirionedd. Rydym yn ei chael hi'n anodd wrth ei fod ar gylch talu sydd erbyn iddo ddod drwodd i ni, yn dibynnu ar bryd mae cyfnod asesu rhywun, yn gallu bod yn rhai wythnosau cyn i ni ei gael yn ffisegol, felly mae'n creu ôl-ddyledion rhent y gellid eu hosgoi pe bai'r tenant yn gallu ei dalu ei hun."

(Rhanddeiliad, Cymdeithas Dai)

- 7.52 Dywedodd 92% (35 allan o 38) o ymatebwyr i'r arolwg hawlwyd ar gyfer yr astudiaeth hon sy'n cael elfen tai Credyd Cynhwysol wedi'i thalu'n uniongyrchol i'w landlord, fod eu sefyllfa ariannol wedi gwaethygu ers symud i Gredyd Cynhwysol, o'i gymharu â 71% (79 allan o 111) o ymatebwyr sy'n cael eu holl fudd-daliadau wedi'u talu iddynt. Gallai'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp hyn fod yn gysylltiedig â'r ffordd

y maent yn profi Credyd Cynhwysol yn wahanol. Mae'n rhaid i'r rheiny gyda thaliadau uniongyrchol fod wedi cael ôl-ddyledion rhent neu anhawster i dalu costau rhent er mwyn cael rhoi'r opsiwn hwn ar waith; a'r rheiny yw'r aelwydydd sydd fwyaf tebygol o fod wedi cael problemau gyda Chredyd Cynhwysol.

- 7.53 Nododd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod data¹²⁰, hyd yn oed pan wnaed Taliadau a Reolir i Landlordiaid, yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol mewn ffordd sy'n mynnu gwaith gweinyddol gan awdurdodau lleol i baru taliadau â hawlau a bod 'Darparwyr tai cymdeithasol wedi dweud wrthym hefyd fod diffyg cyfatebiaeth rhwng cylchoedd talu hawlwr a phan mae'r Adran yn gwneud taliadau uniongyrchol i landlordiaid yn gallu arwain at daliadau yn cael eu methu'. Maent yn nodi, fodd bynnag, fod cynlluniau i wella'r systemau gweinyddol sy'n sail i Gredyd Cynhwysol, fel nad yw'r problemau hyn yn anochel o reidrwydd.

Ymwybyddiaeth Isel o Drefniadau Talu Amgen

- 7.54 Dangosodd yr arolwg hawlwr fod ymwybyddiaeth isel o Drefniadau Talu Amgen ar draws ymatebwyr yn gyffredinol, gyda thaliadau mwy aml a thaliadau wedi'u rhannu â'r ymwybyddiaeth isaf.

¹²⁰ [Cyflwyno Credyd Cynhwysol](#) (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2018)

Taliadau a Reolir i Landlord: • Roedd 42% o'r rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn ymwybodol (81 allan o 192 o ymatebwyr) • Roedd 59% o'r rheiny nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol yn ymwybodol (55 allan o 94 o ymatebwyr)
Taliadau Mwy Aml: • Roedd 20% o'r rheiny sy'n cael Credyd Cynhwysol yn ymwybodol (61 allan o 304 o ymatebwyr) • Roedd 37% o'r rheiny nad ydynt yn cael Credyd Cynhwysol yn ymwybodol (35 allan o 94 o ymatebwyr)
Taliadau wedi'u Rhannu: • Roedd 24% o'r rheiny sy'n cael Credyd Cynhwysol yn ymwybodol (73 allan o 301 o ymatebwyr) • Roedd 32% o'r rheiny nad ydynt yn cael Credyd Cynhwysol yn ymwybodol (30 allan o 94 o ymatebwyr)

7.55 Byddai cynyddu ymwybyddiaeth a chymorth bron yn sicr yn helpu i gynyddu ceisiadau am Drefniadau Talu Amgen, gan yr oeddent yn boblogaidd ymhlith ymatebwyr i'r arolwg hawlwyr:

- Dywedodd 77% o ymatebwyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gyda'r elfen tai (200 allan o 259) y byddai Taliadau a Reolir i Landlordiaid yn ddefnyddiol.
- Dywedodd 85% o ymatebwyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (273 allan o 322) y byddai taliadau mwy aml yn ddefnyddiol.
- Dywedodd 25% o ymatebwyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (81 allan o 321) y byddai taliadau wedi'u rhannu yn ddefnyddiol.

- 7.56 Mae'n aneglur pam fod gan ymatebwyr sy'n cael Credyd Cynhwysol lai o ymwybyddiaeth o Drefniadau Talu Amgen na'r rheiny nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol, ond gallai hyn awgrymu pethau amrywiol. Efallai fod ymatebwyr ar fudd-daliadau etifeddol wedi bod ar fudd-daliadau am gyfnod hirach ac yn fwy cyfarwydd â'r system dan fudd-daliadau etifeddol sy'n cynnig mwy o bosibiliadau gyda thaliadau megis taliadau bob pythefnos neu daliadau wedi'u rhannu. Efallai fod y dealltwriaethau gwahanol hyn o Drefniadau Talu Amgen dan Credyd Cynhwysol yn adlewyrchu disgwyliadau fod y system yn adlewyrchu budd-daliadau etifeddol yn agosach nag y gwna mewn gwirionedd. Gallai hyn hefyd ddangos diffyg eglurder yn y broses hawlio, gan nad yw hawlwr yn cael cynnig y trefniadau talu hyn yn awtomatig.
- 7.57 Canfu ymchwil gan y felin drafod Bright Blue¹²¹ fod ymwybyddiaeth hawlwr o'r posibilrwydd o dalu'r elfen tai yn uniongyrchol i landlordiaid yn isel, ond hefyd:

"Roedd mwyafrif amlwg o'n hymatebwyr (holwyd 40 o bobl) yn teimlo y dylai elfen tai Credyd Cynhwysol fod yn groes i'r sefyllfa bresennol newydd a chael ei thalu'n uniongyrchol i landlordiaid. Roedd hyn yn wir am ymatebwyr nad oedd yn ei chael hi'n anodd talu eu rhent yn bersonol. Roedd cred gref fod y system etifeddol yn well, yn yr achos hwn."

- 7.58 Mae galwadau wedi bod yn ddiweddar i Drefniadau Talu Amgen gael eu hysbysebu a'u defnyddio'n fwy eang - er enghraifft gan End Hunger UK,¹²² y Trussell Trust,¹²³ a Cyngor ar Bopeth.¹²⁴

¹²¹ [Helping Hand - Improving Universal Credit](#), Ryan Shorthouse, Sam Lampier ac Anvar Sarygulov (Bright Blue Campaign, 2019, tudalen 88)

¹²² [Local Groups and campaigners End Hunger UK 2018-19](#)

¹²³ [The next stage of Universal Credit](#) (Trussell Trust, 2018)

¹²⁴ [Managing Money on Universal Credit](#), Frank Hobson, Emily Spoor a Lindsey Kearton (Cyngor ar Bopeth, Chwefror 2019, tt41-42)

A yw Trefniadau Talu Amgen yn helpu?

- 7.59 Ychydig iawn o dderbynwyr Credyd Cynhwysol sy'n cael taliadau yn fwy aml na bob mis, ac mae hyd yn oed llai yn cael taliadau wedi'u rhannu.¹²⁵ Nid yw'n bosib felly dod i gasgliadau ystyrlon am eu heffeithiolrwydd o'r ymchwil hwn neu'n wir yn fwy cyffredinol. Mae Taliadau a Reolir i Landlord heb os, yn helpu llawer o hawlwyrr a fyddai fel arall yn mynd i fwy o ddyled ac o bosib, yn cael eu troi allan. Ond mae'n aneglur p'un a fyddai mwy o daliadau uniongyrchol i'r landlord yn arwain at lefelau is o ddyled.
- 7.60 Er bod y meintiau sampl presennol yn rhy fach o'r arolwg hawlwyrr i werthuso effeithiolrwydd Trefniadau Talu Amgen, mae'r canfyddiadau yn dangos eu bod yn boblogaidd, a chefnogir hyn gan weithiau ymchwil eraill. Yn ôl arolwg o 792 o ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws Cymru a Lloegr gan Cyngor ar Bopeth¹²⁶, efallai fod ymwybyddiaeth o drefniadau talu amgen yn isel, ond roedd y manteision canfyddedig ohonynt, pe baent wedi cael eu cynnig, yn uchel:

"O'r hawlwyrr Credyd Cynhwysol a holwyd mewn ardaloedd gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol, dim ond 8% oedd yn ymwybodol bod amserlenni talu mwy aml yn bosib dan Gredyd Cynhwysol, gyda bron i 60% yn credu y byddent wedi elwa o hyn pe bai wedi cael ei gynnig. Yn yr un modd, llai na un traean oedd yn ymwybodol y gellid talu costau tai yn uniongyrchol i landlord dan Gredyd Cynhwysol, a dim ond un ym mhob pump oedd wedi cael cynnig cymorth cyllidebu."

Casgliad

- 7.61 Awgryma'r dystiolaeth o'r astudiaethau amrywiol y dyfynnir yn yr adroddiad hwn ac o'n harolygon a'n cyfweiliadau ein hunain fod nifer o dderbynwyr Credyd Cynhwysol yn ei chael hi'n anodd dod i delerau â rhai o nodweddion dylunio Credyd Cynhwysol (y cyfnod aros o bum wythnos, taliadau misol, gorfod cyllidebu ar gyfer, a thalu'r

¹²⁵ Yng Nghymru, roedd gan 2072 o hawlwyrr daliadau mwy aml a 6 taliad wedi'i rannu ym mis Tachwedd 2019.

¹²⁶ Beth Foley [Delivering on Universal Credit](#) (Cyngor ar Bopeth, 2017)

rhent). Dwyseir hyn lle mae'r hawliad Credyd Cynhwysol yn llai nag o dan fudd-daliadau etifeddol (er y bydd hyn yn cael ei leddfu gan warchodaeth drosiannol o dan yr ymarfer 'Symud i Gredyd Cynhwysol'). Ar y llaw arall, mae tystiolaeth hefyd fod rhai hawlwyd yn derbyn a gwerthfawrogi'r cyfrifoldeb ychwanegol a ddaw gyda'r trefniadau hyn. Mae gan rai derbynwyr sydd wedi ymfudo i Gredyd Cynhwysol oherwydd newid mewn amgylchiadau lai o hawl a bydd hyn wedi'u gwneud yn llai gwydn yn ariannol ond mae'n debyg bod y toriadau lles ehangach yn y blynyddoedd diweddar wedi cael mwy o effaith na Chredyd Cynhwysol ei hun.

- 7.62 Mae taliadau ymlaen llaw o Gredyd Cynhwysol yn fendith gymysg. Maent yn amhrisiadwy yn helpu pobl i ymdopi â'r cyfnod aros o bum wythnos, ond gall adennill yn fisol y taliad ymlaen llaw beri ei broblemau ei hun. Er enghraifft, dengys yr arolwg hawlwyd ar gyfer yr astudiaeth hon nad yw rhai hawlwyd yn deall bod y taliad ymlaen llaw yn cael ei adennill o daliadau Credyd Cynhwysol dilynol.
- 7.63 O'r data arolwg a'r adolygiad llenyddol, mae Trefniadau Talu Amgen yn ffordd dda o gynnig gwarchodaeth i hawlwyd bregus, ond maent wedi'u cyfyngu'n dynn ac mae ymwybyddiaeth ohonynt yn isel iawn. Cred yr Adran Gwaith a Phensiynau y dylent fod yn eithriadol a dros dro.¹²⁷ Mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng annog cyfrifoldeb personol ac amddiffyn pobl fregus rhag gorddyled a digartrefedd. Mae tystiolaeth o'r fath sydd gennym yn dangos y gallai mwy o bobl elwa o Drefniadau Talu Amgen pe baent ar gael yn fwy rhwydd, efallai law yn llaw â mwy o gymorth gyda chyllidebu. Yn sicr, dengys canlyniadau'r arolygon a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hwn y byddent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan fwy o dderbynwyr Credyd Cynhwysol, tra mae astudiaethau eraill yn awgrymu y gallent fod yn allweddol wrth atal pobl rhag mynd i ddyled, neu, yn achos taliadau wedi'u rhannu, rhag dod yn ddioddefwyr trais domestig.
- 7.64 Bydd cyfran sylweddol o hawlwyd Credyd Cynhwysol angen cymorth, nid yn unig yn ystod y broses hawlio gychwynnol ond yn ystod y cyfnod y maent yn cael y budd-

¹²⁷ Gweler [Alternative Payment Arrangements - Guidance](#) (Adran Gwaith a Phensiynau, diweddarwyd Mawrth 2020) a Frank Hobson, Emily Spoor a Lindsey Kearton [Managing Money on Universal Credit](#) (Cyngor ar Bopeth, Chwefror 2019)

dal hefyd. Mae Llywodraeth y DU yn darparu cymorth mewn rhai agweddau, ac i ryw raddau, ond dengys ein hastudiaeth y bydd angen gwneud mwy i warchod aelwydydd sy'n agored i niwed. Efallai y dymuna Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru ystyried sut y gallant chwarae eu rhan wrth sicrhau bod y cymorth angenrheidiol yn cael ei ddarparu.

8. Casgliad

- 8.1 Mae effaith Credyd Cynhwysol ar aelwydydd yng Nghymru yn amrywio'n eang, gan effeithio ar lefelau hawl i fudd-dal mewn rhai achosion, yn ogystal â dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae'r newid mewn lefelau dyfarnu, ynghyd â'r mecanweithiau hawlio a thalu gwahanol, yn cael effaith ar lwyth achosion gostyngiad yn y dreth gyngor, lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor, ac ôl-ddyledion rhent.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

- 8.2 I lawer o aelwydydd nad ydynt yn cael cymorth yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd, gall symud i Gredyd Cynhwysol gael effaith sylweddol ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae'r dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfartaledd ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol yn £2.60 yn llai'r wythnos nag ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau yn y dyfodol.
- 8.3 Efallai y dymuna Llywodraeth Cymru ddiwygio ei Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gyflawni mwy o gydraddoldeb rhwng hawl wyr Credyd Cynhwysol a'r rheiny ar fudd-daliadau etifeddol. *Mae'r adroddiad hwn yn cynnig opsiynau i Lywodraeth Cymru eu hystyried, gan gynnwys lleihau'r gyfradd tapr o 20% i 10% ar gost flynyddol o £8m.*
- 8.4 Mae Credyd Cynhwysol yn cynyddu costau gweinyddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o ganlyniad i ailasesiadau mwy aml o ddyfarniadau mewn ymateb i'r asesiadau misol o Gredyd Cynhwysol. Mae hefyd yn golygu bod aelwydydd yn derbyn cyfres o filiau'r dreth gyngor diwygiedig. *Awgryma'r ymchwil hwn y gallai Llywodraeth Cymru edrych ar gyflwyno trothwy de minimis, heb ddim cost, i liniaru'r effaith hon, er y gallai rhagor o waith fod yn ofynnol i asesu effaith trothwy de minimis ar is-set fwy o aelwydydd ar draws cyfran fawr o awdurdodau lleol.*
- 8.5 Gallai Credyd Cynhwysol gael effaith ar lwyth achosion gostyngiad yn y dreth gyngor hefyd. Dengys yr ymchwil hwn nad oedd rhai hwylwyr yn sylwi bod y broses ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor ar wahân i ymgeisio am Gredyd

Cynhwysol. *Efallai fod angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru ystyried datblygu'r ystod o gymhellion i godi ymwybyddiaeth o, a chyfraddau hawlio, gostyngiad yn y dreth gyngor.*

- 8.6 Canfu'r arolwg hawlwy'r nad oedd 16% o hawlwy'r budd-daliadau etifeddol yn dymuno ymgeisio am ostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd eu bod yn ofni dyledion yn sgil gordaliadau. *Mae'n bosib y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru yn dymuno archwilio ymhellach p'un a yw arferion adennill dyledion y dreth gyngor wedi cael unrhyw effaith ar y ffordd mae rhai pobl yn dirnad y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.*

Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor

- 8.7 Yng Nghymru, ers 2013, mae ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi aros yn sefydlog fel canran o gyfanswm y dreth gyngor sy'n ddyledus. Ymddengys fod y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cenedlaethol a gwneud iawn am y diffyg sy'n gysylltiedig â'r toriad o 10% mewn cyllid (yn hytrach na mentro bod awdurdodau lleol am ei drosglwyddo i aelwydydd incwm isel) wedi bod â goblygiadau cadarnhaol eraill, o leiaf yn y tymor byr. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth sy'n dod i'r golwg fod ôl-ddyledion y dreth gyngor cynyddol o dan Gredyd Cynhwysol.
- 8.8 Dangosodd ein hastudiaeth fod ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin, ac yn fwy difrifol o dan Gredyd Cynhwysol nag o dan y budd-daliadau etifeddol, ac yn gymharol gyson, i bob golwg, ar draws demograffeg a grwpiau gwahanol sy'n agored i niwed.
- 8.9 Nid oedd gan y rhan fwyaf o aelwydydd nad oedd ganddynt ôl-ddyledion dan fudd-daliadau etifeddol, ôl-ddyledion yn ystod nac ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, symudodd cyfran o aelwydydd (14%) i ôl-ddyledion yn dilyn symud i Gredyd Cynhwysol, ac mae'r gyfradd o ôl-ddyledion a ysgwyddir dan Gredyd Cynhwysol yn ymddangos yn uwch nag i fudd-daliadau etifeddol. Awgryma'r ymchwiliad hwn mai elfennau o symud (megis yr aros am bum wythnos) a ffactorau parhaus (cyllidebu misol, lefelau dyfarnu) sy'n gallu cyfrannu at ôl-ddyledion.

- 8.10 Mae'n bosib nad yw unrhyw gynnydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi'i adlewyrchu eto mewn ystadegau swyddogol ar gyfraddau casglu ac ôl-ddyledion y dreth gyngor. *Fodd bynnag, yng ngoleuni'r dystiolaeth hon sy'n dod i'r golwg, efallai y dymuna Llywodraeth Cymru adolygu ei strategaethau adennill dyledion ac uchafu incwm.*

Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru

- 8.11 Fel gydag ôl-ddyledion y dreth gyngor, canfu'r dadansoddiad hwn fod ôl-ddyledion rhent yn tueddu i fod yn uwch o dan Gredyd Cynhwysol o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol, er bod dystiolaeth ar y *nifer* o bobl ag ôl-ddyledion rhent sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (o'i gymharu â'r rheiny sy'n dal i dderbyn budd-daliadau etifeddol) yn gymysg.
- 8.12 Roedd effaith Credyd Cynhwysol ar y lefel o ôl-ddyledion rhent yn fwy amlwg. Roedd ôl-ddyledion ar gyfartaledd o dan fudd-daliadau etifeddol yn £206 o'i gymharu â £495 o dan Gredyd Cynhwysol. Unwaith eto, yr esboniadau mwyaf cyffredin dros gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent a achoswyd gan ymfudo i Gredyd Cynhwysol oedd: newidiadau mewn lefelau dyfarnu, dyledion a ysgwyddir yn ystod y cyfnod aros o bum wythnos ac anawsterau gyda chyllidebu yn sgil taliadau misol. Yn ogystal, adroddodd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod taliadau uniongyrchol o'r elfen tai i hawlwr yn ffactor yn y twf mewn ôl-ddyledion.
- 8.13 Awgryma ein canfyddiadau fod y rheiny nad ydynt mewn ôl-ddyledion wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol yn parhau i dalu eu rhent yn gyffredinol, tra gall y rheiny sy'n symud i Gredyd Cynhwysol gydag ôl-ddyledion weld yr ôl-ddyledion hynny'n cynyddu'n sylweddol. Awgryma hyn efallai y dymuna Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru dargedu ymyriadau i gefnogi hawlwr sy'n agored i niwed.

Profiad o Gredyd Cynhwysol

- 8.14 Awgryma'r dystiolaeth o'r astudiaethau amrywiol y dyfynnir yn yr adroddiad hwn ac o arolygon a chyfweliadau'r prosiect hwn fod nifer o dderbynwyr Credyd Cynhwysol yn ei chael hi'n anodd dod i delerau â rhai o nodweddion dylunio Credyd Cynhwysol (megis y cyfnod aros o bum wythnos, taliadau misol, a gorfod cyllidebu ar gyfer, a

thalu'r rhent). Dwyseir y problemau hyn lle mae'r hawliad Credyd Cynhwysol yn llai na'r hawliadau o dan fudd-daliadau etifeddol. Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth hefyd fod hawlwyrr eraill yn derbyn a gwerthfawrogi'r cyfrifoldeb ychwanegol a ddaw gyda'r trefniadau hyn.

- 8.15 Mae taliadau ymlaen llaw o Gredyd Cynhwysol yn fendith gymysg. Maent yn amhrisiadwy yn helpu pobl i ymdopi â'r cyfnod aros o bum wythnos, ond gall adennill yn fisol y taliad ymlaen llaw beri ei broblemau ei hun.
- 8.16 Dengys yr arolwg hawlwyrr yn yr astudiaeth hon fod ymwybyddiaeth o Drefniadau Talu Amgen yn isel iawn, a chred yr Adran Gwaith a Phensiynau y dylent fod yn eithriadol a dros dro (er bod Taliadau a Reolir i Landlord wedi bod yn haws i'w cael). Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng annog cyfrifoldeb personol ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag gorddydd a digartrefedd. Mae tystiolaeth o'r fath sydd ar gael o'r astudiaeth hon ac astudiaethau tebyg yn dangos y gallai mwy o bobl elwa o Drefniadau Talu Amgen pe baent ar gael yn fwy rhwydd.
- 8.17 Mae Credyd Cynhwysol yn newid sylweddol i'r system les i aelwydydd incwm isel. Ar y cyfan, mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth bod y symud i Gredyd Cynhwysol yn cael effaith andwyol ar wytnwch aelwydydd a lefelau dyled preswylwyr incwm isel yng Nghymru. Mae tystiolaeth o ddyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor is o ganlyniad, ôl-ddyledion y dreth gyngor uwch, ac ôl-ddyledion rhent uwch, wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol. Mae tystiolaeth hefyd y gallai ôl-ddyledion gynyddu unwaith y mae aelwydydd wedi symud i Gredyd Cynhwysol.
- 8.18 *Yn gryno, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar gefnogi preswylwyr incwm isel yng Nghymru wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Gellid defnyddio'r canfyddiadau o'r ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru i ddeall mwy am effaith Credyd Cynhwysol ac amlygu lle y gellid darparu mwy o gymorth a chymorth wedi'i dargedu yn ddefnyddiol.*

9. Atodiadau

Atodiad 1: Demograffeg Ymatebwyr Arolwg


Arolwg Hawlwyr (n=496)

Adroddodd 23% (103) o ymatebwyr eu bod yn wrywaidd ac adroddodd 76% (344) eu bod yn fenywaidd.

Disgrifiodd 58% (265) o ymatebwyr eu hunain yn sengl, tra adroddodd 19% (85) a 18% (83) yn y drefn honno eu bod yn briod, neu mewn partneriaeth sifil, neu'n byw gyda phartner.

Roedd 78% (352) o ymatebwyr yn rhannu aelwydydd gydag oedolyn arall dros 16, ac roedd 82% (373) yn byw mewn aelwydydd gyda phlant, gan adrodd cyfartaledd o 1.56 o blant.

Dengys y siart isod ddsbarthiad oed yr ymatebwyr, allan o faint sampl o 496.



Roedd 21% (98) o'r ymatebwyr mewn cyflogaeth lawn amser, 23% (105) mewn cyflogaeth ran-amser, 2% (10) yn hunangyflogedig, 15% (70) ddim yn gallu gweithio o ganlyniad i salwch neu anabledd hirdymor, ac roedd 17% (77) yn ddi-waith ac yn chwilio am waith.

Roedd 16% (73) o'r ymatebwyr yn rhentu gan landlord preifat, 53% (239) yn rhentu gan awdurdod lleol, 10% (47) yn rhentu gan gymdeithas dai, 15% (70) yn berchnogion-feddianwyr ac roedd 2% (8) mewn llety dros dro.


Roedd 73% (334) o'r ymatebwyr wedi derbyn taliadau Credyd Cynhwysol yn y tri mis blaenorol.

Arolwg Rhanddeiliaid (n=432)

Mae 74% (230) o'r ymatebwyr yn gweithio'n uniongyrchol â phobl sy'n hawlio budd-daliadau lles fel rhan o'u rôl.

Roedd 49% (157) o'r ymatebwyr yn landlordiaid y sector rhentu preifat, 19% (62) yn landlordiaid y sector rhentu cymdeithasol neu'n gweithio i gymdeithasau tai ac roedd 11% (34) yn gynghorwyr lles.

Mae'r siart isod yn cynrychioli'r nifer o denantiaid a adroddwyd gan landlord (y sector rhentu preifat neu gymdeithasol) neu gymdeithas dai a holwyd, allan o faint sampl o 266.



Atodiad 2: Methodoleg

Ffynonellau Data

Data Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE).

Dyma gofnod misol, safonol dan berchnogaeth awdurdodau lleol o bob aelwyd yn yr ardal awdurdod lleol sy'n derbyn naill ai Budd-dal Tai neu ostyngiad yn y dreth gyngor. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys yr holl ddata ar lefel aelwyd sydd ei angen i gyfrifo Dyfarniadau Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor, gan gynnwys gwybodaeth am incwm aelwydydd unigol, amgylchiadau teuluol a statws anabledd.

Ar gyfer y prosiect, casglwyd data SHBE gan awdurdodau lleol Cymru ar draws pedair ton, yn cyfateb i fis Mawrth, Mehefin, Medi a Thachwedd 2019. Darparodd 19 awdurdod lleol ddata SHBE ym mis Mawrth, pob un o'r 22 ym mis Mehefin, 21 ym mis Medi a 20 ym mis Tachwedd.

Anfonwyd setiau data gydag enwau a chyfeiriadau llawn wedi'u golygu. Traciwyd aelwydydd unigol ar draws tonau gan ddefnyddio Rhifau Cyfeirnod Budd-dal Tai wedi'u cyfuno â chodau awdurdodau lleol. Roedd y set ddata SHBE derfynol yn cynnwys 274,773 o aelwydydd, yn cynnwys 166,038 wedi'u dynodi fel oedran gweithio.

Data Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor

Yn ychwanegol i ddetholiadau SHBE, mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn cofnodi'n rheolaidd ddata ar lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent tai cymdeithasol hefyd. Gofynnwyd am ddetholiadau ôl-ddyledion y dreth gyngor gan bob un o'r awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan. Cafwyd setiau data gan 13 awdurdod lleol yn nhon mis Mawrth 2019, 15 ym mis Mehefin, 18 ym mis Medi a 16 ym mis Tachwedd.

Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd rhai o'r setiau data hyn yn cynnwys yr adnabyddwyr cyffredin angenrheidiol a oedd yn ofynnol i gysylltu â detholiadau SHBE. Trafodir y broses ar gyfer cyflawni'r sampl terfynol ar gyfer y dadansoddiad o ôl-ddyledion y dreth gyngor yn yr adran berthnasol o'r prif adroddiad.

Gofynnwyd am ddetholiadau ôl-ddyledion rhent gan bob un o'r awdurdodau lleol a gymerai ran, a oedd yn meddu ar eu stoc tai cymdeithasol eu hunain. Cafodd detholiadau ôl-ddyledion rhent eu darparu hefyd gan 9 cymdeithas dai gyda stoc yng Nghymru. Cafwyd setiau data ôl-ddyledion rhent gan 5 awdurdod lleol a 5 cymdeithas dai yn nhon mis Mawrth 2019, 8 awdurdod lleol a 5 cymdeithas dai ym mis Mehefin, 8 awdurdod lleol a 9 cymdeithas dai ym mis Medi, a 8 awdurdod lleol a 8 cymdeithas dai ym mis Tachwedd. Fel gyda data ôl-ddyledion y dreth gyngor, nid oedd posib cysylltu'n llawn â detholiadau SHBE ar gyfer pob ffeil ôl-ddyledion rhent a gafwyd. Trafodir manylion y paru hwn, a'r sampl terfynol a sicrhawyd yn y prif adroddiad.

Arolygon Hawlwyr a Rhanddeiliaid

Rhoddodd Policy in Practice ddeunyddiau recriwtio i bob awdurdod lleol a chymdeithas dai a oedd yn cymryd rhan ar gyfer yr elfen arolwg ar-lein o'r ymchwil. Roedd y deunyddiau hyn yn cynnwys gwybodaeth a dolenni cofrestru i'r arolygon hawlwr a rhanddeiliaid. Cafodd y deunyddiau recriwtio i'r arolwg hawlwr eu dosbarthu gan yr awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan (a rhai cymdeithasau tai) i'w rhestrau postio o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol. Cylchredwyd y deunyddiau recriwtio rhanddeiliaid yn fewnol ymhlith y timau rheng flaen a strategol yn yr awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a oedd yn cymryd rhan. Dosbarthwyd y deunyddiau recriwtio rhanddeiliaid gan Rhentu Doeth Cymru hefyd i'w rhestr bostio o landlordiaid y sector preifat. Yn olaf, dangoswyd gwybodaeth recriwtio a dolenni i'r arolygon hawlwr a rhanddeiliaid yn gyhoeddus ar wefan Policy in Practice.

Cofrestrodd 494 o hawlwr a 432 o rhanddeiliaid i gymryd rhan yn yr arolygon. Roedd gostyngiad uchel yn y nifer o ymatebwyr drwy'r arolygon, yn enwedig yn yr arolwg rhanddeiliaid byrrach. Rhannwyd yr arolwg hawlwr yn ddwy brif elfen, ac atodiad byr. Cytunodd 259 o hawlwr i gwblhau'r arolwg atodol. Gellir dod o hyd i ddadansoddiadau manwl o gwestiynau, ymatebion a meintiau sampl arolygon yn y tablau data atodol a ddarperir law yn llaw â'r prif adroddiad.

Cyfweliadau Hawlwyr a Rhanddeiliaid

Aethpwyd ati i recriwtio i'r cyfweliadau hawlwr a rhanddeiliaid yn bennaf drwy'r pwll o ymatebwyr arolwg (a ategwyd gan gronfa ddata ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru i

ddosbarthu rhagor o wahoddiadau cyfweiliad yn ddetholus). Drwy'r dull hwn, cafodd 23 o hawl wyr a 14 o randdeiliaid eu cyfweld gan ddau gyfwelydd hyfforddedig. Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn, aethpwyd ati i'w cofnodi a'u tanysgrifio, a chafodd canlyniadau eu rhoi mewn tabl yn defnyddio grid thematig. Defnyddiwyd y grid thematig hwn i gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig llawn, sydd wedi cael ei gynnwys fel dogfen atodol law yn llaw â'r prif adroddiad.

Gweithdrefn Ddadansoddol

Data SHBE

Mae Policy in Practice wedi datblygu peiriant modelu polisi cynhwysfawr, y Gyfrifiannell Budd-dal a Chyllidebu, sy'n tynnu'r newidynnau perthnasol o ddata SHBE ac yn cyfrifo dyfarniadau budd-daliadau ar lefel aelwyd (gan gynnwys hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor) i raddau uchel o gywirdeb, gan ystyried newidiadau polisi a thueddiadau economi ehangach. Gellir addasu paramedrau'r peiriant polisi hwn i ddarparu modelu senario damcaniaethol, er enghraifft drwy addasu elfennau o Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol neu ail-gyfrifo dyfarniadau budd-daliadau aelwyd dan Gredyd Cynhwysol o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol.

Ffigwr A2.1: Mae'r Gyfrifiannell Budd-daliadau a Chyllidebu yn Cynhyrchu Hawliadau Budd-daliadau Cywir ar Lefel Aelwyd, Dan Senarios Polisi Gwahanol

Detailed breakdown	
Current system	
Means-tested IS, JSA, ESA or Pension Credit	£0.00 ⓘ
Pension Credit	£0.00
Working Tax Credits	£0.00
Child Tax Credits	£277.08 ⓘ
Housing Benefit	£350.00 ⓘ
Carers Allowance	£0.00
Child Benefit	£89.70
PIP / DLA	£0.00
Council Tax Support	£69.49 ⓘ
Net earnings	£468.00 ⓘ
Contributory ESA/JSA	£0.00
Other Income	£0.00

Cyflawnwyd y dadansoddiad o newidiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan brosesu data SHBE drwy fersiynau o'r gyfrifiannell a adlewyrchai ddiwygiadau penodol i'r cynllun fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor a Rhent

Ar gyfer y dadansoddiad o ôl-ddyledion, defnyddiwyd meysydd o'r data SHBE i adnabod pa aelwydydd yn y setiau data ôl-ddyledion rhent a'r dreth gyngor oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol, a pha rai oedd yn derbyn budd-daliadau etifeddol. Yn ogystal, darparodd yr wybodaeth gyfoethog am aelwydydd o'r data SHBE y sail ar gyfer patrymau dadgyfunol o ôl-ddyledion yn ôl is-grwpiau demograffig gwahanol. Ceir gwybodaeth am y fethodoleg benodol ar gyfer dadansoddi data ôl-ddyledion y dreth gyngor a rhent yn y prif adroddiad.

Arolygon Hawlwyr a Rhanddeiliaid

Roedd yr arolwg hawlwr yn cymryd oddeutu 20 munud i'w gwblhau (10 munud ar gyfer yr arolwg craidd a 10 munud ar gyfer yr arolwg atodol), ac roedd yr arolwg rhanddeiliaid yn cymryd oddeutu 10 munud. Trefnwyd cwestiynau arolwg yn ôl blociau thematig, gyda thestun cyflwyniadol ar derminoleg dechnegol (e.e. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ôl-ddyledion rhent etc) ar gyfer y sampl hawlwr. Ceir rhestr lawn o gwestiynau ac ymatebion arolwg yn yr adroddiad ar ffurf tablau data.

Cyfweliadau Hawlwyr a Rhanddeiliaid

Roedd cyfweliadau yn para 45 munud. Roedd y cwestiynau arolwg yn dilyn yr un strwythur blociau thematig â'r arolygon, gyda mwy o gyfleoedd i'r ymatebwyr ymhelaethu, ac i'r cyfwelwyr archwilio materion newydd mewn mwy o fanylder. Ceir manylion y fethodoleg ar gyfer cyfweliadau a'r canlyniadau llawn mewn dogfen atodol law yn llaw â'r prif adroddiad.

Atodiad 3: Codiadau yn y Dreth Gyngor

Tabl A6.1: Codiadau yn y Dreth Gyngor a Ddefnyddiwyd wrth Fodelu

Cynnydd blyneddol yn y Dreth Gyngor a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2021-22, yn ôl awdurdod lleol¹²⁸ Roedd modelu dros ddwy flynedd felly mae'r cynnydd cyfartalog yn Dreth Gyngor wedi cael ei gymhwyso ddwywaith.

Awdurdod Lleol	Cyfartaledd Cynnydd yn y Dreth Gyngor %
Cyfartaledd	5.00
Blaenau Gwent	4.40
Pen-y-bont ar Ogwr	4.80
Caerffili	4.30
Caerdydd	5.00
Sir Gaerfyrddin	4.50
Ceredigion	5.60
Conwy	6.10
Sir Ddinbych	4.70
Sir y Fflint	5.90
Gwynedd	4.60
Ynys Môn	5.50
Merthyr Tudful	4.70
Sir Fynwy	5.00
Castell-nedd Port Talbot	3.90
Casnewydd	4.80
Sir Benfro	8.80

¹²⁸ Mae'r cynnydd yn y dreth gyngor yn cael ei gyfrif fel cyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf fesul ALI (Ffynhonnell: [StatsCymru](#))

Powys	6.60
Rhondda Cynon Taf	3.70
Abertawe	5.10
Mannau codi	4.90
Bro Morgannwg	4.40
Wreccsam	4.20

Atodiad 4: Crynodeb o Opsiynau yn yr Adroddiad Interim

	Model 1: Didyniad cyfradd safonol i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion	Model 2: Newid tapr i 10%	Model 3: Dyfarniad gwarantedig	Model 4: Llawr Isafswm Incwm yn y CTRS yn seiliedig ar 16 awr	Model 5: Cael gwared â'r terfyn dau blentyn yn y CTRS	Model 6: Cynllun â Band Incwm
Grŵp yr effeithir arnynt	Aelwydydd Budd- daliadau Etifeddol a Chredyd Cynhwysol gyda phersonau sy'n gweithio nad ydynt yn ddibynyddion	Aelwydydd Budd- daliadau Etifeddol a Chredyd Cynhwysol gydag enillion uwchlaw anghenion (aelwydydd sy'n gweithio)	Aelwydydd Budd- daliadau Etifeddol a Chredyd Cynhwysol gyda dyfarniad sy'n llai na 15% o'r atebolrwydd (aelwydydd sy'n gweithio)	Aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol y mae disgwyl iddynt weithio mwy na 16 awr yr wythnos	Aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd â mwy na 2 o blant a phlentyn a anwyd ar ôl Ebrill 2017	Pawb o oedran gweithio
Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	1,217	26,689	927	503	365	Pawb o oedran gweithio
Newid mewn dyfarniad (£/yr wythnos) i aelwydydd yr effeithir arnynt: Credyd Cynhwysol	+£1.60 (+60%)	+£1.60 (+60%)	+£1.60 (+85%)	+£6.50 (+192%)	+£10.00 (+135%)	-£0.80 (-4%)
Newid mewn dyfarniad (£/yr wythnos) i aelwydydd yr effeithir arnynt: Etifeddol	+£1.60 (+53%)	+£5.70 (+41%)	+£1.60 (+73%)	Dim effaith	Dim effaith	-£1.10 (-5%)
Effaith ar gyfanswm y Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor (CTR) (£ y flwyddyn)	+£0.5M (+0.2%)	+£8M (+3%)	+£0.1M (+0.0%)	+£0.2M (0.0%)	+ £0.2M (+0.0%)	-£8M (-3%)
Effaith ar lwyth achosion	Tebygol o gynyddu Gallai rhai aelwydydd gyda phersonau nad ydynt yn ddibynyddion ddod yn gymwys	Tebygol o gynyddu Gallai rhai aelwydydd gydag incwm uwchlaw anghenion ddod yn gymwys	Yn debygol o gynyddu oherwydd y meini prawf cymhwysedd syml	Tebygol o gynyddu Gallai rhai aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ddod yn gymwys	Tebygol o gynyddu Gallai aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd â phlentyn a anwyd ar ôl Ebrill 2017 ddod yn gymwys	Nid yw 19,515 o aelwydydd yn gymwys bellach Gallai rhai aelwydydd ddod yn gymwys

Y mathau o aelwydydd sydd fwyaf tebygol o ennill o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22*	Wedi'i daenu'n eithaf teg ar draws gwahanol grwpiau demograffig Credyd Cynhwysol fymryn yn well eu byd o'i gymharu â budd-daliadau etifeddol	Credyd Cynhwysol hunangyflogedig +112% Credyd Cynhwysol cyflogedig + 64% Etifeddol cyflogedig + 22%	Credyd Cynhwysol hunangyflogedig + 1% Credyd Cynhwysol cyflogedig + 1%	Credyd Cynhwysol hunangyflogedig +97%	Cwpl â phlant + 2% Bydd yr effaith yn cynyddu dros amser wrth i fwy o blant gael eu geni ar ôl Ebrill 2017	Aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith + 1% Mae pob grŵp aelwyd arall yn colli cefnogaeth
---	---	---	---	---------------------------------------	---	---

Diwygiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Adroddiad Interim, diweddarwyd yn defnyddio data 2019

Atodiad 5: Opsiwn Cyfradd Tapr yn ôl Awdurdod Lleol

Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar gyfartaledd, £ yr wythnos, gyda'r Tapr ar 10% yn ôl Awdurdod Lleol (Aelwydydd yr Effeithir arnynt yn Unig)

Awdurdod Lleol	Etifeddol		Credyd Cynhwysol	
	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21 (£ yr wythnos yn ychwanegol)	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21 (£ yr wythnos yn ychwanegol)
CYMRU GYFAN	12,390	£5.50	14,300	£6.30
Blaenau Gwent	273	£4.71	411	£5.24
Pen-y-bont ar Ogwr	735	£6.17	768	£5.98
Caerffili	505	£4.68	434	£5.62
Caerdydd	2,010	£5.09	2,049	£7.08
Sir Gaerfyrddin	716	£5.22	648	£5.74
Ceredigion	340	£6.37	185	£7.81
Conwy	476	£5.29	332	£6.78
Sir Ddinbych	248	£6.10	1,124	£6.46

Sir y Fflint	564	£6.03	25	£6.24
Gwynedd	533	£5.86	414	£7.14
Ynys Môn	259	£5.83	176	£4.89
Merthyr Tudful	229	£3.83	298	£5.48
Sir Fynwy	291	£6.16	530	£5.75
Castell-nedd Port Talbot	645	£5.90	919	£6.78
Casnewydd	595	£4.43	557	£6.15
Sir Benfro	401	£5.29	509	£6.11
Powys	467	£6.66	507	£7.07
Rhondda Cynon Taf	803	£5.11	937	£6.26
Abertawe	896	£5.98	1,064	£6.25
Torfaen	320	£5.20	1,060	£5.10
Bro Morgannwg	629	£5.98	388	£7.76
Wrecsam	456	£5.96	963	£5.29

